~ www.ecorwyddfa.co.uk ~

# ECO'r Wyddfa

Dilynwch ni ar facebook
www.ecorwyddfa.co.uk

Rhif: 484 Chwefror 2020 Pris:£1

# Gwobr Gymunedol a Gwarchod Trysorau'r Genedl








Mae trigolion lleol wedi hen arfer gweld faniau coch Snowdonia Fire and Security, Waunfawr ar lonydd Gwynedd – a thu hwnt, ond ychydig sy'n gwybod am lwyddiannau'r cwmni. Sefydlwyd y cwmni yn 1974 gan David Greasley, a bellach, ei fab, Peter, sy'n rhedeg y cwmni, ynghyd a'i wraig, Janet a'u tri mab, Dafydd, Marc a Sion. Dros y blynyddoedd mae'r cwmni wedi tyfu, a bellach mae ganddynt ganolfannau, nid yn unig yn y Waunfawr, ond hefyd yn Aberystwyth, Bae Cinmel a'r Amwythig, gan wasanaethu busnesau led-led gogledd a chanolbarth Cymru, swydd Caer a swydd Amwythig. Maent yn cyflogi 70 o weithwyr.

Ddiwedd 2019 enillodd y cwmni gontract gwerth £80,00 dros y pum mlynedd nesaf i osod a chynnal larymau tan ym mhob un o 120 swyddfa heddlu yng ngogledd Cymru. Roedd cwmni anferth Honeywell o'r Unol Daleithiau yn cystadlu am yr un cytundeb, ond y cwmni lleol fu'n llwyddiannus.

Ym mis Hydref 2019 cyflwynwyd Gwobr Gwerth Cymdeithasol i'r cwmni gan Arfon Jones, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru. Mae Polisi Gwerth Cymdeithasol y Comisiynydd yn anelu at ddefnyddio ei bwerau gwario er mwyn gwella a hyrwyddo lles cymunedau gogledd Cymru. Meddai'r Comisiynydd, "Mae tua 80% o'n cyllideb ar gyflogau a phensiwn, felly rydym yn gwario tua £30 miliwn ar nwyddau traul. Fy nod yw defnyddio hwn er lles cymunedau'r gogledd. Mae Snowdonia Fire and Security yn fusnes blaengar sy'n cyflogi staff lleol gan ddarparu hyfforddiant a chynllun prentisiaeth rhagorol. Mae pob punt sy'n cael ei gwario'n lleol yn llesol i'n cymunedau, ac y mae hyn yn rhan greiddiol o bolisi'r cwmni hefyd."

Mae'r cwmni yn cyflogi'n lleol, ac mae pob un o'u 50 cerbyd gwaith wedi ei brynu'n lleol. Mae'r cwmni hefyd wedi noddi timau pel-droed lleol, noddi hyfforddiant a chystadleuaeth bysgota i ysgolion Gwynedd a Mon, noddi Cystadleuaeth Piano Ryngwladol yn Y Galeri, Caernarfon, ac amryw elusennau lleol eraill gan gynnwys Gafael Llaw.

A bellach, mae'r cwmni o'r Waunfawr yn gwarchod trysorau'r genedl yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Ddechrau Ionawr eleni enillodd y cwmni gytundeb gwerth £10,000 dros ddwy flynedd i warchod yr adeilad a ddioddefodd dan difrifol yn 2013. Bydd y tim o chwech sydd wedi sefydlu yn Abrystwyth yn gofalu am 400 o ddiffoddwyr tan a 1500 firedetector, sy'n gwarchod 6.5 miliwn o lyfrau, 800,00 o ffotograffau, 50,000 o ddarluniau a chelf, yn ogystal a llawysgrifau a chasgliadau o bob rhan o Gymru.

ISSN 2516-7235

ECO'r Wyddfa

CYMRAEG

RHIF 484
Chwefror 2020
Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Straeon ac erthyglau ar e-bost i
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com**

**CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH**
Tony Elliott, Bwlch Cae Mawr, Deiniolen LL55 3LU 07798552238
tonyelliott17@yahoo.com

**GOLYGYDD CHWARAEON**
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

**GOLYGYDD YR IFANC**
Marged Rhys
marged_3@hotmail.com

**FFOTOGRAFFWR**
Gwyndaf Hughes, Hafan, Llanrug (672221)
glasgoed@hotmail.com

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
Rhian Elin George, Swn yr Engan, Brynrefail (01286) 872306
ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

**TREFNYDD ARIANNOL**
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (01286 674839)

**TREFNYDD GWERTHIANT POST**
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (01286 674839)

**TREFNYDD BWNDELU**
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

**TREFNYDD DOSBARTHU**
Hefin Jones, Pantmwyn, Llanrug. 01286 673838

**GOHEBWYR PENTREFI**
**DEINIOLEN:** Nia Gruffudd (872133)
**BETHEL:** Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115
**BRYNREFAIL:** Mrs Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed (870580)
**CAEATHRO:** Lowri Ceiriog, 4 Erw Wen. lowriceiriog@hotmail.co.uk
**CEUNANT:** Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
**CWM-Y-GLO:**
**DINORWIG:** Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
**LLANBERIS:** Eifion Roberts, Swn-y-Gwynt (870740)
**LLANRUG:** Eryl Roberts, Peris, 56 Glanffynnon (675384)
**NANT PERIS:** Kate Pritchard (872331) neu econantperis@hotmail.com
**PENISARWAUN:** Katie Williams, Ty'n Waen, Penisa'r-waun Ffôn 01248 671 622 ecopenisarwaun@hotmail.co.uk
**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)

## DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2020

| Rhifyn | Copi i law | Bwndelu | Ble |
|---|---|---|---|
| Mawrth | 16eg Chwefror | 28ain Chwefror | Llanrug |

## LLYTHYRAU

### Apêl am gyfraniadau a gwobrau ariannol i Eisteddfod Genedlaethol 2021

Fel y gwyddoch, mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn ymweld â Boduan ym Mhen Llŷn yn y flwyddyn 2021, ac y mae croeso mawr yn ei disgwyl. Roedd y brwdfrydedd a welwyd mewn cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd ym Mhwllheli fis Tachwedd gyda thros 400 yn bresennol yn hynod gadarnhaol. Erbyn hyn, sefydlwyd y pwyllgorau pwnc i gyd, ynghyd â swyddogion y pwyllgor gwaith, ac mae'r broses o sefydlu pwyllgorau apêl ym mhob rhan o'r dalgylch i godi arian at y gronfa leol ar waith. Bydd y rheini yn gyfrifol am drefnu nifer o weithgareddau cymunedol i gyrraedd nod ariannol o £400,000.

Er mai yn Nwyfor y cynhelir yr Eisteddfod mae Arfon yn rhan o'r dalgylch, a'r gobaith yw y bydd yna gydweithio ar draws yr ardal gyfan fel y gwelwyd yn ôl yn 2005 pryd y cynhaliwyd y brifwyl ar Ystâd y Faenol ger Bangor. Dyna fyrdwn yr apêl yma mewn gwirionedd, sef eich annog i gefnogi er mwyn medru cynnal prifwyl werth chweil yn Awst 2021.

Ymhlith y testunau a gyhoeddir Haf nesaf, bydd manylion nifer o roddion gwobrau tuag at y cystadlaethau amrywiol, a diolch i bawb sydd eisoes wedi addunedu cyfraniadau. Braf o beth fyddai cael Rhestr Testunau 2021 yn llawn o roddion gwobrau erbyn y Cyhoeddi - tybed felly oes gennych chi ddiddordeb mewn cyfrannu ond ddim yn siŵr sut i fynd o'i chwmpas hi?

Mae unigolion a sefydliadau yn medru cynnig gwobr am amrywiol resymau - ffordd syml ond hynod effeithiol o gefnogi'r Eisteddfod yn ogystal â phwyllgor apêl o ddewis y rhoddwr, gan fod y cyfraniadau (ac ad-daliad Rhodd Gymorth os yn gymwys) i gyd yn mynd ar gyfer targedau'r gronfa leol. Mae gwerth y gwobrau yn amrywio o £15 i £5,000, felly mae gwobr addas ar gael i bob poced!

Mae cynnig gwobr yn syml iawn, gellir mynd ar dudalen Rhoi Gwobr ar www.eisteddfod.cymru neu e bostio alwyn@eisteddfod.org.uk gyda'r manylion perthnasol (adran a swm ariannol). Mi fydd rhoddion gwobrau a dderbynnir cyn diwedd Ebrill 2020 yn sicr o ymddangos yn y Rhestr Testunau.

Mae bwriad hefyd i greu Cymdeithas Ugain - Un ar hugain, sef cymdeithas o garedigion fyddai'n barod i roi i'r gronfa £20 y mis dros gyfnod o un mis ar hugain (wrth gwrs byddai unrhyw swm o'ch dewis yn dderbyniol iawn). Byddai hyn ynghyd ag ad-daliad rhodd gymorth yn werth dros £500 tuag at Eisteddfod 2021. Tybed a fyddech chi mor hael a dod yn aelod o'r Gymdeithas hon?

I wybod mwy am sut y gallwch gefnogi a chyfrannu at lwyddiant Eisteddfod Genedlaethol 2021, ewch i wefan yr Eisteddfod www.eisteddfod.cymru neu cysylltwch â'r Swyddfa ar 0845 40 90 400.

---

Annwyl Ddarllenwyr,

Wrth i mi bori trwy rifyn 'Dolig yr Eco darllennais Yn ystod y mis aeth heibio am y lefel isel o amddifadedd yn 'Llanrug, Bethel a Chwm y Glo'. Ardderchog !

Ie, mae gan fwyafrif helaeth pobl yr ardaloedd hyn lefel isel o amddifadedd ( sef, yn syml, 'tlodi'). Ond ym mhob ardal 'lwcus' gwelir lleiafrif sylweddol sydd a lefelau uchel o amddifadedd, gan gynnwys 'Llanrug, Bethel a Chwm y Glo'.

Mae'r gwrthrych yn wir am ardaloedd sydd a lefel uchel o amddifadedd ! Yn yr un modd mae gan yr ardaloedd hyn ardaloedd sydd a lefelu llawer is. Mae'r ystadegau ( sef 'gwybodaeth' ) yn cyfeirio at lefel penodol ystadegol sydd ar fap, nid cymunedau dynol.

Beth all y rhai mwy ffortunus yn yr ardaloedd hyn ei gyflawni er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n llai ffortunus ?

Clive James
Gynt o Gaeathro.

## RHODDION

**Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru**

£20 – Er cof am Haydn gan deulu Rhandir Mwyn, Waunfawr; Mrs Bet Jones, Ffordd Glanffynnon, Llanrug

£10 - Liz Roberts, 7 Lon y Meillion, Bangor; Brian Sharpe, Ael-y-Bryn, Bethel; Teulu'r diweddar Tom Williams, Llwydiarth, Waunfawr; Eirwyn Williams, Llwyncoed, Cwm y Glo.

£5: Elizabeth Foster, 89 Pentre Helen; Mrs Jennie Williams, 1 Rhydfadog; Gwyn Williams, Llys Myfyr, Brynrefail.

## Tŷ Newydd

Clwb Darllen, ychydig bach yn wahanol, dan ofal Aled Jones Williams y dramodydd.

Roedd y cyfarfod cyntaf nos Fawrth, Ionawr 14eg 2020 am 7:00pm tan 9:00pm yn y Lolfa Lên yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd, Llanystumdwy. Cyn y cyfarfod cyntaf roedd lle ar ôl i dri pherson. Mae dal amser i gysylltu os oes gennych ddiddordeb.

Y rhestr o lyfrau i'w darllen yw:

Emrys ap Iwan, Cofiant gan T. Gwynn Jones;

Breuddwyd Pabydd wrth ei Ewyllys, Emrys ap Iwan (Dalen Newydd)

John Saunders Lewis, y gyfrol gyntaf, D. Tecwyn Lloyd (Gwasg Gee)

Monica, Saunders Lewis (Gwasg Gomer)

Ingrid gan Rhiannon Ifans

Diolch o galon
Gwen Lasarus James
Swyddog Cymunedol

# Galw lleol am Lôn Las Seiont



Mewn cyfarfod yn Y Caban, Brynrefail ar bnawn Sadwrn ganol fis Ionawr, daeth tua hanner cant o drigolion lleol ynghyd i alw am gefnogaeth, ac i rannu barn a gwybodaeth am lwybr aml-ddefnyddwyr o Lanberis i Gaernarfon fyddai'n cynnwys y Lôn Las bresennol ar lannau Llyn Padarn.

Galwyd y cyfarfod gan Bryn Rees Hughes a Cordelia Helen gan ddefnyddio'r cyfrwng cymdeithasol Facebook, a hynny rhyw dridiau yn unig cyn dyddiad y cyfarfod. Yn y cyfnod byr hwn roedd tua 200 o bobl wedi hoffi'r dudalen ac wedi dangos cefnogaeth. Ymhlith y rhai'n bresennol yn y cyfarfod roedd cynrychiolwyr o fyd beicio a marchogaeth, tirfeddiannwyr, cynghorwyr lleol ac arweinwyr sefydliadol.

Y llwybr arfaethedig o Lanrug i Gaernarfon oedd dan sylw, gyda dau opsiwn yn cael ei ystyried: dilyn gwely yr hen reilffordd neu ddilyn ochr y briffordd. Derbyniwyd mewnbwn gan amryw ynglŷn â manteision ac anfanteision y ddau opsiwn, ond roedd mwyafrif helaeth y rhai'n bresennol yn ffafrio llwybr ar hyd gwely'r hen reilffordd cyn belled a bo hynny'n bosib.

Pwysleisiwyd nad llwybr wedi ei gyfyngu i feicwyr yn unig a ddylai Lôn Las Seiont fod, ond yn hytrach yn llwybr yn rhoi hawl i farchogaeth ceffylau, yn llwybr hamddena ac yn llwybr treftadaeth, a'i fod, o reidrwydd yn addas i ddefnyddwyr anabl hefyd.

Erbyn i'r rhifyn hwn o'r "Eco" eich cyrraedd, bydd ail gyfarfod wedi ei gynnal gan y grŵp i ystyried y dulliau mwyaf effeithiol o ennyn cefnogaeth i sefydlu Lôn Las Seiont.

# Yn ystod y mis aeth heibio....

- Dros dri chant o ddrudwy yn cael eu darganfod yn farw ar lôn gefn ym Modedern, ond dim un yn y caeau o'r naill ochr, a hyn yn arwain at bob math o ddamcaniaethau ynglŷn â'r hyn achosodd eu difodiant.
- Lecsiwn – yda chi'n cofio honno? Y cenedlaetholwyr yn sgubo i fuddugoliaeth yn yr Alban, a chenedlaetholwyr Gogledd Iwerddon yn ennill mwyafrif am y tro cyntaf ers 1921. A Chymru fach, daeog yn plygu glin i genedlaetholdeb Seisnig. Môn Mam Cymru yn cefnu ar ei phlant ac yn cofleidio dieithwraig o Kensington, a chrafanc las Doriaidd yn gwasgu o amgylch y Gymru Gymraeg orllewinol.
- Llywodraeth Cymru yn dyrannu cyllid i gynghorau'r wlad, a Gwynedd yn derbyn £187 miliwn, cynnydd o 4.6%; y cynnydd sylweddol mwyaf ers 12 mlynedd. Beirniadaeth gan y gwrthbleidiau i'r gyllideb, ond arweinydd Cyngor Gwynedd yn weddol obeithiol, ac yn croesawu'r cynnydd er nad yw'n dileu'r £1 biliwn o doriadau o gyllid awdurdoadu lleol ers 2009/10.
- Cais llawn Cyngor Gwynedd i ddynodi Ardaloedd y Llechi yn Safle Treftadaeth Byd yn cael ei gyflwyno i UNESCO ac Adran Diwylliant Llywodraeth Prydain. Bydd ymweliadau yn cychwyn fis Hydref eleni, a phenderfyniad yn cael ei gyhoeddi erbyn haf 2021.
- Yma o Hyd. Yn dilyn ymgyrch gan y grŵp Yes Cymru, cân Dafydd Iwan, yn dyddio o 1983, yn cyrraedd rhif 1 yn siart iTunes; y tro cyntaf erioed i gân Gymraeg ei hiaith wneud hynny.
- Storm Brendan, y gyntaf, mae'n debyg o amryw stormydd gaeafol, yn chwipio drwy'r fro gyda gwyntoedd uchel a glaw trwm; ond diolch i'r drefn, fawr o ddifrod difrifol.
- Llywodraethau datganoledig yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon yn gwrthod cynllun Brexit Boris Johnson, ond fe'u hanwybyddir gan San Steffan. Mor wag ydi'r geiriau 'Undeb o Genhedloedd cyfartal.'
- ... ac er gwaethaf stormydd o genllysg anferth a glaw trwm, mae Awstralia yn dal i losgi.

# Dyfodol yr "Eco"

Cynhaliwyd yr ail gyfarfod i drafod dyfodol Eco'r Wyddfa ar nos Fercher, Ionawr 17eg. Cytunwyd yn y cyfarfod cyntaf ar ddwy flaenoriaeth, sef:

1. Ceisio sicrhau cefnogaeth a mewnbwn er mwyn cynnal y papur yn ei ffurf bresennol, a
2. Llunio strategaeth briodol ar gyfer datblygu agweddau digidol a thechnolegol i gyfoethogi ac ychwanegu at y papur.

Cafwyd nifer o gynigion o gymorth yn dilyn y cyfarfod cyntaf. Yn anffodus, cafwyd nifer o ymddiheuriadau cyn yr ail gyfarfod ac roedd yn anodd i gael trafodaeth ystyrlon. Ar hyn o bryd mae ffordd ymlaen gennym i weithio ar yr elfennau digidol, technolegol ac ati. Mae gennym syniadau ar gyfer y ffordd ymlaen mewn perthynas â'r materion creiddiol ar gyfer golygu'r papur a hefyd yr hysbysebion. Er mwyn cael trefn gadarn ar gyfer yr agweddau hyn fodd bynnag, mae angen cynnal trafodaethau efo sawl person cyn cael darlun clir o'r hyn sydd angen ei gyflawni.

Gofynnir i unrhyw un sydd â diddordeb mewn cynorthwyo gydag amryfal waith yr "Eco" i gysylltu â'r Cadeirydd.

# WAUNFAWR Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

## Ysgol Gynradd

Hoffai plant a staff yr ysgol ddymuno blwyddyn newydd dda i holl ddarllenwyr yr Eco. Bu'n ddiwedd tymor prysur fel arfer.

Cyngerdd dosbarth Meithrin Daeth rhieni'r plant Meithrin i'r ysgol fore ddydd Iau, Rhagfyr y 19eg, i glywed y plant yn canu a chael paned a mins pei. Roedd y plant yn werth eu gweld yn eu gwisgoedd ac roedd hi'n hyfryd gweld y neuadd yn llawn.

Antur Roedd plant Adran y Babanod wedi eu cyfareddu wrth gael brecwast gyda Siôn Corn yn yr Antur ddiwedd y tymor. Diolch i Tracy a Dianne am baratoi brecwast mor flasus.

Wythnos Iechyd a Lles Wythnos gyntaf y tymor cafwyd wythnos o weithgareddau Lles ac Iechyd. Rhoddwyd cyfle i'r disgyblion benderfynu ar gymeriadau y Pwerau Dysgu, cynnal gwersi Yoga a ffitrwydd a Diogelwch y We. Mae pawb wedi mwynhau yr amrywiol weithgareddau ac wedi cael budd yn trafod gyda ei Ffrindiau Oes.

Croeso Estynnwn groeso cynnes i Mr Jake Thomas a fydd ar brofiad ysgol ym mlwyddyn 6 yn ystod y tymor hwn.






**Yr Urdd**

**Tim Pêl-rwyd blwyddyn 5 a 6.**

• Llongyfarchiadau mawr i Dîm Pêl-rwyd yr Urdd genethod bl 5 a 6 a fu'n cystadlu yn Nhwrnamaint yr Urdd ym Mangor. Da iawn chi genod! A diolch i'r mamau ac Ellie a fu'n hyfforddi.

• Dymunwn pob llwyddiant i Ena a Teilo, blwyddyn 4, a fydd yn cystadlu yn y Gala Nofio Genedlaethol yng Nghaerdydd dydd Sadwrn, Ionawr y 25ain

**Clwb Beganifs**

Mae clwb ieuenctid Waunfawr 'Beganifs' wedi cyrraedd rhestr fer grant 'Eich Cymuned, Eich Dewis' Heddlu Gogledd Cymru. Mae'r fenter gymdeithasol Antur Waunfawr wedi bod yn rhedeg y clwb ar eu safle yn Waunfawr, gyda chefnogaeth Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Gwynedd, mewn ymgais i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y pentref.

Mae'r clwb yn cynnig ystod o weithgareddau, gan gynnwys coginio, gemau, cerddoriaeth a garddio, yn seiliedig ar ddiddordebau'r bobl ifanc. Mae hyn yn rhoi cyfle iddynt gymdeithasu a dysgu sgiliau newydd mewn amgylchedd diogel, mewn ffordd nad yw'n tarfu ar weddill y gymuned.

Mae'r unigolion yn teimlo perchnogaeth dros y clwb ac yn falch iawn ohono. Mae cynnal y clwb ar safle'r Antur hefyd wedi rhoi mewnwelediad iddynt o'r gwaith gwerthfawr mae mentrau cymdeithasol yn ei wneud o fewn cymunedau, ac mae hyn wedi ennyn parch. Mae'r clwb wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau codi arian yn y pentref ac yn niwrnodau agored Antur Waunfawr, gan gynnal stondinau gwerthu cacennau a gwerthu bric a brac. Ers cychwyn y bartneriaeth gyda'r Gwasanaeth Ieuenctid, does dim achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi codi ar safle Antur Waunfawr.

I sicrhau'r cyllid hwn, mae'r prosiect angen eich pleidlais chi! I bleidleisio, anfonwch e-bost gwag gyda'r pwnc 'Beganifs' i: yourcommunityyourchoice@nthwales.pnn.police.uk

Gallwch bleidleisio hyd at 4 gwaith.



**Gwersi**

Plant blwyddyn 2 yn mwynhau y sesiwn bêl-droed.

Bydd Gethin o Glwb Pêl-droed Porthmadog yn rhoi sesiynau pêl-droed i fl 2 am y mis nesaf bob pnawn ddydd Llun. Tra bydd disgyblion blwyddyn 1 yn derbyn gwersi Kerbcraft i ddysgu am ddiogelwch y ffordd.

# *Parhad* WAUNFAWR

**Cyngor Cymuned Waunfawr**
Mae un sedd wag ar y cyngor, ac y mae'n fwriad cyfethol.
Os ydych yn dymuno cael eich ystyried i gael eich cyfethol ar gyfer y sedd wag, neu'n dymuno cael rhagor o wybodaeth ynghylch rôl Cynghorwyr Cymuned, cysylltwch â'r Swyddog Priodol, Clerc y Cyngor Cymuned ar/yn Ty Awelog, Waunfawr (01286 650136) erbyn 20 Chwefror 2020

**Clwb 300** y Ganolfan Enillwyr mis Rhagfyr oedd £30: Olwen Morgan, Cartrefle (85); £20: Nan Roberts, Pant Afon (295); £10: Alice Johnstone, 10 Tref Eilian (102).

**Gweithgareddau Nadolig a Sioe Nadolig Disgyblion yr Ysgol**
Bu athrawon a staff yr Ysgol Gynradd yn hynod o brysur yn ystod wythnosau diwedd tymor y Nadolig. Cafodd disgyblion y cam cyntaf frecwast blasus yn yr Antur yng nghwmni Siôn Corn. Cynhaliwyd noson Ffair Nadolig yr ysgol a galwodd Siôn Corn yno hefyd. Cynhaliwyd Sioe Nadolig y disgyblion dair gwaith yn y Ganolfan a'r neuadd dan ei sang bob tro.
Dymuna'r rhieni ddiolch i'r athrawon a staff yr ysgol am y cyfle hwn i'r plant a dymuna staff yr ysgol diolch am gefnogaeth y rhieni. Dymuna'r disgyblion ddiolch i 'Antis' y gegin am ginio Nadolig gwerth ei gael.

**Clwb Bowlio y Pentref**
Cynhaliwyd cystadlaethau mewnol y clwb yn ddiweddar a'r canlyniadau oedd:
Cwpan Garej Pant y Waun (merched) 1. Pearl Williams; 2. Ann Lloyd Jones.
Cwpan y Llywydd (dynion) 1. Emyr Evans; 2. Mal Burns.
Tarian er cof am T.A. Thomas 1. Mal Burns; 2. Beth Holding.
Cwpan Garej Gwalia (dwbl) 1. Emyr Evans a Beth Holding; 2. Mal Burns a Pearl Williams.
Llongyfarchiadau i bob un ohonoch.
Mae'r Clwb Bowlio yn cyfarfod yn y Ganolfan ar brynhawn Mawrth rhwng 2 a 4 a rhwng 7 a 9 o'r gloch bob nos Fawrth a nos Iau. Mae croeso i aelodau newydd ymuno ac fe fyddai'r aelodau presennol yn falch iawn. Cewch fwy o wybodaeth gan Valmai ar 07919093877.

**Amser yn Hedfan** Roeddwn yn sgwrsio gyda Lindsey un bore ac yn trafod pryd yr agorwyd siop y pentref. Roedd yn dipyn o sioc deall fod gennym siop yma ers tair blynedd a bod y bedwaredd blwyddyn wedi cychwyn ers y deuddegfed o Ionawr eleni.

**Dechrau Canu, Dechrau Canmol** Yn ystod y rhaglen ar S4C nos Sul, Rhagfyr 22, cawsom gip o'r Parchedig Huw Powell Davies a'i wraig, y Barch Nan Wyn Powell Davies, yn mwynhau bod yng nghwmni aelodau Capel Bethesda ac Eglwys y Santes Fair, Yr Wyddgrug. Gwelsom y Parchedig Huw yn sgwrsio gyda disgyblion Ysgol Glanrafon ac yn trafod gwneud 'Christ Kinal' gyda hwy. Defnyddio oren yn symbol o'r byd, gwneud twll yn ei dop a rhoi cannwyll ynddo, a defnyddio pedwar pric bach i ddangos pedwar ban y byd, de, dwyrain, gogledd a gorllewin. Yna goleuo y gannwyll yn symbol o oleuni Iesu Grist yn ein byd. Roedd y Barch Nan yn sgwrsio gyda'i ffrindiau, merched y capel a'r eglwys ac yn trafod ei phenodiad yn Gadeirydd y mudiad Cymorth Cristnogol yng Nghymru. Roedd amryw o wylwyr Merched y Wawr Daeth aelodau y gangen at ei gilydd yn y Ganolfan am 7.30 o'r gloch nos Iau, Ionawr 23, i gyfarfod â 'Ceidwad y Mynydd', sef ein gŵr gwadd Aled Taylor. Croesawodd y Llywydd bawb i gyfarfod cyntaf y flwyddyn a dymunodd Flwyddyn Newydd Hapus i ni i gyd. Cyflwynodd Aled a'i lyfr Atgofion Warden yr Wyddfa a Thîm Achub Mynydd Llanberis i'r aelodau.
Anfonodd Bethan gofion cynnes yr aelodau at Cadi sydd yn derbyn triniaeth a gofal ac hefyd at Doris a fu yn yr ysbyty ym Mangor am gyfnod ond mae wedi mynd i aros at ei merch, Ann a'i phriod Geraint, er mwyn cael cryfhau. Anfonodd gofion cynnes at Beryl wedi iddi fod yn yr ysbyty ym Mangor. Llongyfarchodd Heulwen Huws ar enedigaeth wyres fach, Enfys Celyn.
Atgoffodd pawb mae yn Nhafarn Bryn Eirion, Snowdonia Park, y byddwn yn ymgynnull am 7.30 o'r gloch nos Iau, Chwefror 23, pryd y byddwn yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi Sant. Olwen Williams fydd yng ngofal y raffl.

**Llongyfarchiadau** Rydym yn llongyfarch Catrin a Gethin sydd wedi cartrefu yn yr Hen Eglwys yma yn y Waun, ar enedigaeth mab bach, Mabon. Bydd ei chwiorydd Cadi, Nora a Mared wrth eu bodd yn cael helpu mam i edrych ar ei ôl.

**Llongyfarchiadau** hefyd i Rhys a Crystal ar enedigaeth merch fach, Enfys Celyn, wyres i Heulwen Huws, Argoed. Bydd nain Heulwen wrth ei bodd yn mwynhau ei hun yng nghwmni ei ŵyr, Macsen, a'i dwy wyres, Begw Nel ac Enfys Celyn.

**Bedyddio** Yn ystod y gwasanaeth fore Sul, Rhagfyr 15 2019, yng Nghapel y Waun, gyda'r Barch Nan Wyn yn gwasanaethu a Gwenda Griffith yn cyfeilio bedyddiwyd Twm Shôn a'i frawd bach, Erwan Dafydd, meibion bach Elen a Llŷr Roberts, Bodrida. Roedd cynulleidfa dda o berthnasau, ffrindiau a theulu Bodrida yn bresennol yn y gwasanaeth.

**Priodas** Estynnwn ein llongyfarchiadau i Craig ac Elfed, Cae'r Ffynnon, ar eu priodas a gynhaliwyd yn Chateau Rhianfa, Porthaethwy, yn ddiweddar. Dymunwn bob hapusrwydd i chwi eich dau.

**Rhoi eu Hamser** i Godi Calon Bu rhai aelodau o barti canu Genod Gwyrfai yn diddanu a chodi calon y cleifion sydd yn Ward Dulas, Ysbyty Gwynedd, yn ystod tymor y Nadolig. Diolch i Nyrs Maria a staff y ward am eu trefniant a'r croeso. Diolch i'r genod am roi eu hamser.

**Cofio Cynnes**
Roeddem yn falch iawn o glywed bod Treflyn, Treforfan, adref o'r ysbyty cyn dydd Nadolig a'i fod yn teimlo yn well ar ôl cael triniaeth. Cofion cynnes atoch chi, Treflyn, ac at Anne.
Mae'n braf gweld Sara, Gwastadfaes, yn gwella wedi iddi gael anaf i'w thraed ac yn dibynnu ar gymorth dwy fagl i symud o gwmpas. Gobeithio dy fod yn dal i wella. Cofion cynnes atat, Sara.
Anfonwn ein cofion cynnes at Miri, merch Gwen a Rhodri, Stad Llys y Waun, wedi iddi gael anaf i'w choes a hithau hefyd yn gorfod dibynnu ar ddwy fagl i symud. Cymer ofal, Miri, ac fe fyddi yn gwella yn fuan.
Anfonwn ein cofion cynnes at Cadi sydd yn derbyn triniaeth a gofal mewn ysbyty yn Lerpwl.
Hefyd ein cofion at Brenda, sydd yn derbyn triniaeth a gofal yn Ysbyty Gwynedd.
Mae Mrs McDaid yn derbyn gofal a thriniaeth yn Ysbyty Gwynedd hefyd. Anfonwn gofion cynnes ati hithau.
Ein cofion cynnes hefyd at Derfel sydd hefyd yn derbyn triniaeth a gofal yn Ysbyty Gwynedd. Mae yn hynod o falch pan mae'n cael cwmni un o'r teulu yno gydag ef.

**Diolch** Dymuna teulu'r diweddar Tom Williams, Llwydiarth, ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt yn eu colled.
Diolch am wasanaeth arbennig y Barchedig Nan Wyn Powell-Davies ac i Iolo a'r staff o Gyfarwyddwyr Angladdau Roberts & Owen, Penygroes, am drefniadau teimladwy a phroffesiynol.
Diolch o galon i holl staff y Syrjeri am eu gofal teilwng. Hefyd am y rhoddion ariannol er cof am Tom a gyflwynwyd i gronfa offer Syrjeri Newydd Waunfawr.

**Cynllun EFE** Pedwar bore Sadwrn cyn Rhagfyr 25 bu Mrs Susan Williams, Ceunant, yn cynnal 'Crefft, Cân a Stori' yn y capel. Meddai, "Rwyf wedi nghalonogi'n fawr i weld teuluoedd yn troi i mewn i fwynhau y gweithgareddau amrywiol sy'n gysylltiedig â hanes penodol o'r Beibl." Mae Susan yn ymweld ag ysgol y pentref a'r Cylch Meithrin yn aml trwy'r Cynllun EFE. Bydd sesiwn celf a chrefft yn y capel am 10.30 o'r gloch fore Sadwrn, Chwefror 8fed.

**Dymuna** trefnwyr Banc Bwyd Caernarfon ddiolch yn fawr iawn inni am y chwarter tunnell o fwyd rydym wedi ei anfon iddynt i'w rannu. Da iawn wir. Daliwch ati yw'r neges.



## *Parhad* WAUNFAWR

**Cydymdeimlwn** yn ddwys â Garry a Christine Davies, Hafan, yn eu profedigaeth o golli mam a mam yng nghyfraith annwyl iddynt. **Cydymdeimlwn** hefyd ac Andrew, Kevin ac Emma a'u teuluoedd yn eu tristwch a'u hiraeth o golli nain annwyl iddynt a hen nain i'w gorwyresau a gorwyrion.

Cydymdeimlwn â Helen Campbell, Tegfan, yn ei phrofedigaeth o golli ei thad yn ddiweddar.

**Colli Margaret Graianfryn (gynt)**

Ychydig ddyddiau cyn dydd Nadolig 2019 daeth newyddion trist i ni am farwolaeth Margaret. Cartrefodd Wil a Margaret yma am 33 o flynyddoedd ac yma y magwyd eu dwy ferch, Sandra ac Ella. Roeddynt yn deulu hapus a phrysur. 'Yncl Wil Beics' fel y galwyd ef yn garedig iawn yn rhoi ei amser i drwsio beiciau y plant a gofalu eu bod yn ddiogel, ac 'Anti Margaret' yn goruchwylio plant yr ysgol allan yn chwarae yn ystod yr awr ginio. Aeth Sandra ac Ella ymlaen i'r Ysgol Uwchradd ac i weithio mewn swyddi ar derfyn eu haddysg. Ganwyd Gareth ac Anest i Sandra, a Siôn i Ella. Roedd Margaret a Wil wrth eu bodd gyda'u hwyrion a'u wyres. Newidiodd eu byd pan aeth Wil yn wael a'i golli yn y flwyddyn 2003. Aeth Sandra a'i theulu i fyw i Deiniolen ac Ella a Siôn i fyw i Fethel. Er mwyn cael bod yn nes atynt a chael tŷ llai aeth Margaret i fyw i Fethel hefyd. Yn ystod cyfnod ei salwch cafodd Margaret bob gofal ganddynt. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â chi yn eich profedigaeth a'r tristwch o golli mam a nain tu hwnt o garedig. Cydymdeimlwn hefyd â Mary, Wendy, Gareth Rhys, Annwen, Mali a Iago yn eu profedigaeth o golli chwaer a modryb annwyl. Mae nith arall i Margaret, Meinir o Bontnewydd, a'i theulu wedi cartrefu yma yn y Waun a chydymdeimlwn yn ddwys â hwythau yn eu colled. Roedd yr Amlosgfa ym Mangor yn orlawn. Tyst i'w charedigrwydd a'i gofal o'i theulu ac hefyd yn dyst i'w phersonoliaeth hwyliog a'i chyfeillgarwch â'i ffrindiau. Roedd hi'n ffrind i bawb.

Diolch Dymuna Eryl, Alwynne, Iona a theulu y ddiweddar Mrs Catherine Ann Jones, Bryn Gwenallt, ddiolch yn fawr iawn i gymdogion a ffrindiau am eu cefnogaeth dros yr holl flynyddoedd, ond yn enwedig yn ystod ei chyfnod byr o salwch. Diolch am y galwadau ffôn, cardiau ac ymweliadau ac am y gynulleidfa dda a ddaeth i'r angladd. Diolch i bawb am gymerodd ran yn y ddau wasanaeth ac am y rhoddion hael o £1300 tuag at Feddygfa Waunfawr.

**Capel y Waun**

**Arwydd Newydd** Diolch i Iwan Roberts am ddylunio, gwneud a gosod yr arwydd newydd ar flaen y capel. Llongyfarchiadau hefyd i Olwen Williams ar ennill y gystadleuaeth i lunio dyfyniad i fynd ar yr arwydd.

**Noswyl y Nadolig** Bu'r cyfarfod Noswyl Nadolig yn llwyddiant eto eleni. Diolch i drefnwyr y noson ac i'r rhai gymerodd ran. Bydd yr arian a gasglwyd yn cael ei roi tuag at Feddygfa Newydd Waunfawr. Diolch i bawb a gyfrannodd.

**Gwasanaethau mis Chwefror 2020 am 10 y bore**

2: Parch Harri Parri
9: Parch Glenys Jones, Pwllheli
16: Parch Eurfyl Davies, Ynys Môn
23: Parch Nan Wyn Powell-Davies.

AVW Advanced Vehicle Workshop
Arbenigwyr mewn ceir VW, Audi, Seat, Skoda & Porche
BOSCH Service
Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975.
Which? Trusted trader
01286 673559
Car Service
Zone 2, Cibyn Ind Est, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk

J2O
Gwasanaeth Gwres a Plymio
Gas Safe Register
Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser
Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718




**Mae S4C yn lawnsio amserlen newydd sbon – eich amserlen chi.**

**Rydyn ni wedi trafod a gwrando ar farn ein gwylwyr ac mae'r amserlen wedi ei llunio er mwyn cysoni rhaglenni newyddion ac operâu sebon, a chynnig cyfresi newydd cyffrous.**

**O 24 Chwefror ymlaen bydd modd i chi fwynhau:**

- **Newyddion nos Lun i Gwener am 7.30**
- **Pobol y Cwm nos Lun i Iau am 8.00 gyda rhifyn estynedig ar nos Fercher**
- **Rownd a Rownd nos Fawrth a Iau am 8.25**
- **Ffermio yn symud i 9.00 ar nos Lun**
- **Cyfresi cyfarwydd a newydd am 9.00 o nos Lun i nos Iau gan ddechrau gyda Corau Rhys Meirion, Ysgol ni: Maesincla, Cynefin a Jonathan.**
- **Chwaraeon byw ar nos Wener**
- **Rhaglen ychwanegol o Heno yn fyw ar Nos Sadwrn am 7.30 (gan ddechrau ar 8 Chwefror)**

**Wrth gysoni ein rhaglenni, rydym wedi gwneud y dewis yn hawdd i chi.**

**Mwynhewch yr arlwy!**

## CAEATHRO

Lowri Ceiriog, 4 Erw Wen.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

**Cyngor Cymuned Waunfawr**

Mae un sedd wag ar y cyngor, ac y mae'n fwriad cyfethol.

Os ydych yn dymuno cael eich ystyried i gael eich cyfethol ar gyfer y sedd wag, neu'n dymuno cael rhagor o wybodaeth ynghylch rôl Cynghorwyr Cymuned, cysylltwch â'r Swyddog Priodol, Clerc y Cyngor Cymuned ar/yn Ty Awelog, Waunfawr (01286 650136) erbyn 20 Chwefror 2020

**Profedigaethau** Gyda thristwch mae adrodd am ddau annwyl a gollwyd yn y pentref yn ddiweddar.

Nos Iau, yr 16eg o Ionawr, bu farw Mr. Robert Owen, 1 Erw Wen, yn dawel yn ei gartref yn dilyn cyfnod o salwch yn ddiweddar. Roedd Bobi yn gymeriad hoffus a phoblogaidd ac hyd at ei waeledd roedd yn amlwg o amgylch y pentref, boed hynny yn y Garej, y Capel neu yn mynd am dro yn ei gar. Er ei ymddangosiad ifanc a heini, Bobi oedd un o breswylwyr hynaf y pentref.

Yna ar ddydd Gwener, yr 17eg o Ionawr, daeth y newyddion trist am farwolaeth y Parchedig Eric Roberts, 11 Erw Wen, yn Ysbyty Gwynedd gydag aelodau ei deulu. Roedd Eric yn unigolyn poblogaidd gyda'i gyfoedion yn Manweb ac yna yn ddiweddarach yn rhinwedd ei ddyletswyddau gyda'r Eglwys yng Nghymru yn lleol ac yn y canolbarth. Roedd Eric yn wyneb cyfarwydd hefyd yng nghylchoedd pêl-droed yr ardal, ac yn ddyfarnwr uchel ei barch.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â theuluoedd a ffrindiau Bobi ac Eric.

**A4085 Rhwng Caernarfon a Chaeathro** Yn anffodus bydd yr A4085 rhwng Caeathro a Chaernarfon yn parhau ar gau tan ddiwedd Mehefin tra mae gwaith adeiladu'r ffordd osgoi newydd yn parhau.

**Llongyfarchiadau** i Rhiannon a Derwyn ar ddod yn Nain a Thaid eto yn ddiweddar wedi i'w merch, Mari, roi genedigaeth i ferch fach, Gwen.

**Cyngor Cymuned** Er gwybodaeth, mae sedd wag yn mynd ar y Cyngor Cymuned lleol. Os oes gennych ddiddordeb, gyrrwch e-bost ataf – lowriceiriog@hotmail.co.uk

**Capel** Ar yr 2il o Chwefror bydd Gwasanaeth dan arweiniad y Parchedig Marcus Wyn Robinson, ble hefyd y bydd y Cymun yn cael ei weinyddu. Ar yr 16eg Chwefror bydd Gwasanaeth dan arweiniad y Parchedig Harri Parri.

**Yma o Hyd!** Braf oedd clywed am lwyddiant un o drigolion y pentref yn ddiweddar wrth i'w gân enwog 'Yma o Hyd' fynd i rif un yn siart iTunes! Llongyfarchiadau mawr i chi, Dafydd... ymlaen i Glastonbury 2020 nesaf?

**Tynfa Misol: 1af** (£40) Rhif 22 – L. Williams (Yr Efail);
2il (£25) Rhif 85 – O. H. Williams (19 Glan Gwna); 3ydd (£15) Rhif 44 – Steve a Ceri (9 Bryn Gof); 4ydd (£5) Rhif 4 – Michael Owen (Cae Phillip).

## CWM Y GLO

**Llongyfarchiadau** mawr ar ddathlu ei ben-blwydd yn 80 oed i Eurwyn Williams, Llwyncoed. Mae yn parhau yn brysur iawn yn danfon llefrith o amgylch y pentrefi yma. Dymuniadau gorau i chi.

**Diolch.** Dymuna Eirwyn Williams, Llwyncoed ddiolch i bawb am y dymuniadau da, y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei benblwydd yn ddiweddar.

ECO'r Wyddfa

Cefnogwch ein hysbysebwyr

## BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts
Ffôn: 870580

**Sefydliad y Merched** Roedd dathlu'r Nadolig gyda chinio yng Ngwesty Gwynedd Llanberis yn achlysur arbennig i gloi blwyddyn o weithgareddau. Mwynhaodd pawb noson ardderchog.

Anita Long, Tan yr Onnen oedd y gwestai yng nghyfarfod mis Ionawr yn cyflwyno hanesion diddorol am ei theithiau tramor.

Bydd Cyfarfod Blynyddol y Ffederasiwn yn Ysgol Brynrefail ac eleni dethlir ei ganmlwyddiant. Gwahoddir yr aelodau i wisgo i fyny mewn dillad o unrhyw ddegawd yn ystod y can mlynedd diwethaf. Mae edrych ymlaen mawr am y diwrnod.

Trefnir dyddiad Cyfarfod Blynyddol Grŵp Eryri cyn diwedd Chwefror.

Estynnir croeso i aelodau newydd ymuno â'r gangen ar y trydydd nos Iau o bob mis am 7 o'r gloch yn y Ganolfan yn Llanberis gyda chriw hwyliog a rhaglenni diddorol ac amrywiol wedi eu trefnu ar gyfer 2020.

**Yr Eglwys Bresbyteraidd**

Oedfaon Nadolig

Bnawn Sul, Rhagfyr 15fed, cynhaliwyd ein Gwasanaeth Blynyddol i ddathlu Gŵyl y Geni.

Daeth nifer o aelodau a ffrindiau ynghyd i awyrgylch addolgar ac addurnedig yr Ystafell Addoli yng ngolau canhwyllau. Cyflwynwyd neges yr Ŵyl eleni ar y thema "Tua Bethlem Dref" gyda chyfraniadau gan Gwyn Hefin ac Ifanwy Jones, Einir Gwyn, Dwynwen Williams, Lowri Prys Roberts, Mair Wyn Davies, Dafydd Ellis, Selwyn Griffith, Pat Jones a Carol Houston a Robert John Williams. Cyflwynwyd y thema trwy gyfrwng darlleniadau perthnasol o'r Ysgrythur a'u neges, gweddiau, cerddi, myfyrdod ar Fethlem ddoe a heddiw, neges Y Seren i'n hoes fodern ni a gwaith elusen arbennig y Wyddeles a'r emynyddes, Cecil Frances Alexander. Roedd "Draw yn ninas Dafydd Frenin", cyfieithiad o'i charol enwog ymhlith nifer o garolau cynulleidfaol a ganwyd i gyfleu gobaith a llawenydd yr Ŵyl. Traddodwyd neges bwrpasol gan ein Gweinidog, y Parch Marcus Wyn Robinson, ar neges y Seren unwaith yn rhagor i'n cyfeirio a'n tywys i'r dyfodol. Hyfrydwch oedd cyflwyniad o neges y Cristingl a'r symbolau gweladwy, ac ar derfyn y gwasanaeth ymlwybrodd pawb i lawr o'r Ystafell Addoli gyda'i oren goleuedig i Fwyty Caban lle'r oedd y danteithion Nadolig arferol yn ein disgwyl. Roedd y casgliad yn ystod yr oedfa yn mynd at Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol. Diolch unwaith eto am y profiad hyfryd o ddod ynghyd i ddathlu'r Ŵyl, i bawb am eu cyfraniad clodwiw ac i griw Caban am weini'r wledd.

Nos Fawrth, Rhagfyr 24ain, ymunodd rhai aelodau yng Ngwasanaeth Noswyl Nadolig a'r Cymun Bendigaid yn Eglwys y Santes Helen, Penisarwaun ac ar fore dydd Nadolig yng Ngwasanaeth yr Ofalaeth yng Nghapel Cysegr, Bethel, dan arweiniad ein Gweinidog, y Parch Marcus Wyn Robinson.

Oedfa Dechrau Blwyddyn

Yn ôl ein traddodiad cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi nos Sul, Ionawr 12fed, i ofyn am fendith ar y Flwyddyn Newydd. Cymerwyd rhan mewn darlleniadau, gweddiau a myfyrdodau a chyd-gyflwyno'r neges ar gyfer "Plant y Goleuni" – ein haddoliad, ein tystiolaeth, ein gwasanaeth. gan Gwyn Hefin Jones, Ifanwy Jones, Dafydd Ellis, Robert John Williams, Einir Gwyn, Selwyn Griffith a Lowri Prys Roberts.

**Oedfaon Chwefror 2020 am 5 yr hwyr**

2: Parch Marcus Wyn Robinson – Gweinidog. Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd

9: Canon Idris Thomas, Deiniolen

16: Mr Charles Wyn Jones, Llanrug

23: Parch Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon

## LLANBERIS Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Ffôn: 870740

**Eglwys Sant Padarn** Mi ddeuthum ar draws y canlynol, mewn erthygl yn Saesneg, yn y North Wales Chronicle 31ain, Rhagfyr, 1887.

"Fe dderbyniodd y Parch. W. Edwards M.A., Ficer Bangor a chynt yn Rector Llanberis, siec gan Mr G.W. Assheton-Smith am swm anrhydeddus o £1297 tuag at glirio'r gweddill o'r ddyled ar yr Eglwys Newydd yn Llanberis. Fe godwyd yr Eglwys, sy'n un o'r rhai harddaf yn yr Esgobaeth, yn ystod y pedair blynedd diwethaf, ar gost gyflawn o oddeutu £6000. Rhoddodd Mr Assheton-Smith y safle a £1800 tuag at y costau gwreiddiol. Gwelir felly fod Mr Assheton-Smith wedi cyfrannu £3097, a'r safle, i'r Eglwys hon."

**Côr Dyffryn Peris** Bu'r Côr yn cynnal Noson o Garolau gyda thrigolion Plas Pengwaith ychydig cyn y Nadolig ac, ar brynhawn Sul yr16eg o Ragfyr, fe ymunodd y Côr gyda Band Deiniolen a John Eifion, tenor, mewn Cyngerdd Nadolig yn Eglwys Sant Padarn.

Cymerodd nifer o aelodau'r Côr ran mewn Gwasanaethau Plygain yn Eglwys Llanwnda ar Nos Sul, Ionawr y 12fed, ac yn Y Gadeirlan ym Mangor, Nos Wener, Ionawr 17eg.

**Cymdeithas Undebol Capel Coch** Cafwyd orig ddifyr yng nghwmni Mr Neville Hughes, Bethesda, nos Fawrth, Ionawr y 7fed, pan fu'n adrodd peth o hanes Hogia Llandegai a'u caneuon ac, er mai criw bach oedd yno, am wahanol resymau, 'roedd pawb wedi mwynhau'r noson yn fawr. Cafwyd sgwrs dros baned cyn mynd adref.

Disgwylir sgwrs, ar "Merched Y Chwarel" gan Elin Thomas, Nant Peris, yn ein cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, Chwefror yr 11eg , am 7 o'r gloch.

### Gwasanaethau Capel Coch

2 am 10yb: Parch Gwynfor Williams
9 am 10yb a 5yh: Y Parch John Pritchard
16 am 10yb: Parch Harri Parri
23 am 10.30: Oedfa Deulu
Mawrth
1 am 10yb: Parch Gwyndaf Jones
8 am 10yb a 5yh: Parch John Pritchard




## Amddifadu plant lleol o'u cae chwarae?


Mae'r rhestr uchod yn dangos y gwahanol ddigwyddiadau sydd I'w cynnal yn ardal Llanberis yn ystod y flwyddyn i ddod. Fel y gwelir o'r tabl, mae llawer o'r gweithgareddau hyn eisoes wedi derbyn caniatad, ac eraill yn disgwyl cadarnhad. Bydd nifer ohonynt yn defnyddio Cae'r Ddol, ac felly, ni fydd y cyfleusterau arferol ar gael i'r trigolion lleol yn ystod yr amseroedd hynny. Cwmniau preifat sy'n gwneud elw sylweddol o'u 'digwyddiadau' yw nifer o'r rhai fydd yn defnyddio'r cyfleusterau lleol.

Bydd hyn y creu pob math o drafferthion i bobl Llanberis yn ystod yr haf gyda ffyrdd a llwybrau cyhoeddus ar gau am oriau. Dim ond Ras yr Wyddfa a'r Carnifal sydd yn denu diddordeb pobl leol. Fe fydd gan y digwyddiadau eraill bopeth ar eu cyfer ar Gae'r Ddol gan gynnwys caffi, siop gwerthu beics, offer a dillad rhedeg a nofio.

Mae'r syniad fod twristiaeth yn elwa o hyn yn gamarweiniol a rhaid cofio fod tua 95% o bobol y pentref nad ydynt yn ddibynnol ar dwristiaeth,

Golyga hyn na fydd cae chware'r ddol fawr ar gael i'r plant am nifer o benwythnosau yn ystod yr haf.

| Dyddiad | Enw'r Digwyddiad | Lleoliad sydd ei angen | Cwmni | Sylwadau | Trwydded/Caniatad (oes/na) |
|---|---|---|---|---|---|
| 29/02/2020 | Winter Swim | Y Glyn a Llyn Padarn | 1MTB1 | Ras Gaeaf | Wedi Cadarnhau |
| 28/03/2020 | GO Race MTB | Gilfach Ddu | Beicio Cymru | Tim Matthews | Cais wedi derbyn. |
| 5, 6, 7,8,9 & 12,13,14,15 / 04/2020 | Rowing Event | Y Glyn a Llyn Padarn | Adam Stancer, Rhwyfo Cymru? | | Cais wedi derbyn. |
| 4-6/04/2020 | MOD Cadets | Y Glyn / Gilfach Ddu TBC | Lost Earth Adventures ar ran yr MOD | | TBC |
| 03/05/2020 | Sight Run & Family Fun | Cae'r Ddol | Blind Veterans UK (Llandudno) | Elusen | TBC |
| 15-16/05/2018 | Welsh Colleges Event | Gilfach Ddu a Llyn Padarn | Partneriaeth Awyr Agored | | |
| 16/05/2020 | The Maverick X Snowdonia trail run | Cae'r Ddol, Maes Parcio Dolbadarn + yr Overspill | Maverick Race | Cwmni preifat | Cais wedi derbyn. |
| 06/06/2020 | Snowdonia Challenge | Maes Parcio Gilfach Ddu a Llwybrau Coed Dinorwig | Gwirfoddolwyr - Grwp o Ffrindiau | Lle i barcio 40 o geir | Cais wedi derbyn. |
| 10/06/2020 | Inter Schools MTB Competition | Lagwns / Tomeni lechi Gilfach Ddu | Partneriaeth Awyr Agored | Tim Matthews | Cais wedi derbyn. |
| 10-15/06/2020 | Slateman Triathlon Sprint | Cae'r Ddol a Llyn Padarn | Always Aim High | Cwmni preifat | Cais wedi derbyn. |
| 20/06/2020 | Love Swim Run | Y Glyn, Llyn Padarn, Gilfach Ddu, Coed Dinorwig | 1MTB1 | Cwmni Preifat | Cais wedi derbyn. |
| 20-21/06/2020 | Snowdon Night Walk | Maes parcio Gilfach Ddu | Elusen Marie Curie | Elusen | Cais wedi derbyn. |
| 28/06/2019 | Ras Copa'r Wyddfa | Cae'r Ddol | Pwyllgor Ras Wyddfa | Grwp Lleol a gwirfoddol | |
| 26-27/06/2020 | Snowdon Charity Challenge | Overspill Dolbadarn | Deam Events Ltd | Cwmni preifat | Cais wedi derbyn. |
| 03-04/07/2020 | Snowdonia Sevens Race | Cae'r Ddol | Gwirfoddolwyr o'r heddlu | Grwp gwirfoddol o blismyn Gogledd Cymru | Wedi Cadarnhau |
| 10-13/07/2020 | Snowdonia Trail Marathon + Snowdon 24 | Cae'r Ddol a Coed Dinorwig | Always Aim High | Cwmni Preifat | Cais wedi derbyn. |
| 11/07/22020 | Big Welsh Swim | Gilfach Ddu / Llyn Padarn / Penllyn | 1MTB1 | Cwmni Preifat | Cais wedi derbyn. |
| 18-21/07/2019 | Ras Yr Wyddfa | Cae'r Ddol | Pwyllgor Ras Yr Wyddfa | Grwp Lleol a gwirfoddol | |
| 25/07/2020 | Carnifal Llanberis | Cae'r Ddol | Pwyllgor lleol | Grwp Lleol a gwirfoddol | Cais wedi derbyn. |
| 01-02/08/2020 | Brutal Swim | Cae'r Ddol a Llyn Padarn | Brutal Events | Cwmni preifat. | Cais wedi derbyn. |
| 01/09/2019 | Rali Ceir | Maes Parcio Gilfach Ddu - o flaen yr Amgueddfa Lechi | Clwb Ceir Gogledd Cymru (NWCC) | Clwb lleol | |
| 04-07/09/2019 | Man v Mountain | Cae'r Ddol, Coed Dinorwig, pont Vivian Arch, Gilfach Ddu, lagwns Gilfach Ddu | Rat Race | Cwmni Preifat | |
| 09-14/09/2020 | Brutal Event | Overspill Dolbadarn, Cae'r Ddol a Llyn Padarn | Brutal Events | Cwmni preifat. | Cais wedi derbyn. |
| 15/09/2020 23/10/2020 | DIM CANIATÁU DIGWYDDIADAU YN DOLBADARN - CYNLLUN AFON HWCH | DIM CANIATÁU DIGWYDDIADAU YN DOLBADARN - CYNLLUN AFON HWCH | DIM CANIATÁU DIGWYDDIADAU YN DOLBADARN - CYNLLUN AFON HWCH | DIM CANIATÁU DIGWYDDIADAU YN DOLBADARN - CYNLLUN AFON HWCH | DIM CANIATÁU DIGWYDDIADAU YN DOLBADARN - CYNLLUN AFON HWCH |
| 19/09/2020 | Dragon Boat Festival | Y Glyn, Llyn Padarn, Glyn Rhonwy | Gwirfoddolwyr / St David's Hospice | Elusen | Cais wedi derbyn. |
| 03 - 09/10/2020 | Rali Carafanau | Maes Parcio Gilfach Ddu - o flaen Amgueddfa Lechi | Cheshire Retired Caravan Club | Clwb carafanau | Cais wedi derbyn. |
| 03/10/2020 | Endurance Swim Run | Maes Parcio Gilfach Ddu a Llyn Padarn | Love SwimRun | Cwmni Preifat | TBC |
| | Marathon Eryri | Dim defnydd tir Parc Padarn | Pwyllgor Marathon Eryri | Dim defnydd adnoddau Parc Padarn | |

**FFRAMIA**
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922
Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU
DEWIS EANG O LUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy
www.fframia.com

# DINORWIG

Marian Jones. Ffôn: (01286) 870292

**Nos Calan** Dyma ni ar ddechrau blwyddyn newydd unwaith eto. Bu imi aros ar fy nhraed i dderbyn y flwyddyn i mewn hefo John ac Alun ar y radio. Ar ôl i'r flwyddyn gyrraedd euthum allan i'r ffrynt ac yr oedd golau yn amryw o dai ond yr un enaid yn unman, a'r peth a'm trawodd fi fwyaf oedd nad oedd dim cloch yn canu yn yr Eglwys Bach, dim smic yn unman. Ond, o'r drws cefn yr oedd cloch Eglwys Llanberis yn canu a braf oedd clywed ei sŵn a diolch i'r sawl a wnaeth amser i fynd i'r eglwys i'r chanu.

Cofiaf yn dda, pan yn fy arddegau, cael mynd i gapel MC Dinorwig am ddeg o'r gloch i wylnos, lle yr oedd y Festri yn orlawn a phawb yn mwynhau cyngerdd a phaned, dan arweiniad y Parch Ieuan Bryn Williams bryd hynny. Wedi derbyn y flwyddyn newydd i mewn pawb yn gadael dan siarad fel pe bai yn hanner dydd, yr oedd gan bawb amser er bod y gwaith yn galw yn y bore. Chwith meddwl bod y pethau yma wedi gorffen a bod cymdeithasu fel hyn wedi peidio a bod. Mae colled fawr ar ôl y pethau yma lle yr oedd pawb yn gymdogol ac yn adnabod pawb yn yr ardal. Ga i gymryd y cyfle i ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i bawb ac, os oedd y cyntaf i'ch cartref ar y cyntaf o Ionawr hefo gwallt du, y dywediad oedd ei fod wedi dod â lwc dda i chi ac y byddai yn flwyddyn lewyrchus. Gobeithio felly bod hyn yn wir ac i'r sawl na chafodd lawer o lwc llynedd, gobeithio am flwyddyn well eleni.

**Marwolaeth** Un arall o blant yr ardal wedi ein gadael unwaith eto. Ar 16 o Ragfyr bu farw Richard Clifford Davies yn dawel yng nghwmni ei deulu yn Ysbyty Gwynedd. Ganwyd ef yn Garreg Lydan ac yng nghanol y tridegau, a thai Maes Eilian newydd gael eu gorffen symudodd y teulu, sef Mr a Mrs Glyn Davies a'i hunig fab Cliffordd i rhif 8, lle y bu iddynt gartrefu am flynyddoedd.

Pan fu i deulu Thomas Parry, Ysgubor, i gyd farw fe fu iddynt symud yno. Yn gymdogion i mi yn y fan yma. Rhyw ychydig cyn i Glyn farw bu iddynt symud i Lanberis, i Stryd Newton, lle yr oedd Clifford a'r teulu yn cartrefu ar ôl iddynt ymddeol o Swyddfa'r Post, Deiniolen.

Bu'r gwasanaeth claddu yn Eglwys Crist Llandinorwig ar 21 Rhagfyr a rhoddwyd ei weddillion i orffwys ym Mynwent Macpelah, Deiniolen.

**Cwyno** Yn ystod y flwyddyn olaf fe fu llawer o gwyno a mynd a dod i'r ysbyty. Gobeithiaf yn arw am well blwyddyn i bawb eleni.

**Cofion Annwyl** iawn yn y flwyddyn newydd i Mrs Megan Morris, Minffordd gynt, fydd yn 105 eleni. Mae yn cael gofal arbennig iawn ym Mhlas Garnedd ac. wrth gwrs, gan Eurwyn a Nancy. Mae hi wrth gwrs wedi gweld mwy o flynyddoedd na neb yn yr ardal. Felly Mrs Morris, ein dymuniad ydyw i chwi gael Blwyddyn Newydd Dda unwaith eto. Cofion yr ardal atoch.

**Marwolaeth** Thomas Elwyn Griffiths, Bigil gynt, a fu farw ar ddydd ei ben-blwydd yn 84 mlwydd oed ar 25ain o Dachwedd y llynedd. Yn Eco'r Nadolig bu imi grybwyll nad oedd gennyf fawr o wybodaeth am Elwyn ar ôl dyddiau ardderchog ysgol bach Dinorwig, dim ond ei fod yn byw yn Eifionydd. Wel, y dydd o'r blaen bu imi dderbyn llythyr caredig iawn oddi wrth ei wraig, sef Mrs Mary Griffiths, Cynefin, Pencaenewydd ac, wrth gwrs, yn sôn llawer am Elwyn. Balch oeddwn o gael gwybod am ei hanes wedi ddyddiau'r hen ysgol.

Bu i Elwyn wedyn fynd i'r Secondary Modern ym Mangor (ysgol oedd tua'r un lle ag y mae Asda ym Mangor heddiw) Deallaf ganddi iddo fynd o'r ysgol i'r coleg busnes yn Mhorthaethwy lle yr oedd llawer un yn mynd yr adeg hynny. Wedi hynny dechreuodd weithio yn Swyddfa'r Herald yng Nghaernarfon. Ar ôl bod yno fe symudodd i Wasg y Brython yn Lerpwl a thra yn Lerpwl aeth i gapel Waterloo ac yno y bu iddo gyfarfod Mary, merch o Bencaenewydd, a ddaeth yn ddiweddarach yn wraig iddo. Nyrs oedd Mary yn ysbyty Alder Hey. Ysbyty y bu i mi ddod i wybod cryn lawer amdani rhyw ugain mlynedd yn ôl pryd y bu Sara bach ni yno am rai misoedd yn bur wael. Rhwng Alder Hey ac Aston Park mae gennyf fi fel un o'r teulu ddyled fawr i'r ddwy ysbyty am gael Sara hefo ni o hyd.

Bu Elwyn mewn amryw o swyddi yn Lerpwl ond ar ôl tua deunaw mlynedd yn ôl i Eifionydd y daethant. Treuliodd gyfnod yn Hufenfa Rhydygwystl a gyda'r Cyngor Sir yn Nglynllifon a Chaernarfon.

Gŵr oedd yn gymwynaswr mawr i'r papur bro, Y Ffynnon. Yn nyddiau cynnar y papur teipiai bob llythyren ohono a hynny ar hen deipiadur, a fyddai'n torri byth a beunydd a gorfod galw ar ddyn o Glynnog i'w drwsio. Rhaid imi ddweud bod yn rhaid bod gan Elwyn lawer mwy o amynedd na John, ei frawd, Rwyf yn gwybod heb i neb ddweud wrthyf be fuasai John wedi ei ddweud a'i wneud.


Fe fu Elwyn yn glerc Cyngor Cymuned Llanystumdwy am chwarter canrif ac yn ysgrifennydd Mynwent Llanystumdwy, bu hefyd yn ysgrifennydd Amgueddfa Lloyd George. Rhaid cofio am ei ymroddiad a'i ffyddlondeb i'w gapel a'r holl weithgareddau eraill hefyd.

Bu yn flaenor ym Mhencaenewydd yn 1975, trysorydd yr Eglwys am bron i bum mlynedd ar hugain ac yn Ysgrifennydd yr Ofalaeth. Os oedd unrhyw weithgarwch i'w gyflawni a neb am ei wneud roedd Elwyn, er ei brysured, yn barod iawn i lenwi'r bwlch, a hynny yn raenus a dirodres.

Byddai yn darllen llawer ac yn ymddiddori mewn gwleidyddiaeth. Bu'n drysorydd cangen leol Plaid Cymru am rai blynyddoedd. Cafodd salwch blin am tua pum mlynedd a threuliodd ei ddwy flynedd a hanner olaf yng Nghartref Bryn Meddyg, Llanaelhaearn, lle y cafodd ofal tyner a charedig. Ymwelai Mary a'r ferch, Ffion Siân, ag ef mor aml ac y gallent.

Gweinyddwyd yn yr angladd ar y 3ydd o Ionawr gan y Parch Aled Davies a'r Parch Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon, gyda Owenna Hughes yn organyddes. Unwaith eto cydymdeimlad yn fawr â Mary a Ffion gan obeithio iddynt gofio am yr amser pleserus a gawsant yng nghwmni Elwyn, lle y daw gwên fach i'w wynebau. Diolchaf yn fawr iawn i Mary am y llythyr a'r sgwrs reit helaeth ar y ffôn yn sôn am Elwyn a'r hen ardal hefyd. Roedd wedi meddwl lawer gwaith am daith i'r hen ysgol ond heb gael y fraint o ymweld, ond er hynny mae y daith o Lerpwl i Bencaenewydd wedi bod yn hynod o felys a llewyrchus a thra pery Mary a Ffion nid yn angof yr aiff hen ardal Dinorwig o'r cof.

Yn angof ni chaiff fod.


GWAITH COFFAOL
LLANRUG
Ffôn Gwaith
(01286) 672898
Cartref
(01286) 871833
Symudol 07778 127394
Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol
TROS-Y-WAEN PENISARWAUN
Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethy Yr Holl Ardal
Ffoniwch ar 1286 871833 (SYMUDOL - 07778127394)

Hefyd

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrhaeddwch Mewn Steil- Mewn Cerbyd Rolls Royce
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDDI ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

CHWILOTA
chwilota.wordpress.com

## Tlodi

Yn y rhifyn diwethaf soniwyd am Lyfr Cyfrifon Plwyf Llanddeinolen, a'r modd roedd y plwyf yn cyfrannu tuag at y tlodion a'r rhai anghenus o fewn eu dalgylch. Soniais y mis diwethaf am y geiriau 'sist' a 'dicyn' yng nghofnodion y Festri Blwyfol. Gyda diolch i'r Athro Hywel Wyn Owen am fy ngoleuo ynglŷn â'u hystyron, ac o ail-edrych ar y cofnodion, mae'n amlwg mai taliad ymlaen llaw am nifer o wythnosau a wneid i rai o'r tlodion. Dyma ei sylwadau:

**Sist** Yn ôl Geiriadur Prifysgol Cymru, daw sist o'r Saesneg tafodieithol sist. Yn y Saesneg a'r Gymraeg yr ystyr ydy 'rhan o gyflog a delir ymlaen llaw, cyflog cymorth (ariannol); 'advance (payment of wages), sub, wage, (monetary) help'. Mae OH Fynes-Clinton (The Welsh Vocabulary of the Bangor District, 1913) hefyd yn cyfeirio at y gair. Ond yn fwy manwl yn dweud ei fod yn air a gofnodwyd yn Swydd Amwythig ac yng Nghernyw gyda'r ystyr 'money paid to miners in advance' . Yr awgrym ydy bod sist yn dalfyriad o subsist (nid assistance). Yr addasiad Cymraeg o assistance ydy sistans.

**Ticyn** Yn ôl Geiriadur Prifysgol Cymru daw ticin neu ticyn o'r Saesneg ticking i olygu '(brethyn ar gyfer) rhan allanol matras neu glustog', 'ticking'. Mae hynny'n ffitio'r cymal sy'n son am 'wely peiswyn a dicyn' sef rhywbeth tebyg i 'straw mattress and ticking'. Dyna eglurhad ysgoleigaidd felly ar eiriau sydd wedi mynd yn ddieithr erbyn heddiw.

Ond roedd i'r Festri Blwyfol ddyletswyddau eraill, ac yr oedd angen gwario ar y rheini hefyd.

Mae'r cyfrifon am 1834 wedi eu rhestru yn fanwl-gywir, ac wedi eu gosod dan bennawd "Costau a Chyflogau yn achos y Plwy". Mae llawer o'r costau hyn yn ymwneud â thalu am anfon tlodion yn ôl i'w plwyfi genedigol, ac fe'i rhestri fel "talu am order remwfal" i hon a hon neu hwn a hwn. Ceir yma hefyd rai costau meddygol: "talu am feddyg am dendio plant HD Coed Bolyn" a "thalu i Robert Roberts am asio coes Ann Lloyd". Am yr asio coes talwyd £3-12-10, sef y gost uchaf o fewn y flwyddyn i un person. Mân sylltau oedd bron pob taliad arall i unigolion.

Mae'n amlwg fod y Festri Blwyfol hefyd yn delio rhywfaint â rhai oedd yn torri'r gyfraith. Yn ystod mis Gorffennaf talwyd dau swllt "am fwyd a diod" ar y diwrnod y bu rhywun neu rywrai (ni cheir enwau) yn Chwarel Braich y Cafn "yn dal Richard Williams." Tybed beth oedd ei drosedd ? Yn Nhy'n Twll o fewn y plwyf roedd yn byw, oherwydd yn ddiweddarach yn y mis ceir cofnodion am "symons i RW Ty'n Twll" a gostiodd dri swllt; dau swllt am warant i'w ddal a thri swllt arall "am gomittment iddo." Ym mis Tachwedd mae rhyw Owen Owens hefyd yn creu trafferthion. Costiodd 'symons' iddo wyth swllt, a warant a chomittment ddau swllt yr un. Mae costau ychwanegol ynglŷn â'r ddau yn cael eu rhestru yng nghyfrif Richard Jones, Coed Bolyn oedd yn gwasanaethu fel un o ddau o gwnstabliaid y plwyf. Mae'n hawlio hanner coron yr un am symons i Richard Williams ac Owen Owens; hanner coron arall "am ddal Richard Williams" (o bosib mai dyma'r daith a wnaeth i Chwarel Braich y Cafn) a hanner coron arall "am wasanaethu" y ddau, beth bynnag a olygai hynny.

Mae yma hefyd son am "Lyfr T.I. Williams", ond does dim eglurhad beth yn union yw'r llyfr. Ddechrau mis Ebrill telir tri swllt "yn y Miting am basio Llyfr T. I. Williams", ac yn ddiweddarach yr un mis telir saith swllt "am ddiwrnod chwilio Llyfr T.I.Williams" a dau swllt yn gyflog i Humphrey Davies "am Chwilio Llyfr T.I.Williams." Tybed a oedd yn rhyw fath o lyfr cofnodion ariannol? Does dim son am y llyfr hwn yng nghofnodion y blynyddoedd sy'n dilyn, ond mae taliadau cyffelyb am "chwilio cyfri y flwyddyn o'r blaen."

Ganol fis Tachwedd ceir dau daliad diddorol iawn. Mae tair punt yn cael ei dalu, sef Llog yng nghlwb Pentir a deg punt am hawl yng Nghlwb Pentir. Maent y symiau uchaf o ddigon gan y Festri Blwyfol o gysidro mai tair punt a dalwyd am y flwyddyn i ddau gwnstabl y plwyf. Beth oedd Clwb Pentir? A allai fod yn rhyw fath o gymdeithas elusengar?

Roedd y derbyniadau am y flwyddyn yn £627-13-3, sef trethi oedd yn cynnwys "tair treth tlodion o'r Chwarel" gwerth £45. Unwaith eto, does dim eglurhad ar pam fod y Chwarel yn talu tair treth tlodion. Talwyd allan i'r tlodion ac am wasanaethau amrywiol y swm o £607-15-0, gan adael bron i ugain punt yn weddill at ddechrau'r flwyddyn ariannol nesaf.

Tybed a fydd darllen cofnodion ein Cynghorau Cymuned lleol yr un mor ddiddorol yn y dyfodol? A thybed hefyd a fydd ambell gyfeiriad yn creu penbleth i haneswyr y dyfodol?

## Gwersyll Iddewon ger Craig yr Undeb

Chlywais i erioed fod gwersyll wedi bod yn y cae ger Craig yr Undeb – y cae rhwng yr hen ffordd a Llyn Padarn. Adroddiad yn un o'r papurau dyddiol yn ystod Ionawr am ryddhau carcharorion yn Auschwitz a rhai o'r gwersylloedd erchyll eraill a ddaeth ac atgof yn ôl i Eirwyn Williams, Llwyncoed. Cred fod gwersyll wedi ei sefydlu yn y cae am gyfnod byr o tua chwe wythnos neu ddeufis yn unig yn ystod 1948 neu 1949.


Roedd rhwng 80 a 100 o Iddewon yn aros yn y gwersyll, a hynny am tua pythefnos yn unig cyn cael eu symud ymlaen, a rhai eraill yn cyrraedd. Roedd y cyfan ohonynt wedi bod yn y gwersylloedd dieflig, ac yn cael eu paratoi ar gyfer eu hanfon i'w hail-gartrefu yn Israel. Mae Eirwyn Williams yn cofio gweld rhifau ar freichiau amryw ohonynt. Byddai ef a'i fam yn mynd i lawr at y cae ar rai nosweithiau i wrando arnynt yn canu a dawnsio o gwmpas tân ar lan y llyn.

Cofia hefyd i ddwy Iddewes ddod i'r drws un dydd, a'i fam yn rhoi afal yr un iddynt o'r ardd, ond fe'i gwrthodwyd os na chaent afal i bawb oedd yn y gwersyll. Roedd yn draddodiad ganddynt i rannu popeth gyda'i gilydd.

Tybed oes unrhyw un arall all gadarnhau hyn?

# Cymdeithasau Cydweithredol.






Sefydlwyd y cymdeithasau cydweithredol yn rhannol o ganlyniad i dlodi o fewn y dosbarth gweithiol, a buan y lledodd y mudiad led-led Prydain. Daeth siop y Co-op yn adeilad cyffredin o fewn ein pentrefi. Mae'r mudiad yn dal mewn bodolaeth, wrth gwrs, ond diflannodd pob un o'r siopau o bentrefi'r fro, er fod y siop yn Llanrug (yr olaf o'r rhai gwreiddiol i gau yn y fro) yn dal mewn bodolaeth ar ei newydd wedd. Yn wahanol i aelodau lleol, y mudiad cenedlaethol sy'n rheoli'r siop honno heddiw.

Yn Neiniolen, mae adeilad y Co-op yn dal i sefyll, ond a oedd hwn y safle gwreiddiol? Gyda diolch i Carys Parry, Llanrug am ddangos y ddysgl addurniedig sy'n dathlu agoriad swyddogol y Siop Co-op newydd yn y pentref yn 1932. Mae'n amlwg fod pob aelod o Gymdeithas Gydweithredol Deiniolen ( a newidiwyd yr enw o Ebenezer ychydig flynyddoedd ynghynt?) wedi derbyn dysgl fel rhan o'r dathliadau wrth agor y siop newydd ar 14eg o Fedi 1932.

Mae'n fwy na thebyg fod y Gymdeithas yn bodoli yn y pentref cyn hyn, ond ers pryd? Methais hyd yma a darganfod cyfeiriad at ei sefydlu. Byddai'n ddiddorol hefyd cael gwybod a adeiladwyd y siop newydd ar safle'r hen un. Yntau yn rhywle arall yn y pentref roedd yr hen siop?

Tra'n chwilota am hanes y co-op yn Neiniolen, deuthum ar draws cyfeiriad at bobl y Waunfawr yn ceisio sefydlu Cymdeithas Gydweithredol, a hynny ym mis Rhagfyr 1914. A ddaeth rhywbeth o'r mudiad yno tybed? Chlywais i erioed fod Siop y Co-op wedi bod yno. All rhywun roi gwybodaeth.

# COLLI EDWARD T. JONES




Daeth yr ymholiad canlynol gan Gareth Pritchard, (Tan y Coed gynt).

Yng nghyntedd Capel Tan y Coed, Llanrug mae yna blac i gofio am Edward T. Jones Bryn Crwn a laddwyd yn Normandy ar y 18fed o Orffennaf, 1944, yn 24ain mlwydd oed. (Diolch i'r Parch John Pritchard am y llun)

Bu'r teulu'n byw yng Nghae Glas, Ceunant, am flynyddoedd cyn symud i Bryn Crwn. Roedd yn cael ei adnabod fel Ted Cae Glas ac fel Ted Bryn Crwn. Mae rhai yn honni mai damwain achosodd ei farwolaeth- ei fod wedi cael ei daro gan danc Byddin Prydain.

Yn ddiweddar, gwelais lun o 'Ted Jones' ar y Gweplyfr ac yn awgrymu ei fod, 'o bosib', yn dod o Lanrug. Ond, gyda'r llun roedd darn o bapur yn rhoi dyddiad ei farwolaeth yn 11eg o Orffennaf.

Unwaith yn unig y gwelais o pan ddaeth adref ar 'leave' a nhad yn sgwrsio hefo fo. Rhyw bedair oed oeddwn bryd hynny.




Oes rhywun y cofio Ted? Ai yr un Ted sydd yn y llun? Os felly, sut mae'r ddau ddyddiad yn wahanol i'w gilydd?

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro'r "Eco", neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515)
e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle chwilota.wordpress.com

Cymdeithas Edward Llwyd
Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru
Elusen Gofrestredig rhif 1126027

# *Y Robin Goch*

Dim ond os ydych mor hen â fi byddech chi'n sylweddoli gymaint mae'r hen fyd yma wedi newid. Dach chi'n cofio'r hen set weiarles yn craclo yng nghornel y lolfa? A mynd â'r batris mawr i'r garej lleol i'w siarsio? Mi wnaeth y byd symud ymlaen camau mawr pan ddoth y radio transistor, yr un roedden ni'n hongian ar ddrych y car er mwyn cael ryw fath o 'in-car entertainment'. I ni dyna oedd newid mawr.

Darllenais yn 'Y Times' yn ddiweddar am Robin Goch a oedd yn byw bywyd dedwydd yn Heligoland, roedd wedi penderfynu treulio'r gaeaf yn ne ddwyrain Lloegr. Aeth i chwilio am siop Thomas Cook ond doedden nhw ddim yna bellach. Beth i'w wneud? Cymerodd anadl ddofn ac ar un noson pan oedd gwynt ysgafn yn mynd yr un ffordd â fo dechreuodd ar y daith. Roedd hi'n wyth o'r gloch y nos a, chredwch neu beidio, roedd o wedi cyrraedd cyrion Llundain erbyn toc wedi hanner nos .

Ond sut ydan ni'n gwybod hyn? Roedd o'n gwisgo nanotag - erbyn hyn mae pob aderyn eisio un, dim ond 0.3 gram mae'r tag yn pwyso ond mae'n galluogi ni i astudio pa mor bell mae adar bach yn mynd o gwmpas i chwilio am dywydd gwell. Taith o 140 milltir roedd Robin wedi gwneud yn y pedwar awr yna, hynny yw 35 mya.

Mae gymaint i ddysgu am fyd natur ac mae technoleg yn datblygu'n gyflym i alluogi ni ddysgu'n llawer cyflymach. Tydi'r byd wedi newid ers yr hen weiarles dwedwch.

Edrychwch ar ein gwefan cymdeithasedwardllwyd.cymru i weld os ydan ni'n cerdded yn eich ardal. Bydd croeso mawr i chi. Yn enwedig os dach chi wedi bod mor garedig o ddysgu'n hiaith hyfryd ni.

## Chwiliad maith wedi ei gyflawni, gyda chymorth Eco'r Wyddfa.



Cafodd babi bach, Gwyn Jones ei fabwysiadu yn 4 mis oed yn 1956. Llawer o flynyddoedd yn ddiweddarach 'rwy'n ymchwilio i'm teulu genedigol. Rwy'n nawr yn gyfarwydd ag enw fy mam a'i choeden deuluol. Penderfynais chwilio am enw fy mam ar chwiliad Google i weld beth fyddai'n digwydd. Deuthum o hyd i erthygl yn Eco'r Wyddfa. Fel gŵr 63 mlwydd oed nid wyf yn deall ond ychydig o Gymraeg ond 'rwy'n ddiolchgar iawn i 'Google Translate' am achubiaeth. Mae'r erthygl yn apelio i ddisgynyddion Daniel George Jones i gysylltu â Nonna Owen sydd a chas o bapurau teuluol a lluniau yr oedd yn awyddus i'w drosglwyddo i un o berthnasau Daniel. Roedd tad Nonna yn gyfaill agos i Garfield Jones, yr ieuengaf o feibion Daniel. Y fi oedd ŵyr i fab hynaf Daniel, Cyril.

Ymwelais ag Aberystwyth yr wythnos cyn y Nadolig ac fe gafodd fy chwiliad maith am deulu'r Jonsiaid ei gyflawni. Ymysg y ffotograffau roedd tri o fy mam, Myra, nad oeddwn erioed wedi ei chyfarfod. Hwn oedd yr anrheg Nadolig gorau i mi gael erioed. Diolch Eco'r Wyddfa. Diolch hefyd i Gareth a Nonna am fod mor groesawgar a chyfeillgar a'u parodrwydd i drosglwyddo y cas i mi. Gadewais eu tŷ gyda gwên lydan ar fy wyneb a dawns yn fy ngherddediad. Rwy'n gwybod llawer mwy yn awr am ochr y Jonsiaid o'm teulu ac mae gennyf ffotograffau gwerthfawr i'w gwneud yn fwy real. I bobl sydd wedi eu mabwysiadu nid yw canfod eich teulu genedigol fyth yn hawdd. Gall fod yn rhwystredig ac emosiynol. Gall rhan o fi bellach fod yn Gwyn Jones eto, mab Myra, ŵyr Cyril a gorwyr Daniel, gyda gwreiddiau yn nhre brydferth Aberystwyth, Mae gennyf hefyd ffrindiau yno – Gareth a Nonna. Diolch yn fawr i Nonna ac i Eco'r Wyddfa

Donald Henson (Darlithydd mewn Archeoleg - Prifysgol Efrog)

FFISIOTHERAPI
ERYRI
PHYSIOTHERAPY
Asesiad a thriniaeth arbenigol a fforddiadwy ar agor nawr.
Specialised and affordable assessment and treatment available.
Cyslltwch am fwy o fanylion
Contact for further information:
Facebook: @ffisioeryriphysio
Ebost / E-mail: info@ffisio-eryri-physio.co.uk
Ffôn 07387390465
Canolfan Ddringo Beacon Climbing Centre
Stâd Diwydiannol Cibyn Industrial Estate
Caernarfon. LL55 2BD
www.ffisio-eryri-physio.co.uk

GERAINT OWEN
CARPEDI
Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfai Mill, Bontnewydd
CARPEDI
TEILS
VINYLS
DEWIS MAWR O BATRYMAU
(01286)650552 Mob. 07712779475

Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau
TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED
PLASTRO • GOSOD CEGINAU *AMCANGYFRIF AM DDIM*
Sion Roberts 07759415753
3 CARADOG PLACE • DEINIOLEN • LL55 3H5






**TEITHIAU CERDDED CHWEFROR**
**CYFRES GWYLIO A HANESION Y SÊR A'R GOFOD**

Byddwn y cynnal cyfres o deithiau cerdded dros y gaeaf trwy cymryd mantais o unrhyw dywydd da i wylio'r gofod. Yn hyn o beth byddwn yn hysbysebu'r teithiau eitha byr-rhybydd. Cewch y manylion trwy e-bost. Cysylltwch 'garethroberts754@yahoo.co.uk' i dderbyn y manylion a'r cylchlythyrau arferol.

TEITHIAU ERAILL

GWENER 7 CHWEFROR 2.00yp
HANESION BLAEN CAE A CEGIN ARTHUR (Hyd at 2½ milltir)
Cychwyn: Eglwys Penisarwaun
Eitha hawdd. Sgidiau cerdded.

MERCHER 19 CHWEFROR 10.00yb
DYFFRYN A PARC BRYN CEGIN: Y NEOLITHIG, RHYFEL CARTREF A'R AIL RYFEL BYD (Hyd at 5 milltir)
Cychwyn: Porth Penrhyn, Bangor
Cymedrol. Sgidiau Cerdded

CERDDED NORDIG GYDA CAROLINE MONCRIEFF
Bob dydd Iau. Cychwyn 10.00yb. £5 y pen. Ffordd hwyliog i gymdeithasu a cadw'n heini.
I dderbyn y rhaglen, cysylltwch efo Caroline ar: 'carolinemoncrieff@yahoo.com'

CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD YN CYRRAEDD CARREG FILLTIR
Y 250fed DAITH GERDDED

Mae'r Cynllyn Cerdded a Darganfod Menter Fachwen bron yn 7 oed eisioes. Ers mis Mawrth 2013, mae'r cynllun wedi cyhoeddi a gweithio ar dros 50 o fapiau o lwybrau a hanes lleol o ardal yr Eco i ben draw Llŷn a sir Conwy. Dim ond megis cychwyn unrhyw brosiect yw'r mapiau. Bydd y Cynllun yn cynnal sgyrsiau led led gogledd Cymru o leiaf ddwywaith bob mis, y ogystal ag ymweliadau ysgolion ac arddangosfeydd. Cyn y Nadolig, trwy wahoddiad Jane Hutt AC a'r Cynulliad, cynhaliwyd arddangosfa o waith y Cynllun yn adeilad Pierhead yng Nghaerdydd am wythnos ac aeth 2400 o bobol i'w weld. Nôd y cynllun o'r cychwyn yw nid yn unig ail-cysylltu y cyhoedd a'u cynefin ond gyda'i etifeddiaeth hefyd ac hynny trwy fynd a phobol i gerdded er lles eu iechyd.
Yn hyn o beth , mae'r cynllun wedi trefnu rhaglen brysur o deithiau cerdded ers y cychwyn i adrodd hanesion (yn ogystal a derbyn nifer helaeth wedi ei comisiynu gan ysgolion, grwpiau cymunedol ayy). Mae'r teithiau yn fwriadol yn amrywio o rai hawdd iawn i rai sydd yn gymedrol.
Ar y 10ed Ionawr, bu i'r cynllun tywys ei 250fed taith gerdded. Tro hwn, aeth criw i chwilota am hanesion rownd Llyn Padarn yn cynnwys golwg ar hanes rheilffyrdd chwarel Dinorwig, melin Bedwargoed a llawer mwy. Yn anhygoel, gyda'r tywydd yn braf iawn, aeth 52 o gerddwyr ar y daith. Cafwyd caniatad arbennig gan Cwmni Rheilffordd Llyn Padarn i fynd i grwydro'r lein a hoffai Menter Fachwen diolch iddynt am eu croeso a charedigrwydd. Ymlaen i'r 250 nesaf!

## *Cyd-ddigwyddiad?*





Mae'r ddau lun yn dangos copa Moel Eilio ar 17eg o Ionawr 2019 a 2020. Dyma'r dyddiad y cyrhaeddodd yr eira gyntaf i'r copa yn ystod y ddwy flynedd, a wnaeth o ddim aros yn hir iawn.

Tybed oes gan rywun gofnodion tywydd am flynyddoedd cynharach sy'n adrodd pryd y cyrhaeddodd eira cyntaf y flwyddyn (nid eira cyntaf y gaeaf).

# BETHEL

**Banc Bwyd** Erbyn hyn mae Capel Cysegr wedi dechrau gwasanaethu fel Canolfan Gasglu ar gyfer cyfrannu bwydydd i Fanc Bwyd Caernarfon. Rhaid pwysleisio bod hyn yn gyfle i unrhyw unigolyn neu fudiad yn yr ardal gyfrannu. Fe fydd dau ddiwrnod casglu/trosglwyddo.

Fe fyddaf yn casglu gyntaf rhwng 10-10.30pm bob BORE MAWRTH tu allan i'r Capel. Bydd y casgliad yma yn cynnwys unrhyw gyfraniadau a dderbyniwyd yn oedfa'r Sul. Mae rhai mudiadau fel y Clwb Bro a Merched y Wawr wedi penderfynu cyfrannu hefyd. Ar gyfer y casgliadau yma, wedi derbyn y rhoddion yn y cyfarfodydd, yr amser casglu fydd 10.30am ar FORE GWENER.

Diolch i'r rhai sydd eisoes yn cyfrannu, gan obeithio y bydd atebiad i'r alwad yn cynyddu. Gyda llaw, yn y tri mis diwethaf mae'r nifer sydd yn defnyddio'r Banc Bwyd yn ardal Caernarfon wedi cynyddu 27%. Os buasai'r pentref yn cyfrannu 20Kg. (24pwys) o fwyd yr wythnos, yna buasai'r cyfanswm dros y flwyddyn dros dunnell o fwyd.

Rhestrir yma y gofynion mwyaf poblogaidd, wrth gwrs fel arfer mewn tuniau. Tuniau Tuna, Corned Beef, Byrgyrs, Meatballs, Tatws, Pys/Moron, Ffrwythau a Thomatos. Yr un modd unrhyw fath o Basta, Jariau Bach o Goffi, Siwgr, Llefrith UHT, Poteli Bach o Sgwash (unrhyw flas), Jamiau a Bisgedi. Mae cryn alw hefyd am gynnyrch molchi fel Shampŵ a Sebon.

**Yn griw hael bwydwn aelwyd,**
**"Heb niwc bos, da cael Banc Bwyd."**

**Diolch** Dymuna Myrna Owen, Camlan, ddiolch i bawb am eu cefnogaeth a dymuniadau da am wellhad yn dilyn ei llawdriniaeth yn ddiweddar.

**Cydymdeimlo** Ar fis Gŵyl daeth yr hen alwad unwaith eto. Cydymdeimlwn ac Ella a Sion, 10, Cremlyn ar eu colled o fam a nain addfwyn iawn, sef Margaret Jones, 5 Bro Eglwys gynt.

**Cydymdeimlad** hefyd i Seiriol Owen, Tan-y-Cae ar golli ei chwaer, Euronwy, yng Nghaernarfon.

Yr un modd cydymdeimlwn ag Yws Gwynedd a'r teulu ar eu colled ddisymwth o dad a thaid arbennig, yr amryddawn gymwynaswr Dafydd Wyn Jones.

Cyfraniadau Derbyniais y rhestr flynyddol o gyfranwyr tuag at gynnal a chadw Mynwent y Plwyf, Llanddeiniolen, drwy law Brian Sharpe. O gofio y gost gynyddol o gynnal a chadw mae Brian yn diolch o waelod calon i'r cyfranwyr, oherwydd mae'r gwaith yn hollol ddibynnol ar y cyfraniadau hyn. Os hoffai rhywun arall gyfrannu yna gellir trosglwyddo unrhyw rodd i Brian Sharpe, Ael-y-Bryn, Bethel ll55 3AA. Unrhyw sieciau yn daladwy i 'Gronfa Mynwent Llanddeiniolen'. Fe gydnabyddir pob rhodd.

Gyda diolch, dyma'r cyfranwyr am 2019.

£205 : Jennifer Roberts, Bethel.

£150 : Dylan Edwards, Bromborough

£100 : Gwynedd Hughes, Southport; Di-enw (2); Emyr ac Anwen Roberts, Y Groeslon; Ann Lowe, Epworth; Myfanwy Harper, Llandygai.

£50 : Irfon Thomas, Llanrug; Teulu Sharpe, Bethel; Lowri Prys Roberts, Brynrefail.

£30 : Dennis Ellis, Llanberis.

£25: Teulu E.R. Jones, Tregarth

£20 : Dilys Parry, Rhiwlas; Elizabeth Evans, Bethel; Elsbeth Edwards, Caerdydd; Edwina Morris, Bethel; Teulu D.G. Jones, Hen Golwyn; Ivy Wright, Bethel; Eurgain Jones, Bethel; Ann Ellis Williams/ Ieuan Ellis Jones, Bethel; Ann Hughes, Llanrug; Phyllis Jones, Cyffordd Llandudno; Hugh Hughes, Bethel; Arthur/Valerie Owen, Bethel.

£10: Ieuan Williams, Bethel; Margaret Roberts, Caernarfon; Megan Humphreys, Bethel; Marjorie Roberts, Bethel; Eirian Jones, Deiniolen; Christine, Sharon a Janet, Bethel,

**Parcio Bysiau** Mae'n ymddangos nad yw'r arferiad wedi dod i ben er denu sylw'r Cyngor Sir. Ar wahân i barcio dros nos mewn arosfan bws mae un gyrrwr 'bys ysgol' mor hy a pharcio bellach ar y ffordd gefn, ger Capel Bethel. Mae'r ffordd yma eisoes yn gul iawn gyda moduron/faniau y preswylwyr. Yn ddiweddar gwelwyd y bws wen dros oriau'r dydd ar ochr y ffordd yn y Felinheli. Fel dywedodd Crwys, "newid aelwyd bob yn eil ddydd".

**Clwb Bro** Wedi'r toriad, bydd y clwb yn ail-gyfarfod bnawn Mawrth, Chwefror 4ydd, am 1.30pm yn Festri'r Cysegr. Y siaradwr gwadd fydd Wil Lloyd Davies, Caernarfon.

**Suliau Chwefror**

**Saron** (2pm): 2/2 Idris Thomas; 9/2 Gwynfor Williams; 16/2 Rhian Evans-Hill; 23/2 Richard Gillion (S).

**Cysegr** (10am): 2/2 Huw Dylan Jones; 9/2 Gweinidog; 16/2 Dafydd Ll. Hughes; 23/2 Gweinidog.

**Bethel** (10am): 2/2 Parch. John Lewis Jones; 9/2 Parch. R.E. Hughes; 16/2 DG; 23/2 DG.

**Archebu'r Eco** Fel sy'n hysbys bydd y Siop/Post yn cau ddiwedd Ionawr. Y mae nifer yn y pentref yn prynu eu copi o'r Eco yno. Os yw'r rhain am barhau i archebu'r Eco, yna rhoddwch eich enwau i mi erbyn diwedd y mis yma. Yna, gallaf ychwanegu eich enwau i restr y dosbarthwyr yn eich rhan chi o'r pentref. O wneud hynny byddwch yn elwa gan bydd y tâl am flwyddyn yn £10, sef arbediad o £1. Mae'r mwyafrif sy'n derbyn yr Eco bellach yn gwneud un taliad blynyddol ddechrau mis Mawrth o £10. Gan edrych ymlaen i'ch cefnogaeth.

**Clwb Ffermwyr Ifanc** Cafwyd ambell noson gofiadwy yng nghyfarfodydd Rhagfyr, er bod prysurdeb yr Ŵyl mewn mannau eraill hefyd yn mynnu sylw.

Cafwyd noson egniol iawn ym mhabell sglefrio rhew 'Winter Wonderland' ar Faes Caernarfon. Pawb wedi mwynhau y noson, a rhyfedd fel bod rhai yn cyson ddisgyn, hyd yn oed pan maent yn sobr!

Yna ymweliad arbennig â Chanolfan Halen Môn ar lan y Fenai. Cawsom ein tywys trwy y broses sy'n troi 'cynnyrch' y Fenai i fod yn halen sy'n gyfarwydd ei ddefnydd ledled y byd bellach. Ysbrydoledig yn wir oedd dilyn tyfiant busnes bychan lleol i un sydd ar frig ei debyg led-led byd.

Ar noson olaf y Clwb yn 2019 cynhaliwyd y Parti Nadolig yng Ngwesty'r Castell, Caernarfon. Noson hwyliog, yn adlewyrchu asbri y clwb, a'r cyd-gymdeithasu iach rhwng gwahanol oedrannau y clwb. Ond, dechrau'n Dre a gorffen ym Mhenmaenmawr fu hi i ambell un, mae'n debyg!

Diolch i bawb â fu'n gefn i'r Clwb drwy'r flwyddyn, ac edrychwn ymlaen i her degawd newydd o fod yn llais a chynhaliaeth dros ffordd unigryw o fyw yng nghefn gwlad.

**Apêl** Ceir adroddiad am yr ail gyfarfod 'Achub yr Eco' yn y rhifyn hwn. Oes rhywun o Fethel am gynnig ambell ysgwydd i roi o dan y baich?

**Clwb 100 y Neuadd**

**Tachwedd 2019:** £25: Megan Humphre (68); £15: Gwenan Roberts (64); £10: Yws Gwynedd (112).

**Rhagfyr 2019:** £25: Gwilym Lewis (51); £15: Sioned Worseley (50); £10: Sian Davies (44).

**Ionawr 2020:** £25 : Susan Jones (2); £15: Eunice Roberts (15); £10: Dona Evans (111).

**Etholiad** Yn ddiweddar cafwyd dadansoddiad o'r ffigyrau pleidleisio yn ward Bethel ar gyfer yr Etholiad Cyffredinol diwethaf. Ar y diwrnod roedd 592 o etholwyr wedi pleidleisio 'yn y bocs'. Roedd cynnydd sylweddol yn y pleidleisiau post. Yn ôl y dadansoddiad roedd 78% o'r etholwyr wedi bwrw eu pleidlais. Mae hyn yn ganran rhyfeddol, ac yn cadarnhau y traddodiad o fwrw pleidlais yma ym Methel a'r ward. Mae'n amlygu hefyd fod sawl agwedd wedi mynnu ymateb gan y pleidleiswyr. Diddorol hefyd yw cymharu ac Etholiad 2017 yma ym Methel. Y tro hwnnw rhwng y bleidlais ar y diwrnod a'r pleidleisiau post roedd 59% wedi pleidleisio. Yn 2017 Llafur 'enillodd' ward Bethel ond yn 2019 roedd cryn ogwydd tuag at Blaid Cymru, a gipiodd 56% o'r bleidlais. Fe adawaf i chwi 'anoraks' i ddadansoddi y ffigyrau.

## *Parhad* BETHEL

### Merched y Wawr




Ar ddechrau degawd newydd daeth Marged Tudur o Gaernarfon bellach – o Forfa Nefyn yn wreiddiol – draw a thraddodi chwip o ddarlith. Ei thestun oedd ei taith hi a chyfoedion i Sagarmatha, yr enw brodorol ar Base Camp, Everest. Un o'i phrif ddiddordebau yw mynydda. Dyma ddiffiniad Marged o'r wefr o fynydda yn ei geiriau ei hun. "Profiad yw sy'n anodd ei wisgo â geiriau, profiad sy'n llesol i'r corff a'r meddwl, a thrwyddo rwy'n llythrennol gerdded poenau, meddyliau ac atgofion." Gwelsom drwy gyfoeth y diffiniad yma fod Marged yn feistres geiriau o ddisgyblaeth, ac yn wir yn un o'n beirdd ieuanc talentog.

Mae'r Wyddfa yn 1085m uwch law'r môr, ond anelu at uchder o 5540m oedd nod Marged. Profiad hollol wahanol yw 'cerdded mynydd' yn Nepal. Y bwriad oedd cerdded/dringo rhyw 500m yn ddyddiol. Roedd hyd yn oed pellter byr fel hyn yn sugno egni. Cawsom ryfeddu o syllu ar y darluniau o'r pontydd crog, y cerrig a'u negeseuon crefyddol ac, wrth gwrs, y golygfeydd rhyfeddol. Antur a hanner fu'r daith, a chyflewyd yr holl ryfeddod ac emosiwn yn arbennig gan Marged mewn noson wirioneddol gofiadwy.

Cafwyd newyddion y mudiad gan ein llywydd, Mair Read, a dymuniadau gorau am wellhad i Mary Evans wedi torri ei harddwrn, ac i Gwil, gŵr Cecile Roberts, sydd wedi torri ei glun.

Penderfynwyd cefnogi ymgyrch Canolfan Casglu y Cysegr i gyfrannu at Fanc Bwyd Caernarfon. Gellir dod ag unrhyw gyfraniad unai i oedfaon y Capel neu i'n cyfarfodydd misol. Yng nghyfarfod Chwefror byddwn yn croesawu Rini Evans o siop 'The Soap Mine' ym Meddgelert. Cyfle i weld, arogli a phrynu sebon fydd hi felly.

Gofynnir hefyd i'r aelodau ddychwelyd y ffurflenni ac arian parthed y Cinio Gŵyl Dewi gyda chwi.




Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk
Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •
Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk
The ROYAL VICTORIA HOTEL Snowdonia


## DEINIOLEN

Mrs Nia Gruffudd. Ffôn: (872133)

### CYNGERDD I'W GOFIO

Roedd Eglwys Crist Llandinorwig yn orlawn ar nos Sul, Rhagfyr 22ain, pan gynhaliwyd Cyngerdd Nadolig er budd cronfa atgyweirio yr addoldy. Roedd pob tocyn wedi ei werthu wythnosau cyn y Cyngerdd. Cafodd pawb a oedd yn bresennol gyngerdd o safon uchel sef gwledd arbennig yn gerddorol, offerynnol a llafar gan dalentau lleol a oedd hefyd yn dalentau cenedlaethol. Arweinydd y Cyngerdd oedd Trystan Ellis-Morris gyda Huw Foulkes yn arwain y Carolau cynulleidfaol, Seindorf Arian Deiniolen dan arweiniad Lois Eifion; John Eifion, Marina a Lois, Siân Wyn Gibson ac Emyr Gibson, Lyndsey Vaughan Pleming, Sandra Anne Morris, Parti Llefaru Ysgol Brynrefail ac Ensemble Offerynnol yr Ysgol dan arweiniad Mrs Lowri Roberts, eitemau cerddorol gan ddisgyblion Ysgol Gwaun Gynfi yn cynnwys y Garol arbennig "Y Dolig Dedwydd" a ganwyd ganddynt ar raglen Carol yr Ŵyl ar S4C gyda Catrin Gwilym yn arwain, a'r Ensemble Lleisiol sef Alaw Mair, Huw Foulkes, Trystan Ellis-Morris, Elliw Mai, Daniel Ellis a Heledd Tandy. Er budd yr Eglwys roedd yr holl artistiaid yn rhoi eu gwasanaeth yn ddi-dâl a diolchir iddynt am y caredigrwydd mawr hwn a werthfawrogwyd gan bawb. Ar ddiwedd y Cyngerdd cafwyd Raffl a diolchir i'r canlynol am eu haelioni, sef Bryn Williams o siop y cigydd Wavells yn Llanrug, Ann Steel o Gacennau Blas Eryri yng Nghaernarfon, Gemma Jones o Salon trin gwallt a harddwch Elaines yn Llanrug, Margaret Limerick o gwmni Elite Beauty yng Nghaernarfon, Dafydd Thomas o Salon HQ yn stryd fawr Bangor, a rhoddion hefyd gan yr unigolion canlynol, sef Nia Morris, Deiniolen; Nathan Tandy, Penisarwaun; Irfon Jones, Llanrug; Rosina Worth, Deiniolen; Bethan Jones, Llanrug, a dwy wobr ychwanegol a roddwyd ar y noson.

Talwyd y diolchiadau gan y Canon Idris Thomas, Glanrafon, a roddodd ganmoliaeth mawr i bawb a gymerodd ran ac am y fath gefnogaeth i'r noson. Galwodd yr un a oedd wedi trefnu'r cyfan, sef Heledd Tandy,-hi a gasglodd yr artistiaid ynghyd, gwerthodd y tocynnau oll a threfnodd y Raffl. Roedd Heledd wedi gweithio'n galed i sicrhau noson arbennig a bythgofiadwy a gofir am gryn amser. Derbyniodd rodd gan yr Eglwys fel cydnabyddiaeth i'w gwaith. Roedd yr Eglwys wedi ei haddurno yn hyfryd gogyfer â'r Nadolig. Mae yr elw hyd yma yn £4,270.00, sef swm anhygoel a dweud y lleiaf. Diolch eto am noson i'w chofio o fewn Eglwys Llandinorwig.

Diolchiadau Dymuna'r Cynghorydd Elfed Williams ddiolch i Scottish Power a Gwynfor James am drefnu fod peiriant defibrullator yn cael ei osod yn Nhŷ Elidir yn ystod mis Chwefror.

Cymdeithas Lenyddol Deiniolen Mae gweithgareddau'r Gymdeithas yn ail ddechrau ar ôl y Nadolig trwy gynnal noson yng nghwmni Cadi Iolen o'r Amgueddfa Lechi. Mae croeso i unrhyw un fynychu'r noson a gofynnir yn garedig a oes gan unrhyw un luniau neu eitemau yn gysylltiedig â'r chwarel i ddod â nhw ar y noson iddynt gael eu cofnodi gan yr Amgueddfa.

Diolch Dymuna Mrs Elizabeth Foster, 89 Pentre Helen, ddiolch o galon i'w dwy ferch am baratoi iddi gael dathliad pen-blwydd 90 oed ar 11 Rhagfyr mewn gwesty yn Llandudno. Cafodd andros o sioc pan fu iddi ddarganfod beth oedd wedi mynd ymlaen. Pan aeth i'r gwesty yr oedd yr ystafell yn orlawn o deulu a ffrindiau wedi dod i'r dathliad ac, yn fwy na hynny, cafodd aros yno dros nos, ni allai ddweud dim.

Mae yn wirioneddol ddiolchgar i'r genod am y paratoi ac yn ddiolchgar hefyd i'r teulu oll, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, blodau, arian ac anrhegion eraill. Mae yn hynod ddiolchgar i bawb am eu caredigrwydd ac am gofio amdani. Nid yw yn gallu mynd allan fel ag yr oedd yn arfer. Bu yn aelod ffyddlon o Eglwys Ebeneser, bron byth yn colli oedfa. Mae hyn yn golled fawr iddi hi a'r eglwys. Dymuna ddiolch o waelod calon am y fath garedigrwydd ac, fel y dywed, ni aiff y pen-blwydd na'r parti byth o'r cof. Diolch yn fawr i bawb.

## Tim Pel-rwyd Bl7/8






Fe berfformiodd tim Pel-rwyd Bl7 ac 8 yn arbennig o dda yn nhwrnament Gogledd Cymru ar ddechrau Ioawr gydag ugain ysgol yn cystadlu a hynny'n golygu dros 200 o chwaraewyr.
Enillodd Ysgol Brynrefail eu grwp gyda'r canlyniadau hyn:
Brynrefail 15 - Bro Idris 0
Brynrefail 6 - Yr Alun 6
Brynrefail 15 - Tryfan 1
Brynrefail 12 - Glan Clwyd 4
Aeth Ysgol Brynrefail ymlaen i gystadleuaeth y Gwpan gan guro Ysgol Friars yn y rownd go gyn derfynol : Brynrefail 11 - Friars 4
Yn anffodus colli fu hanes y tim yn erbyn Ysgol Maes Garmon, Brynrefail 6 - Maes Garmon 9.
Llongyfarchiadau mawr i Beca Parry am ennill chwaraewraig y twrnament gan y dyfarnwyr i gyd.

## Casgliad Banc Bwyd Ysgol Brynrefail



Ym mis Rhagfyr anfonwyd 131.4kg o fwyd i'r Banc Bwyd yng Nghaernarfon. Mae hyn yn ddigon i fwydo 13 teulu yn lleol am wythnos. Diolch o galon i'r holl ddisgyblion gefnogodd yr ymgyrch yma ac i Mrs Catherine Bailey am drefnu'r cyfan.

## Trawsgwlad

Perfformiadau gwych yn y trawsgwlad a gafodd ei gynnal yn Ysgol Dyffryn Nantlle – nifer fawr o ddisgyblion wedi ennill eu lle yn Ffeinal Eryri yn Nolgellau Dydd Mercher Ionawr 30ain.
8 uchaf ym mhob ras yn mynd drwodd: yr Ysgol yn ail yn y gystadlaeth.

Genethod Bl7
Isabelle Shaw 2il
Alaw Swyn 3ydd
Sophie Davey 6ed
Ela Branch 7fed

Bechgyn Bl7
Dion Edwards 3ydd
Ollie Teasdale 7fed

Genethod 8&9
Efa Baines 1af
Mabli Baines 4ydd
Caitlin Forrest 7fed
Ceri Hickey

Bechgyn 9&10
Huw Buck Jones 2il

Genethod 9&10
Abbi Parkinson 3ydd
Georgia Parkinson 6ed

Chweched
Callum O'Donnell
Anna Thomas
Catrin Donnelly

# Parti Pendalar









Unwaith eto eleni cafwyd parti gwych ar gyfer 115 o ddisgyblion Ysgol Pendalar. Diolch i holl waith disgyblion blwyddyn 12 llwyddwyd i godi swm sylweddol o arian er mwyn talu am y parti hwn sef £2,000. Dangosodd y disgyblion flaengaredd wrth fynd ati i gasglu ac roedd y gwaith yn rhan o un o heriau'r Fagloriaeth Gymraeg a gwblhawyd yn llwyddiannus iawn ganddynt.

Ar ddydd Mercher, Rhagfyr 19 felly aethpwyd ati i baratoi'r neuadd a'r danteithion ar gyfer y parti mawreddog. Cyrhaeddodd disgyblion Pendalar erbyn amser cinio i groeso mawr gan y staff a'r disgyblion a daeth Gwilym Rhys draw i gynnig adloniant ar eu cyfer. Diolch yn fawr iddo ef am fod mor barod i gyfrannu unwaith eto. Diolch hefyd i'r holl fusnesau lleol a gyfrannodd yn hael eleni eto tuag at gostau'r parti. Golygodd eu cyfraniadau bod pob un o'r 115 plentyn o Ysgol Pendalar wedi derbyn anrheg gan Sion Corn a'i gorachod. Yn olaf diolch yn fawr i'r staff a weithiodd gyda blwyddyn 12 ar ofalu bod y traddodiad o gynnal parti Nadolig yn Ysgol Brynrefail i ddisgyblion Ysgol Pendalar wedi ei gynnal yn llwyddiannus iawn unwaith eto.

# Disgyblion blwyddyn 7 yn perfformio 'A Midsummer Night's Dream'

Ar y 15fed o Dachwedd cymerodd rhai o ddisgyblion blwyddyn 7 ran yng Ngŵyl Ysgolion Shakespeare. Rhoddodd hyn gyfle i 22 ohonynt actio rhan o ddrama Shakespeare yn Galeri, Caernarfon. Roedd yn gyfle i gwych i bawb wneud ffrindiau newydd a dysgu sgiliau newydd megis datblygu hyder a sgiliau perfformio.

Dechreuodd y cyfan gyda Diwrnod Shakespeare! Dysgodd y disgyblion ddefnyddio geiriau sarhaus Shakespeare, ysgrifennu eu sgriptiau eu hunain ac yna eu perfformio o flaen eu cyfoedion. Cawsant gyfle hyd yn oed i weiddi'n sarhaus ar Miss Samantha Gray a Mrs Catherine Bailey mewn brwydr eiriol! Wedi diwrnod gwych arhosodd rhai o'r disgyblion ar ôl ar gyfer clyweliad i fod yn un o gast y ddrama.

Wythnos yn ddiweddarach dechreusom ymarfer. Ar ddiwrnod y perfformiad aeth y disgyblion i Galeri ar gyfer ymarfer llawn. Wedi ymarfer technegol aethom trwy'r perfformiad cyfan. Gwnaed ychydig o gamgymeriadau ond roedd pawb yn sylweddoli bod raid i'r sioe fynd yn ei blaen! Awr cyn y perfformiad dechreuodd pawb roi eu gwisgoedd amdanynt a chael colur. Roedd yr ystafell newid yn llawn gliter a sprê gwallt!

Roedd y disgyblion wedi cyffroi'n llwyr pan ddechreuodd y perfformiad! Bob tro deuai rhywun oddi ar y llwyfan roeddent yn cael cwtsh gan weddill y cast. Roedd yr awyrgylch yn fendigedig ac yn gefnogol iawn. Aeth y perfformiad yn wych! Mwynhaodd pawb y profiad, yn enwedig y gynulleidfa.

# ECO'r Wyddfa



## O'r Cynghorau

### Cyngor Cymuned Llanrug

Cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd ar y 19fed o Dachwedd 2019
Y Fynwent
Bwriedir cario allan asesiad risg bob chwarter a fod yr asesiad risg cyntaf wedi ei drefnu ar gyfer 9:00 yn ar 30ain o Dachwedd 2019.
Adroddwyd fod y pwyllgor yn parhau i edrych ar beth gellir ei wneud gyda'r cerrig beddi sydd wedi eu rhoi i orffwys ac yn edrych i fewn i'r oblygiadau o ddefnyddio math o lud arbennig. Mae'r clerc yn y broses o gysylltu a'n cwmni yswiriant i holi eu safbwynt hwy ac hefyd awgrymiadau ICCM a BRAMM.
Nodwyd fod y llwybrau newydd wedi eu cwblhau a bod y gwaith i'w ganmol.
Y Pwyllgor Cyllid
Adroddwyd fod y pwyllgor wedi cyfarfod ar 14 o Dachwedd 2019. Ymysg y materion a drafodwyd oedd:-
a) Adroddiad yr archwiliwr allanol (BDO) wedi ei dderbyn ac adroddwyd nad oedd dim i'w ddod i sylw'r cyngor.
b) Fod y pwyllgor wedi adolygu'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn gyfredol;
c) Fod y gytundeb i dorri gwair yn y meysydd chwarae, y fynwent a'r llwybrau cyhoeddus yn dod i ben eleni a bod yn clerc yn y broses o greu manylion gwaith a bydd yn mynd allan i dendr, gyda dyddiad cau o 17 Ionawr 2020.
d) Nodwyd fod nifer yr aelodau ar y pwyllgor yn isel ac anogir rhywun fyddai a diddordeb ymuno a'r pwyllgor .
Y Pwyllgor Hamdden a Mwynderau
Adroddwyd fod y pwyllgor wedi cyfarfod a cynrychiolydd o gwmni G L Jones ar gyfer gweld pa offer oedd ar gael i greu "campfa tu allan" ar gae chwarae Allt Goch, Cwm y Glo. Trafodwyd nifer o opsiynau ac roedd y cynrychiolydd am gysylltu gyda'r manylion.
Adroddiad gan y Cyng.Berwyn Parry Jones ar weithgareddau Cyngor Gwynedd
Addysg
Adroddwyd fod y Cyngor Sir yn gwneud arolwg o'r darpariaeth addysg ôl 16 yn y Sir a bydd yr Awdurdod addysg yn adrodd yn ôl i'r Penaethiaid a Cadeiryddion y cyrff Llywodraethu yn mis Tachwedd.
Drafft Fframwaith Datblygu Cenedlaethol
Mae ymateb Cyngor Gwynedd wedi mynd i Lywodraeth Cymru yn gresynu fod dim mwy o sylw wedi ei roi i dyfiant economaidd yng Ngogledd Gorllewin y Sir yn ogystal a diffyg sylw i'r iaith Gymraeg. Hefyd 'doedd dim sôn am wella y cysylltiadau rhwng y De a'r Gogledd.
Adeilad Ysgol Cwm y Glo
Mae'r Cyngor Sir wedi cyfarfod hefo Menter Fachwen er mwyn cadarnhau eu bod yn fodlon derbyn cymal yn cyfeirio at ddefnydd cymunedol ac wedi gofyn am gadarnhad fod y Cyngor Cymuned yn fodlon rhoi fyny y les bresennol.
Cynllun Dol Afon
Mae'r Cyngor Sir a Chymdeithas Tai Adra wedi cytuno i gyd ariannu'r cynllun osgoi llifogydd yn Dol Afon, a fod Scottish Power yn dweud y byddant yn hapus cyn belled a bod "stay" ychwanegol yn cael ei osod ar y polyn. Gobeithir y bydd y gwaith yn cychwyn yn y flwyddyn ariannol nesaf, gyda chymorth grant.
Adroddiad gan y Cynghorydd Charles Jones ar weithgareddau Cyngor Gwynedd
Ffonau talu cyhoeddus
Ar hyn o bryd mae BT yn y cyfnod ymgynghori ynglŷn â chael gwared â 36 o ffonau cyhoeddus yn yr ardal. Mae'r ciosg yn y sgwâr yn Llanrug yn un ohonyn nhw. Rwyf wedi gwrthwynebu'r cynnig hwn am y rhesymau canlynol:
Y Sgwâr yn Llanrug yw canol y pentref. Mae 1000 o blant yn pasio trwyddo bob dydd i'r ddwy ysgol gyfagos. Gall croesi'r sgwâr fod yn heriol gan ei fod yn gyffordd eithaf beryglus i gerddwyr a cherbydau / traffig. Felly, gallai damwain ddigwydd yno ar unrhyw adeg. Mae'n hanfodol, felly, cael ffôn cyhoeddus gerllaw rhag ofn y bydd digwyddiad o'r fath yn digwydd. Mae'r sgwâr hefyd wedi'i ffinio â dau ddwsin o fyngalos ar gyfer yr henoed a phobl gyda anableddau corfforol. Mae'r bobl hyn yn siopa yn y SPAR yn y sgwâr. Mae llawer yn cael anhawster cerdded ar draws y sgwâr ac, unwaith eto, mae'n eithaf posibl i rywun faglu neu'n waeth. Ar wal y siop mae diffibriliwr wedi'i osod; hyn rhag ofn i rywun gael ei daro gan ataliad ar y galon.
Wrth gwrs, nid yw'r gymuned yn mesur llwyddiant y diffibriliwr trwy ofyn pa mor aml y mae'n cael ei ddefnyddio. Mae yno ar gyfer argyfyngau. Felly hefyd y dylai fod gyda'r ffôn talu cyhoeddus.
Glanhau cwteri
Mae'r gang sy'n clirio cwteri stryd wedi bod yn weithgar yn Llanrug yn ddiweddar.
Mae'n dda gwybod bod Cyngor Gwynedd yn rhagweithiol unwaith efo'r math hwn owaith. Os oes unrhyw un yn gwybod am gwter problemus, gadewch i mi wybod.
Sul y Cofio
Unwaith eto eleni roedd yn anrhydedd gosod torch, ar ran Cyngor Gwynedd, er cof am y rhai a gollodd eu bywydau yn nau ryfel byd y ganrif ddiwethaf a gwrthdaroeraill. Cynhaliwyd y gwasanaeth yn y Sefydliad Coffa gyda'r Parch. Marcus Robinson yn arwain ac aelodau Band Llanrug yn darparu'r gerddoriaeth. Roedd yn dda gweld pobl ifanc yn bresennol yn cynrychioli'r Clwb Ieuenctid, ynghyd â chynrychiolaeth o'r Cyngor Cymuned, y Sefydliad Coffa a'r gymuned ehangach.
Ceisiadau am gymorth ariannol gan unigolion
Adroddwyd fod dau gais am gymorth ariannol wedi dod gan unigolion ceisiadau.
Nodwyd fod rheolau grantiau'r cyngor yn eu atal rhag gwneud cyfraniad i unigolion.
Y Clwb ieuenctid
Adroddwyd fod y clwb ieuenctid yn mynd yn dda gyda tua 40 o aelodau yn troi fyny bob wythnos. Adroddwyd ymhellach fod rhai yn cychwyn snwcer yr wythnos nesaf.
Ceisiadau Cynllunio
Penderfynwyd peidio ag anfon sylw am y cais i godi 2 dy newydd a mynedfa (cais materion a godwyd yn ol o dan ganiatâd cynllunio at safle Ty'r Ysgol, Llanrug, na'r cais i ryddhau amodau 3 (cynllun plannu coed), 4 (cydymffurfio gyda Adroddiad Arolwg Cynefin Cam 1) a 6 (cynllun ymlediad gweledol a manylion wal) o ganiatâd cynllunio blaenorol yn Pen Rallt, Cwm-y-glo.

# ECO'r Wyddfa

## O'r Cynghorau

### Cyngor Cymuned Llanberis

COFNODION CYFARFOD MIS RHAGFYR 2019
Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Llanberis, nos Fawrth y 10fed o Ragfyr, 2019 am 7.00 y.h.
1 PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:
Ward Padarn: Rhys ap Gwilym (Cadeirydd), Gwilym Evans, Olwen Gwilym, Iwan Harding, Bethan Holding, Cyng. Kevin Morris Jones, Trystan Thomas
Ward Peris: Iola Owen. Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).
Ymddiheuriadau: Heather L Jones, Helen Sharp.
2 DATGAN BUDDIANT:
Cofnodir, os yn berthnasol, o dan y gwahanol benawdau.
3 CADARNHAU COFNODION:
Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fercher y 13eg o Dachwedd, 2019 fel rhai cywir.
4 MATERION YN CODI O'R COFNODION:
1. Wal y Fynwent:
Derbyniwyd pris i godi darn ola'r Wal, ac i dorri coed, cyn ei hailadeiladu. Awgrymwyd bod y pris i dorri'r coed braidd yn uchel a phenderfynwyd cael prisiau eraill, ond derbyniwyd pris y wal.
2.Coed a Goleuadau Nadolig:
Codwyd y coed Nadolig, ond bu rhaid prynu goleuadau newydd ar gyfer coeden Llanberis. Diolchwyd i bawb a fu ynglŷn â'r gwaith. Cafwyd canu carolau wrth y goeden yn y Nant y Sul blaenorol a mins peis a gwin cynnes yn Ty'n Llan.
Cytunwyd bod y goeden a oleuwyd gan Eric Baylis i'r Cyngor wedi dod â lliw i ben ucha'r pentref.
3. Cynllun Cynefin LleChi:
Bu BH a KMJ yn y cyfarfod a drefnwyd. Roedd nifer o syniadau wedi eu cyflwyno ar gyfer yr arian sydd ar gael, ond yr un mewn gwirionedd yn taro deuddeg ym marn y ddau. Am nad oedd unfrydedd barn bydd cyfarfod arall yn mis Ionawr. Un syniad a allai fod yn werthfawr oedd un i ddiogelu hen luniau o'r cyfnod pan ehangwyd y pentref.
4. Coed Doctor:
Nid oedd dim pellach i'w adrodd. Mae'n amlwg na chynhaliwyd digwyddiad i'r gymuned yno yn yr Hydref. Diffyg diddordeb efallai. Dywedodd y Clerc y byddai'n cysylltu i weld oedd rhywbeth pellach ar y gweill gyda dyfodol y Coed ac i adrodd bod y giât heb ei thrwsio. Roedd croeso i'r newydd i'r coed peryglus ger rhai o'r tai yng Nghoed y Glyn gael eu tocio.
5. CG - Toiled Y Glyn:
Er holi pam na fedrwyd datrys y broblem o gadw toiled Y Glyn ar agor trwy'r gaeaf chafwyd dim ateb. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu eto gyda Cyngor Gwynedd (CG) i ofyn pam na fedrwyd cadw at y cytundeb i gadw'r tri toiled ar agor. Penderfynwyd y bydd angen ystyried y cytundeb sydd gan y ddau gyngor a'i gilydd yn y cyfarfod nesaf.
6. Eco'r Wyddfa:
Yn dilyn cyfarfod cyhoeddus dywedwyd y bydd yr Eco'n parhau, felly anfonwyd siec y cymorth i'r trysorydd.
5 GOHEBIAETH:
1. Anne Sweeney:
Cafwyd cais gan drigolion Lôn Ceunant Mawr am halen a graean yn y biniau melyn. Er fod y Cyngor wedi penderfynu peidio llenwi'r biniau yn y gorffennol penderfynwyd ail ystyried, a gwneud cais i CG i'w llenwi eleni, ynghyd â biniau gwag eraill. Penderfynwyd mai unwaith yn unig y bydd y biniau'n cael eu llenwi bob gaeaf.
2. Llywodraeth Cymru:
Llythyr yn nodi Swm Priodol o dan Adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ar gyfer 2020-21. Yr uchafswm posib yn y flwyddyn ariannol nesaf ar gyfer 137(1) a (3) fydd £8.32 am bob etholwr. Eleni y swm yn y flwyddyn ariannol bresennol yw £8.12.
3. CG - Praesept 2020-21: Mae CG yn disgwyl i'r Cyngor hwn roi gwybod beth fydd ei Braesept ar gyfer y flwyddyn nesaf erbyn dydd Gwener y 24ain o Ionawr. Gofynnodd y Clerc am syniadau ar gyfer y Gyllideb, mae offer campfa awyr agored yn un syniad. 1/2
6 CYNLLUNIO:
Cyngor Gwynedd: C19/1075/15/LL - Cais i ddymchwel tŷ presennol a chodi tŷ deulawr yn ei le - Glan-llyn, Llanberis - Dim sylw.
Gwesty Dolbadarn - Ymgynghoriad cyn Cais Cynllunio:
Cafwyd hefyd ymgynghoriad ynglŷn â'r bwriad i wneud cais cynllunio i ddatblygu Gwesty Dolbadarn. Mae'r cynllun yn cynnwys cynyddu maint ac uwchraddio'n sylweddol yr hen westy hwn yn ogystal a chreu meysydd parcio a datblygu cwrs antur a thŵr dringo yn y caeau tu ôl iddo. [Yr hyn a elwir yn 'Go Climb' ac 'Alpine Coaster Toboggan']
Gwnaed nifer o sylwadau. Roedd croeso cyffredinol mawr i wella ac uwchraddio'r gwesty ac i greu mannau parcio yn Stryd Ceunant ar gyfer trigolion lleol. Ond roedd pryder bod bwriad i droi gerddi'r gwesty o dan yr Eglwys yn faes parcio ac y byddai darn da o dir gwyrdd dymunol iawn ynghanol y pentref yn cael ei ddifetha a'i golli.
Yn gysylltiedig a'r datblygiad antur roedd bwriad i greu maes parcio arall sylweddol tu ôl i'r gwesty. Mae'n amlwg mai bwriad y datblygiad yma ydi denu ymwelwyr i ddod i gymeryd rhan am ychydig oriau a byddai hynny yn golygu trafnidiaeth sylweddol yn ôl a blaen ar adegau o'r Stryd Fawr lle mae'r stryd yn gul oherwydd parcio cyson ar un ochr iddi.
Holwyd tybed a fyddai maint y datblygiad antur yn gysgod ar yr Eglwys ac yn amharu arni, er bod ansicrwydd ynglŷn â'i dyfodol. Holwyd hefyd a oedd modd mynd i mewn i'r caeau a beth oedd yr hawliau ar y ffordd i Ddyddyn Marsli o weld nad oedd rhan o'r ffordd honno i'w gweld, yn ôl y map, ym mherchnogaeth y gwesty. Hefyd a fyddai hyn yn effeithio ar fynedfa'r Eglwys. O gofio y gyfarwyddyd ddiweddar am fioamrywiaeth a diogelu bywyd gwyllt, oni fyddai'r datblygiad yn effeithio ar hynny. Nid oes unrhyw gyfeiriad at effeithiau amgylcheddol yn y papurau a gyflwynwyd na chwaith unrhyw gyfeiriad at sŵn.
DS: DATGAN DIDDORDEB - Ni chymerodd GE ran yn y drafodaeth am ei fod yn byw gerllaw.
8 CYFARFOD NESAF:
Yn Y Ganolfan, Llanberis. Nos Fercher Ionawr 8, 2020 am 7yh.

# O'r Cynghorau

## Cyngor Llanddeiniolen

Crynodeb Cofnodion Cyfarfod y 5ed Tachwedd 2019
Cofnodion Cyfarfod 1af Hydref 2019
Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir
Materion o'r cofnodion
Cae'r Foel, Dinorwig
Nid ydym byth wedi derbyn ymateb pellach gan yr adran gorfodaeth.
Mainc Cae Chwarae Bethel – Yn dilyn cael eu peintio yn ddiweddar, mae yna goes fainc wedi cael ei thorri. Byddwn yn trefnu i'r fainc cael ei thrwshio.
Diolchiadau am Nawdd – Derbyniwyd sawl llythyr o ddiolch am nawdd ariannol.
Hen Glybiau Ieuenctid – Derbyniwyd siec o £385.47 sef balans oedd ar ôl o'r hen gyfrifon clwb Bethel, Rhiwlas a Penisarwaun. Bydd yn rhaid defnyddio yr arian yma tuag at ddigwyddiad er budd pobl ifanc.
Lôn Garnedd – Mae arolygwr ffyrdd yn cyflawni archwiliad o'r lleoliad i ddarganfod tarddaid y dŵr ac achos y llif yno.
Tan y Buarth -Dal i ddisgwyl ymateb gan y Cyngor Sir. Mae'r clerc wedi gyrru i atgoffa y Cyngor Sir am y sefyllfa ar y pafin, bydd yn dilyn i fyny eto mis yma i geisio cael ymateb pendant gan Cyngor Gwynedd.
Gohebiaeth a materion eraill
Meysydd Chwarae y Gymuned – Derbyniwyd llythyr gan Cyngor Gwynedd,ynglyn a'r chyfres o arbedion effeithlonrwydd pellach I wasaneuthau. Y nôd yw ceisio enyn diddordeb ac ystyriaeth y Cynghorau Cymunedol I gymeryd y cyfrifoldeb am y meysydd chwarae. Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd cysylltu a Chyngor Gwynedd a'u gwahodd draw I'r Cyngor Cymuned I drafod yr holl ffeithiau.
Cynllunio
Ceisiadau a dderbyniwyd yn ystod y mis:
2 Pen yr olchfa, Clwt y Bont – Estyniad a Newidiadau
Ty'n y Fawnog Uchaf, Dinorwig - Estyniad a Newidiadau I dy presennol
5 Tai Ffynnon, Clwt y Bont – Codi balcony ar edrychiad ochor, ynghyd a cladin ar rhan uchaf yr eiddo
7. Ceisiadau Hwyr
Yn flynyddol, mae diwrnod cau ceisiadau am nawdd ariannol Y Cyngor Cymuned yn disgyn ar Fedi 30, a hynny bob blwyddyn. Mae gofyn gyrru llythyr neu ffurflen sydd I gael er wefan Y Cyngor ynghyd a Mantolen Ariannol Gyfredol wedi ei arwyddo I law y Clerc erbyn y dyddiad yma. Yn arferol, bydd y cyngor ddim yn cyfarfod am rai dyddiau, ond eleni, roedd cyfarfod y Cyngor yn disgyn y diwrnod canlynol, ac felly nid oedd dim lle I roi. Oherwydd hyn derbyniwyd rhai ceisiadau ddiwrnod yn hwyr, a bu rhaid disgwyl tan y cyfarfod heno I weld os oedd Y Cyngor yn fodlon trafod. Oherwydd yr amgylchiadau, penderfynwyd didoli o'r arian oedd ar ôl yn gyllideb rhoddion fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cylch Meithrin Deiniolen | £150 |
| Clwb Crefft Rhiwlas | £150 |
| Eco'r Wyddfa | £150 |

Cyfeillion Rhiwlas – Nid oedd mantolen ariannol wedi ei gynwys gyda'r cais, ac ond ers ychydig fisoedd maent wedi cychwyn, felly yn anffodus, ni allwn roi cyfraniad iddynt eleni.
Clwb Ieuenctid LLanrug – Derbyniwyd cais am nawdd ar gyfer clwb ieuenctid o Gyngor Cymuned LLanrug. Mae 93 o blant wedi cofrestru yn y clwb ac o'r rheini mae 14 o Ddeiniolen a 3 o Fethel, ac felly gofyn os ydym awydd cyfrannu. Teimlwyd fod plant o wahanol bentrefi yn mynychu pethau o fewn pentrefi eraill, megis Pel droed, Clwb Ffermwyr Ifanc ayyb ac ni fuaswn yn dod I ben. Mae yna blant o bentrefi eraill yn mynd I'r clwb ieuenctid yn Neiniolen ar Nos Fawrth hefyd.
Nodyn mai 30ain o Fedi yn flynyddol mae dyddiad cau ceisiadau rhoddion a rhoi hysbyseb clir yn LLais Ogwan a Eco'r Wyddfa.
10. O gwmpas y Bwrdd
Bethel – Pantiau yn y tar mac ar lonydd a dŵr yn sefyll, yn arferol mae'r Cyngor yn dod o amgylch yn tacluso a gwneud lle i'r dŵr cael rhedeg o'r lôn. Cysylltu i'w atgoffa.
Bethel – Bws 10 ddim yn sdopio yn Bethel gan fod y bws rhy llawn bob bore, cysylltu ac adran trafniadiaeth I ofyn oes posib trefnu rhywbeth.
Biniau Halen – Ty'n Fawnog, Dinorwig a Top yr allt (Penlon) y ddau fin angen o'r newydd.
Nant y Garth – Gyda'r Lôn yn eithriadol o beryg a llitherig gyda dail, ac angen ysgubo'r dail.
Dim Ymateb – Sawl mis mae'r clerc yn gyrru ac yn adrodd ar broblemau a gwallau I Cyngor Gwynedd, a sawl gwaith does dim ymateb, nac esboniad o'r fath o gwbwl. Penderfynwyd gyrru at y Prif Weithredwr I ddatgan ein pryderon fod hyn yn digwydd.

Cofnodion Cyfarfod 5ed Tachwedd 2019
Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir
Materion o'r cofnodion
Cae'r Foel, Dinorwig
Nid ydym byth wedi derbyn ymateb pellach gan yr adran gorfodaeth, ond dywedodd y Cynghorydd Elfed Wyn Williams fod y perchennog yn cael rhybudd yr wythnos yma.
Diolchiadau am Nawdd – Derbyniwyd gair o ddiolch a ddarllenwyd gan:
Pwyllgor Clwb Pensiynnwyr Penisarwaun, Clwb Tenis Bwrdd Rhiwlas, Cylch Meithrin Deiniolen, Clwb Pel Droed Ieuenctid Bethel, Clwb Crefft Rhiwlas, Eisteddfod Bentref Bethel.
Derbyniwyd cais mis yma gan Seindorf Arian Deiniolen, a teimlwyd fod digon o amser wedi pasio i dderbyn ceisiadau, ond derbyniwn sylwadau fod angen i nodyn atgoffa fod yn y papurau bro y flwyddyn nesaf.
Tan y Buarth
Arolygwyr ffyrdd wedi bod yn archwilio'r pafin, ac ni allai weld unrhyw broblem. Mae'r Cynghorydd Gareth Wyn Griffiths am gysylltu i gael esbonio yn union y broblem yno.
Biniau Halen – Bro Elidir ar y rhestr i newid ers llynedd, byddent yn newid un Ben lon Penbont hefyd.
Pantiau Dŵr Lon Bethel – Arolygwr ffyrdd am archwilio'r lleoliad yn ystod tywydd gwlyb, a gweithredu fel bo'r angen.
Nant y Garth – Lleoliad ar rhestr ysgubo dail, ac wedi ei gyflwyno i'r uned waith bwrdeisdrefol.
Meysydd Chwarae – Yn dilyn derbyn llythyr o'r Cyngor Sir mis diwethaf, bu i'r cadeirydd siarad gyda aelod o'r adran berthnasol yn y Cyngor. Penderfynwyd ffurfio is bwyllgor mis nesaf ( un cynghorydd o bob pentref) er mwyn cyfarfod a swyddogion o Cyngor Gwynedd i drafod oblygiadau o'r gwaith a beth yw bwriad Y Cyngor Sir.
Bws 10 o Dinorwig i Gaernarfon – Yn dilyn cwyno fod y bws yn llawn, tybed oes modd cael bws mwy – clerc i gysylltu ac adran trafnidiaeth.

Gohebiaeth a materion eraill
Taith Urdd Patagonia – Llongyfarchiadau Mawr i Gwion Llywelyn o Ddeiniolen sydd wedi cael ei ddewis i fynd ar daith Prosiect Gwirfoddoli Urdd Gobaith Cymru i Batagonia ym mis Hydref 2020. Yn flynyddol mae'r Urdd yn derbyn ceisiadau gan sawl disgybl sydd a'r awydd i fynd, ac ond 2 o bob Rhanbarth sydd yn cael eu dewis. Fel rhan o'r cytundeb i fynd, mae'r disgyblion yn gorfod hel oddeutu £2,500 yr un i allu cymeryd rhan, ac mae hynny yn waith caled i greu gweithgareddau i godi arian.
Cae gyferbyn a Llwyn Celyn, Clwt y Bont – Derbyniwyd gohebiaeth ynglyn a'r tir yma gan un o drigolion Clwt y Bont, ac mae'n hanes diddorol iddo. Penderfynwyd anfon yr ohebiaeth at Archifdy Gwynedd, a gofyn iddynt edrych i mewn i gynwys y llythyr a'r tir. Hefyd anfon copi at ADRA a gofyn iddynt a fuasai ganddynt ddiddordeb mewn trawsnewid y tir i rhywbeth defnyddiol i'r gymuned yng Nghlwt y Bont – ond nid adeiladu tai arno.
Gwaith "Cwmni Arbed" yn Neiniolen – Cynllun Llywodraeth Cymru o'r enw ARBED – ei bwrpas oedd arbed arian filiau gwresogi. Cynigiwyd y cynllun hwn i dai yn Neiniolen ( fel ag ardaloedd eraill megis Carmel), ond yn anffodus daeth problemau i amryw o dai yn arbennig ar y waliau tu allan – y disgrifiad a roddwyd oedd "Green slimy marks after insulated fitting". Mae Llywodraeth Cymru wedi anfon arolygwyr i edrych ar y broblem,.
Penderfynwyd anfon at y cwmni sef "ARBED AM BYTH" – ei swyddfa yn Nantgarw ger Caerdydd i ofyn iddynt ddod i Ddeiniolen (os nad ydynt wedi dod eisioes) i adfer y sefyllfa yn syth i breswylwyr y tai. Byddwn yn gyrru copi i Cyngor Gwynedd er mwyn iddynt hwy gefnogi y preswylwyr a chysylltu a'r cwmni ynghyd a chopi i Sian Gwenllian. Mae'n hanfodol i gwmni "Arbed am Byth" adfer y sefyllfa ar y tai sydd wedi eu effeithio yn Neiniolen.
Cynllunio
Ceisiadau a dderbyniwyd yn ystod y mis:
Rhyd y Galen, Bethel – Lleoli 18 o unedau gwyliau teithiol, lleoli cwt bugail symudol ar gyfer cyfleusterau ymolchi i'r unedau teithiol, creu ffyrdd ynghyd a gwelliannau amgylcheddol gan gynnwys creu llwybrau troed a thirlunio.

## GWOBRAU YSGOLORIAETH I FYFYRWYR LLWYDDIANNUS


Derbyniodd enillwyr YSGOLORIAETHAU ym Mhrifysgol Bangor eu gwobrau yn y noson cyflwyno Ysgoloriaethau Mynediad a gynhaliwyd yn ddiweddar.

Dyfarnwyd 124 o ysgoloriaethau i gyd, gwerth bron £290,000, i fyfyrwyr blwyddyn gyntaf newydd. Roedd y mwyafrif ohonynt yn derbyn gwobrau Ysgoloriaeth ar ôl rhagori yn arholiadau Ysgoloriaethau Mynediad y Brifysgol ei hun, neu am eu llwyddiant academaidd arbennig yn eu harholiadau lefel A neu'n cyfwerth.

"Mae ein hysgoloriaethau'n golygu ein bod yn gallu cydnabod a gwobrwyo'r rhai sydd naill ai'n rhagori yn ein harholiadau ysgoloriaeth, neu gyrraedd y cyrhaeddiad academaidd uchaf ar fynediad" meddai Amanda Smith, Rheolwr Marchnata. "Rydym yn awyddus iawn i ddenu'r myfyrwyr gorau i Brifysgol Bangor ac i gefnogi'r myfyrwyr yma gymaint â phosibl," ychwanegodd.

Mae gan Brifysgol Bangor - werth dros £3.4M o fwrsariaethau ac ysgoloriaethau ar gael i fyfyrwyr newydd a rhai'n dychwelyd ym Medi 2020. Ceir mwy o fanylion yn:
https://www.bangor.ac.uk/studentfinance/info/bangorscholarships.php.cy

Un o'r myfyrwyr I elwa ar yr ysgoloriaethau hyn yw Aled Pritchard o Lanberis. Derbyniodd wobr o £500 gan yr Is-ganghellor Yr Athro Iwan Davies o Brifysgol Bangor. Mae Aled yn gyn-ddisgybl o Ysgol Brynrefail ac, erbyn hyn, mae'n astudio Cymraeg gyda Newyddiaduraeth ym Mhrifysgol Bangor. Dyfarnwyd Ysgoloriaeth iddo ar ôl rhagori yn arholiadau Ysgoloriaethau Mynediad y Brifysgol.




## Cyfraniad Staff Siemens i Gafael Llaw

Gafael Llaw




Hoffai elusen Gafael Llaw ddiolch o galon i staff cwmni Siemens yn Llanberis am gasglu swm anhygoel o £3,500 dros y flwyddyn diwethaf. Cafodd yr elusen ei dewis gan staff fel elusen y flwyddyn ar gyfer 2019 a mae'n grêt gweld cwmni mor fawr yn dewis cefnogi elusen leol. Cafodd yr arian ei gasglu drwy weithgareddau fel teithiau cerdded, sêl cacennau a llyfrau a diwrnod chwaraeon. Mae elusen Gafael Llaw yn cefnogi plant a phobl ifanc Gwynedd a Môn sy'n dioddef o gancr a bydd yr arian yn gwneud gwahaniaeth i'w bywydau.

**Pêl Bonws** Enillydd mis Tachwedd oedd Janice Harris, Waen. Enillydd mis Rhagfyr oedd Tegid Roberts, Arwel.

Llongyfarchiadau i chi. Diolchir i bawb am gefnogi'r Bêl Bonws yn ystod 2019 gyda'r elw yn gymorth tuag at gynnal Cinio Nadolig Pensiynwyr y pentref. Mae tri rhif sbâr ar gael; os oes gan unrhyw un ddiddordeb cysylltwch â Liz 872421 neu Janet 871265.

Diolch Dymuna pawb fu ym Miwmares i fwynhau Cinio Nadolig gwerth chweil ynghyd â phnawn cymdeithasol dros ben ddiolch i Janet, Dave, Liz a Jean am y trefniadau. Edrychir ymlaen at Nadolig 2020 yn barod.

**Genedigaeth** Llongyfarchiadau mawr i Ann a Dave Patterson, 1 Bryntirion, ar ddod yn nain a thaid unwaith eto. Ganwyd mab bychan, Llywelyn Môn, i'w merch Andrea a Tudur a brawd bach i Gruffydd Enid a Tirion.

**Llongyferchir** Erin a Darren ar enedigaeth eu mab bychan Iago a brawd i Myfi ac ŵyr i Eifion Harding.

**Ysgol Sul Bosra** Braf oedd cael croesawu'r plant yn ôl i'r Ysgol Sul, Ionawr 12fed, wedi rhialtwch y Nadolig. Siôn Corn wedi bod yn hynod o garedig ac wedi gwireddu dymuniadau'r plant i gyd. Mwynhawyd stori'r Pedwerydd Brenin a stori'r pry copyn a achubodd fywyd Mair, Joseff a'r baban Iesu drwy wau drws o we ariannaidd ar geg yr ogof rhag milwyr Herod. Diolch i Anti Sharon am aros i helpu.

Rydym i gyd yn falch o ddeall bod Anti Liz yn gwella wedi iddi gael clun newydd. Fore Sul, Ionawr 26ain, gwahoddwyd ni i ymuno ag aelodau Eglwys Santes Helen mewn gwasanaeth 'Cristingl' am 10 y bore. Dymunir diolch am y croeso ac am gael cymryd rhan.

**Pwyllgor Neuadd Cymuned** Tynnwyd Clwb Cant Ionawr a'r enillwyr yw Nia Oliver, Gors, Brynrefail, a Helen Stone, Llys Arddun. Atgoffir aelodau'r Clwb Cant ei bod yn amser adnewyddu'r aelodaeth gyda chroeso i aelodau newydd am £6 y flwyddyn. Dymunir diolch i bawb ohonoch a gefnogodd holl weithgareddau'r Pwyllgor i godi arian tuag at y gost o redeg ein Neuadd Gymuned nodedig. Erfynnir am eich cefnogaeth gref eto yn 2020 gyda llawer o ddiolch. Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol nos Lun, Ionawr 20fed. Cafwyd y cofnodion yn gywir a diolchir i'r Trysorydd am y fantolen ariannol. Cynhelir Pwyllgor nos Fawrth, Chwefror 25ain, am 7 o'r gloch i drefnu dathlu Gŵyl Ddewi ar Fawrth 2il.

**Diffibrilyddion** Bu cyfres o gyfarfodydd yn y Neuadd Gymuned i egluro sut i ddefnyddio'r pedwar diffibrilydd sydd o gwmpas y pentref pryd y dangoswyd sut i roi CPR. Bu'r cyfarfodydd ar Ionawr 9fed, Ionawr 16eg a 23ain am 7 o'r goch yn y Neuadd, ac un yn y prynhawn am 1.30 ar Ionawr 30ain. Dymunir diolch i Bryn Roberts am gychwyn yr ymgyrch ac am ei ddarlith hynod o werthfawr, llawn manylion. Unwaith eto dymunir diolch i'r holl gyfranwyr am eu haelioni gan ein galluogi i gael pedwar diffibrilydd yn y pentref wedi ymgyrch o ddrws i ddrws gan godi dros £6,500.

**'Band Dienw'** Llongyferchir Twm Herd ac Osian Land, deuawd y band indi-roc 'Dienw' sydd wedi cael sesiwn gan Huw Stephens mewn gig hefo Alffa yn Lerpwl. Pob dymuniad da i hogia Ysgol Brynrefail.

**Eisteddfod Bentref 2020** Cynhaliwyd Pwyllgor nos Lun, Ionawr 20fed, i drefnu Eisteddfod 2020 yn dilyn Eisteddfod lwyddiannus 2019. Cafwyd adroddiad manwl gan Carys Williams, y Trysorydd. Cynhelir Pwyllgor nos Fawrth, Chwefror 25ain am 7.30 i drefnu Eisteddfod 2020 a gynhelir nos Fercher, Gorffennaf 15fed.

**Gwellhad** Dymunir gwellhad buan i bawb sy'n sâl yn y pentref ac anfonwn ein cofion at Betty Pritchard a Pat Jones, sydd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Eryri.


Siân Gwenllian
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a hi yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor
Swyddfa Etholaeth
70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948
Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076
Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru


E. W. Pritchard
Trefnwyr Angladdau
CENTRAL GARAGE
LLANBERIS
FFON- (01286) 870202





Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor
Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

# LLANRUG Eryl Roberts, Peris,56 Glanffynnon (675384)

**Capel Tanycoed:**

Estynnir croeso i oedfaon y Sul yng Nghapel Tanycoed, am 11.00 o'r gloch y bore.

**Chwefror 2:** Y Parchg John Pritchard

9: Y Parchg John Robinson

16: Y Parchg John Pritchard

23: Y Parchg Alun Thomas

Mawrth 1: Y Parchg John Pritchard

**Capel y Rhos** – Oedfaon mis Chwefror

2 – Parch Marcus Wyn Robinson y Gweinidog

9 – Parch Eric Jones, Bangor

16 - Gweinidog

23 – Mrs Nerys Griffiths, Caernarfon

Cynhelir dydd Gweddi Byd Eang y Chwiorydd eto eleni yn festri Capel y Rhos ddydd Gwener, Mawrth 6ed am 1:30 y pnawn. Croeso cynnes i bawb.

**Eglwys St Mihangel yn yr Institiwt**

**Chwefror 2il** am 10am: Caffi'r Llan. 'Beth yw Gŵyl y Canhwyllau?' Celf a lluniaeth ysgafn. Croeso cynnes i bawb.

**Chwefror 16eg:** Y Cymun Sanctaidd.

**Digwyddiadau Cymdeithasol**

**Chwefror 6ed** am 6 o'r gloch: Bingo yn Nhafarn Pen y Bont, Bwyd a Bingo. Croeso i bawb.

**Chwefror 27ain** am 2 o'r gloch y prynhawn: 'Crempogau a Phererindod'. Bydd Val Krersman yn disgrifio ei phrofiadau a dangos darluniau o'i thaith ar y Via de la Plata (Y Llwybr Arian), llwybr Rhufeinig o Salamanca i Santiago de Compostela yng Ngogledd Sbaen.

**Clwb Hafan Elan** Dymuna Eilwen Charters anfon gwybodaeth ei bod yn ymddiswyddo ac ymddeol o drefnu gweithgareddau y Clwb diwedd y flwyddyn 2019 am resymau personol ac eraill.

Anrhydedd a braint fawr oedd cael gweithio gyda'r gwirfoddolwyr, preswylwyr a ffrindiau oedd bob amser yn cefnogi y Clwb. Diolch yn fawr i chi i gyd a phob lwc i'r Clwb yn y dyfodol. Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Cysylltwch yn awr gyda Beverley (y warden) ar 0777 075 1081.

**Diolchiadau** Fe ddymunir anfon diolchiadau mawr i Eilwen Charters am ei gwaith diflino dros flynyddoedd yn gofalu am y Clwb, yn trefnu gweithgareddau, tripiau, ymweliadau i'r Sinema a chyngherddau. Bydd colled fawr ar eich ôl, Eilwen, ond yn deall y byddwch yn cefnogi y sawl fydd yn cymeryd y swydd. Pob dymuniad da.

**Profedigaeth** Yn dilyn cyfnod yn Ysbyty Aintree, Lerpwl, bu farw Megan Axon, yn 89 mlwydd oed. Mam annwyl Anita a Gareth Jones, Bryn Moelyn, a gweddw y diweddar Gwyn Axon.

Brodor o'r Fron oedd Megan ond wedi byw yn Hafan Elan ers dros 13 o flynyddoedd yn hapus iawn ac yn aelod llawn a chefnogol o'r 'teulu' yno. Roedd yr olaf o 8 o blant a daeth cymaint o'r teulu a ffrindiau i dalu y gymwynas olaf iddi yng Nghapel Carmel.

Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant at Anita a Gareth a theulu Gareth oedd wedi bod mor garedig a chefnogol dros flynyddoedd maith. Bu sawl aelod o'r teulu yn ymweld â Megan tra yn yr ysbyty a gwyddom fod hyn wedi bod mor gefnogol i Anita.

Bydd colled fawr iawn iddynt oll ac i'w ffrindiau lawer, yn Hafan Elan yn enwedig.

**Babi Newydd** Llongyfarchiadau mawr i Selwyn a Meirwen Lloyd, Afallon, Bryn Moelyn, ar ddod yn daid a nain unwaith eto i Mabli Cêt, merch fach i Owain a Glesni yng Nghaerdydd. Pob bendith.

**Babi Newydd** Llongyfarchiadau hefyd i Bedwyr a Hawys, Rhes Disgwylfa, ar enedigaeth Macsen Bedwyr.

**Profedigaeth** Dymunwn anfon ein cofion a'n cydymdeimlad yn eu profedigaeth o golli chwaer annwyl at Now ac Ann Griffith, Hawddamor. Roedd Mary yn 93 mlwydd oed ac yn byw ei hun yn Aberdaron. Meddwl amdanoch.

**Pen-blwydd Arbennig** Dymuniadau gorau i'r canlynol ar ddathlu eu pen-blwyddi yn ddiweddar:

Dilys Jones, 12 Hafan Elan, yn 90 oed; Gwyneth Evans, Glan Moelyn, yn 70 oed; Guto Williams, Afon Rhos, yn 18 oed. Llongyfarchiadau i chi i gyd.

**Damweiniau a Salwch** Dymunwn gofio am sawl un sydd wedi bod yn sâl dros dymor y Nadolig. Mae'r Meddygon Teulu druan wedi bod yn andros o brysur gyda'r holl salwch!

Mae Jim Jones, Afon Rhos, wedi bod yn yr ysbyty lleol yn cael llawdriniaeth ac erbyn hyn mae wedi mynd i aros gyda'i fab, Keith a'r teulu yn Milton Keynes, lle y cafodd lawdriniaeth arall.

Rydym yn dymuno yn dda ichi, Jim, a gobeithio am wellhad buan.

Cafodd Iris Jones, 9 Hafan Elan, ddamwain gartref lle y syrthiodd a thorri pen ei hysgwydd. Mae wedi bod yn Ysbyty Eryri yn cael gofal a thriniaeth. Brysiwch wella, Iris.

Unwaith eto rydym yn cofio at Megan Roberts, Gregynog. Cafodd hithau ddamwain yn y gwynt mawr ar faes Caernarfon ac anafu ei wyneb yn arw a'i hysgwydd. Cafodd noson yn Ysbyty Gwynedd ond yn awr mae gartref dan ofal Gareth. Dymunwn wellhad buan i'r ddau ohonoch, gan fod Gareth hefyd wedi bod yn sâl.

Deallwn bod Clifford Williams, Awelon, wedi cael pen-glin newydd ac yn dod yn ei flaen yn dda. Gofal nawr Cliff - dim chwilio am fwyar duon na dim - pob dymuniad da i chi.

**Priodas** Dymunwn yn dda i Sonia Rochelle, Tai Tŵr, Bryn Bras, ar ei phriodas yn ddiweddar.

**Clychau'r Grug** Edrychir ymlaen at weld ein gilydd yng Ngwesty'r Celt, Caernarfon, bnawn Gwener, Ionawr 31ain am 2 o'r gloch.

RHOSTIO MOCHYN
Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
AR GYFER POB ACHLYSUR
DEWCS MAE O'N FLASUS
PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU
CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!
Cysylltwch a
John Brynafon
LLANRUG
www.ydyncig.co.uk
675190 • 673188
Symudol- 07798 718188

SAMARIAID
Mae
Llinell Gymraeg
0300 123 3011
ar gael bob nos
rhwng
7.00pm ac 11.00pm

HUW OWEN
PLASTRWR
ADEILADWR LLEOL
22 BLWYDDYN O BROFIAD
CWÔT DI DA
Ffôn- 01286 677668
Symudol- 07940023159
Gladwyn Station Rd.
LLANRUG, Caernarfon
LL55 4AG
Ebost- lisa.huw@btinternet.com

WAVELL'S
Bryn Ac Angela Williams
London House
LLANRUG
PEN CIGYDDION Y FRO
YR ŴYN LLEOL MWYAF BLASUS
SELSIG CARTRE
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST
MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!!
(01286) 673574

**Merched y Wawr** Estynnwyd croeso cynnes i bawb gan y Llywydd, Nan Humphreys, a dymunwyd blwyddyn lewyrchus i bawb yn 2020. Cychwynnwyd gyda Chân y Mudiad gyda Susan yn cyfeilio. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan rai aelodau ac estynnwyd croeso mawr i aelod newydd, sef Amanda, sydd wedi symud o Abertawe atom ni i Lanrug. Anfonir ein cofion anwylaf at Eirianwen ac Iris ac at Megan wedi iddi ddisgyn a datgymalu ei hysgwydd. Llongyferchir Meirwen a'r teulu ar enedigaeth wyres fach arall, Mabli Cêt ar Ionawr 2il. Llongyfarchiadau hefyd i Rhiannon ar ddod yn nain falch.

Roedd pawb yn falch o weld Phyllis, Llywydd Anrhydeddus y gangen, wedi llwyr wella wedi triniaeth yn Ysbyty Gwynedd cyn y Nadolig. Diolchodd Phyllis am y tusw bendigedig a dderbyniodd gan y gangen.

Cynhelir Gŵyl y Pum Rhanbarth eleni yn Llanrwst ar Fai 9fed - enwau erbyn Ebrill 5ed. Cynhelir Cinio'r Llywydd Cenedlaethol yn y Quays, Deganwy, ar Chwefror 21ain.

Gŵr gwadd y noson oedd Duncan Brown, y naturiaethwr a'r darlledwr dwyieithog. Fe'i ganwyd yn Buxton, Swydd Derby, ac yna symud i Waenfawr a chael ei addysg Gymreig yn Ysgol Gynradd Waenfawr ac yna Ysgol Syr Hugh Owen. Mae'n artist dawnus ac yn naturiaethwr uchel ei barch. Mae wedi ysgrifennu toreth o erthyglau am fyd natur, yr amgylchedd ac am newid hinsawdd a chlywn ei lais yn aml ar y radio. 'Cardiau Post Hen a Newydd' yn olrhain y straeon a'r newidiadau yng nghefn gwlad oedd dan sylw ganddo. Mae 'Newid yn Change!' meddai gan bwysleisio drwy ei sleidiau difyr nad yw'r byd yn sefydlog ac, yn anffodus, yn amlygu ei hun, a bod oes y cerdyn post bellach ar fin dod i ben. Trist oedd canfod fod ambell i adeilad wedi diflannu o rai o'n pentrefi, megis y cerdyn o Aberffraw, a bod y bont fel y bu yn Llanystumdwy cyn 1928 bellach wedi'i lledu i gerddwyr a cheir. Dangoswyd cymaint o goed sydd bellach wedi tyfu mewn nifer o lefydd. Cafwyd nifer o luniau o'r ganrif flaenorol gyda'r newidiadau yn amlygu eu hunain yn Cwm Aber, gyda 'mieri lle be mawredd' mewn amryw o lecynnau. Cymharwyd amaethyddiaeth ddoe a heddiw, gyda thirwedd gwyrddach na gwyrdd flynyddoedd yn ôl, - oes ceffyl a throl gyda waliau uchel cysgodol. Roedd y cardiau yn dangos y tywydd yn frawychus gyda Medi crasboeth yn 1908 lle gellid darllen tu allan tan 10.30! Yn 1962, a hithau yn fis Awst, roedd y tywydd yn finiog oer gyda eira a rhew yn Norfolk. Roedd pawb yn gwybod yr hanes am Lyn Padarn wedi rhewi yn 1895 a dangoswyd cerdyn o dyrfa o bobl ynghyd â cheffylau a throliau ar wyneb y llyn!

Diolchwyd i Duncan Brown gan Nan Humphreys. Diolch am noson hynod o addysgiadol a chofiadwy. Diolchir i Rhiannon, Ann Lloyd, Jennie a Meryl am ofalu am y baned. Enillydd y raffl oedd Ann Thomas.

Ar Chwefror 11eg cawn gwmni Anwen Thomas gyda 'Troedio: Adweitheg Gwynedd.

**Plaid Cymru : Enillwyr Clwb Cant Mis Ionawr**

1..John Morris, Llanuwchllyn

2..Goronwy Hughes, Llanrug

**Ennill Gwobr Ewropeaidd**

Ym mis Rhagfyr, enillodd brodor o Lanrug wobr fawreddog Ewropeaidd ym myd y gyfraith.Mae Daniel Jones, gynt o Bro Rhyddallt, Llanrug, wedi ennill gwobr am safon uchel ei wasanaeth yng nghyfraith deuluol, megis gwahanu, ysgariad, hawliau neiniau a theidiau, a lles plant trwy ysgariad. Cafodd ei gyflwyno gyda'r tlws yn y Ritz ym Mharis ar ddechrau Rhagfyr, ynghyd ac un o'i gydweithwyr o'r adran.

Mynychodd Daniel Ysgol Gynradd Llanrug ac Ysgol Brynrefail, Llanrug, cyn mynd i'r chweched dosbarth yn Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon. Dilynodd gwrs gradd yn y Gyfraith ym Mhrifysgol John Moores, Lerpwl, a chwblhau ei Dystysgrif Ymarferol yno hefyd. Dechreuodd ei yrfa yn Bennet Smith yn Nant y Garth gan drafaelio yno bob dydd o Lerpwl. Erbyn hyn mae'n Bennaeth yr Adran Deuluol hefo BLM Law, un o gwmniau mwyaf Prydain ac yn rhannu ei amser rhwng Manceinion a Llundain, ac wedi ymgartrefu yn Lerpwl gyda'i wraig, Danielle, sydd hefyd yn Dwrnai.


Mab y ddiweddar Marion Jones yw Daniel, ac yn ŵyr i Mrs Bet Jones a'r diweddar Stan Jones, Mae'r teulu i gyd mor falch o'i lwyddiant - llongyfarchiadau mawr, Daniel.

**Ymddeol wedi blynyddoedd o wasanaeth**



Wedi blynyddoedd o wasanaeth clerigol yn swyddfa'r Ysgol Gynradd mae Margaret Williams bellach yn mwynhau ymddeoliad haeddiannol. Gyda diolch gan ddisgyblion, cyn-ddisgyblion, rhieni a chyfeillion yr ysgol am ei hymroddiad a'i charedigrwydd dros y blynyddoedd.



# Dyddiadur 1920

Dyfyniad allan o ddyddiadur llanc ifanc 17 oed o'r Waunfawr oedd yn gweithio yn chwarel lechi Cefn Du yn 1920.

Dydd Sul: Codi i fynd i'r capel. 'Nhad yn gweiddi fel Sarjant Major wrth droed y grisiau. Codi dan rwgnach a thuchan. Brifo drostaf ar ôl bod ar y sgêts yn y pafiliwn neithiwr. Teimlo'n stiff. Mae gen'i gydymdeimlad mawr â phawb sy'n diodde o'r cryd cymalau, gan mod i'n siŵr mai rhywbeth tebyg i hyn ydi o. Cyrraedd y capel. Y sêt yn galed, pam na chawn ni seti bach esmwyth fel sy'n y Guild Hall yn y dre? Meddwl am y dyn hwnnw yn y pafiliwn neithiwr yn llifio'r bocs a'r hogan ddel ynddo, ynghyd â llu o driciau eraill. Dyfalu a dyfalu. Y pregethwr yn bloeddio, a minnau'n landio'n ôl ar y sêt galed mewn syfrdan. Wedi mynd allan, holi'r hogia lle roedd y testun, neb yn cofio nac yn malio r'an hynny. Mi fydd nhad siŵr o ofyn. Mynd i'r Ysgol Sul y pnawn. R'hen William Ifan yn methu'n glir ein cael at y wers, yr hogia yn sôn am helyntion neithiwr. Pawb â'i esboniad am y tricia. R'hen William Ifan yn colli ei grefydd ac yn tafodi ac yn proffwydo barn ar ein pennau. Mynd i'r capel nos, codi'r testun ar y llyfr emynau, rhag i'r hen ddyn gael rowio ac edliw fel bore.

Dydd Llun: Methu'n glir â chodi. Mam yn gweiddi a gweiddi. Bara llaeth i frecwast, hitio dim amdano. Wedi cael cefn mam, rhoi llefrith a siwgr ynddo. Gwell o lawer. Dim amser i gael te a brechdan, bwyta'r frechdan dan fynd. Cyfarfod Dafydd Glan Gors wrth lidiart y mynydd, yntau'n cwyno'n enbyd am effeithiau'r rhedeg a chicio ffwtbol ddydd Sadwrn. Cyrraedd y chwarel, a mynd reit slei rhag y stiward. Llwytho llechi i'r wagen bren. Rhoi gormod yn un pen nes iddi godi. Gorwedd a gweiddi, pawb yn rhedeg, gan feddwl fy mod dan y wagen. Tric da, er nad oedd neb arall yn meddwl hynny chwaith! Cael fy rhegi, a dweud y byddwn fel yr hogyn hwnnw fyddai'n gweiddi 'Blaidd' o hyd. Amser cinio, bara menyn a chig ar ôl ddoe. Gwrando ar rai yn trafod y pregethau, eraill ffwtbol a bocsio a minnau'n blino gwrando. Mynd allan i chwarae Coits. Cael fy ngalw ar ôl cinio i gynorthwyo r'hen William Dafis i godi wagen ar y rêls. Wrth edrych lawr o ben y domen, gwelwn garlwm yn ymosod ar gwnhingen ac yn ei lladd yn ysgeler a brwnt. Amryw o ddynion eraill wedi dod yno erbyn hyn yn taflu cerrig a gweiddi i geisio dychryn y carlwm, ond yn rhy hwyr, roedd ei ddannedd miniog wedi suddo i'r gwddf a sugno ei gwaed. Pawb yn teimlo'n ddig ac yn brudd, ac wrth feddwl, dyma eiriau y pregethwr ddoe i'm cof. 'Duw yn caru y byd', a minnau yn methu cysoni pethau a gofyn y cwestiwn i'r dynion eraill. Mynd oddi yno'n ddistaw ddarfu pawb dan ysgwyd eu pennau. Llwytho eto y pnawn. Brys am ordors meddai'r clerc. Brysio adre, helpu nhad roi gwair i mewn a malu. Wedi blino gormod i 'molchi a newid i fynd i'r pentref. Picio i tŷ nesa at Robin i chwarae 'Bord Lincs'. Cyrraedd adre, dau gymydog yno eisiau torri eu gwalltiau. Arferent ddod yn achlysurol, gyda'r naill yn torri gwallt y llall yn y sgubor. Minnau yn ddifynedd, yn gorfod dal y gannwyll iddyn nhw gael golau. Diflas iawn.

Dydd Mawrth: Codi'n gynt heddiw. Teimlo'n well, a'r gewynnau wedi dechrau 'stwytho. Uwd i frecwast, brechdan a bara ceirch. Bore stormus. Mynd i'r chwarel trwy Waen Bant ac er ei bod braidd yn wlyb, roedd yn haws cerdded y ffordd honno nac ar hyd y lôn galed. Gweld y defaid wedi dod lawr i gysgod wal y mynydd. Wrth fynd heibio Ty'n Gorlan, agor y giât a rhai o'r hogia yn hel y defaid i gaeau Guto Cefn, gan ei fod yn achwyn yn barhaus wrth y stiward ein bod yn dengid adre cyn caniad. Gelyn mwyaf Guto yw defaid. Dysgu gwers iddo fo, yr hen geg fawr. Clywais nhad yn dweud amdano yn rhoi llo bach i'w chwaer Mari, ac yn ei werthu ar ôl iddi ei fagu'n fawr ac yn rhoi llo bach arall iddi fagu yn ei le. Llwytho eto heddiw er y glaw, rhaid gyrru ordors y cerrig i ffwrdd. Gyrru'r wagen ar ras, ond wrth fynd heibio Huw Tomos Tan Foel, bachodd darn o haearn oedd ar ei hochor ym mhoced ei got fawr a'i rhwygo bron i'r gwaelod. Sôn am araith! Yr hen greadur fel cacwn, yn dawnsio a damio wedi gwylltio, ac yn gwaeddi mai hon oedd ei got ail orau. Roedd Huw Tomos wedi gwlychu bob dydd yn y tywydd gwlyb ac wedi gorfod dod â'i gôt nos i'r chwarel, a honno'n andros o gôt dda meddai. 'Mi fasa'n well genai fod wedi rhwygo nghroen o lawar na nghot, gan o leia y cawn i groen newydd am ddim!' Pawb ond y fo yn mwynhau'r helynt. Dal i fwrw'n drwm. Gwlyb fel sbangi. Hen got soldiwr amdana i yn colli lliw glas ar fy nwylo. Mynd i'r sied gan ffugio poen, dweud fy mod wedi cleisio fy llaw. Un yn rhedeg am ddŵr poeth, ac un arall am y bocs 'First Aid', pawb o'm cwmpas. Mi fu jest i mi gael cweir.


Llwytho'n brysur drwy'r pnawn. Daeth yn dri o'r gloch, gweld Jôs y stiward yn mynd am y rhan arall o'r gwaith, yna mynd i gwt y saer a dweud wrtho'n reit sobr fod y stiward wedi dweud iddo fo ddod i'n helpu i yrru'r wagen i ben yr inclen. Yntau'n dod dan fytheirio a thafodi. Gwendid mawr y saer mewn lle fel y chwarel oedd coelio pawb, a rhai bob amser yn manteisio arno. Wedi cael help fel hyn, roeddwn yn barod i gychwyn adre'n brydlon. Stwnsh rwdan a phwdin bara oedd yn ein disgwyl heno. Eu mwynhau'n helaeth. Gyda'r nos braf. Brysio i dŷ Ned Fawr, ar ôl clywed fod fy nillad ffwtbol wedi cyrraedd. Amryw o'r hogia yno. Ned a'r togs amdano yn dangos ei hun, ond pawb ofn dweud hynny wrtho. Mynd ati wedyn i bigo'r tîm. Gadael tŷ Ned Fawr a mynd i gadwriat wrth y Post. 'R'hen Ben Mawr' fydda ni'n galw y plisman acw, a'i brif bleser oedd erlid a bygwth y plant, a phawb oedd yn cadw cŵn heb leisans. Mi fyddai bob amser yn cario ffon a phelen arni, a doedd o ddim yn brin o'i gosod ar draws pen ôl rhywun fyddai o fewn ei gyrraedd. Heno dyma fo'n dod yn drwm ei anadl ac yn ein rhybuddio, a dweud yn sarrug i ni beidio gwneud twrw a mynd adre'n ddistaw, gan ei bod yn amser i bawb parchus fod yn y tŷ. Pawb yn mynd reit ddistaw o'i olwg.

Dydd Mercher: Codi'n well nac arfer heddiw. Maidd yr iâr i frecwast. Ei lowcio lawr ar frys, a brechdan ffresh yn fy llaw ar ôl pobi ddoe. Gweld neb ar y ffordd, pawb wedi hen fynd. Wedi i mi gyrraedd giât y mynydd roedd wedi dechrau bwrw. Wrth lwc cawn gysgod wal y mynydd er ei bod yn gwaethygu bob cam. Pan bron cyrraedd y chwarel, dal yr hen Jac Pritchard yn mynd yn llafurus wedi cael sgidia hoelion mawr newydd. Cyrraedd y bonc. Y stiward yn dwad i'n cyfarfod yn edrych ar ei wats boced yn awgrymiadol. 'Cop ffêr and sgwêr,' meddwn. 'Yli, gad ti betha i mi,' meddai'r hen Jac yn ddistaw. Pesychiad swyddogol gan y stiward a meddai, gan hylldremio arnom a'n tafodi, 'Gwyddoch y rheol, rhai dwytha yn cyrradd y gwaith fydd yn cael eu stopio gynta.' Minnau'n crynu 'nhin. Ond meddai'r hen Jac yn hamddenol, 'Ma'n ddrwg gen i fod yn hwyr Mistar Jôs,' gan edrych ar ei draed, 'ond mi ges gythral o fyd i berswadio'r sgidia hoelion newydd 'ma i ddwad heddiw, doeddan nhw ddim yn gwbod y ffordd welwch chi. Ond mi fyddan yn iawn wedi bod un waith.' Yr hen giaffar bron â chwerthin, a meddai gan drio rhoi awdurdod yn ei lais, 'Ffwr â chi am y tro, a chymrwch gythral o ofal na welai mohonoch eto!'

Ochenaid o ryddhad. Penderfynu gweithio'n galetach heddiw i drio plesio'r hen Jôs. Treulio'r bore yn helpu yn y cwt injan. Pan bron yn amser cinio, cael ordors i wneud te i rai o weithwyr y sied. Gwneud y te mewn tecell mawr, a rhoi siwgr a llefrith ynddo, felly nid oedd angen tebot. Rhai yn cwyno'n barhaus o achos un chwarelwr am yr ychydig de, siwgr a llefrith a roddai yn y tecell. Un cynnil a chybyddlyd oedd hwn bob amser, Amser iddo gael gwers. Rhoi ei fymryn te a siwgr mewn llond piser o ddŵr oer, nes bod ei de fel dŵr golchi llestri. Golwg gibog ac anniolchgar arno, a phawb yn chwerthin yn ddistaw bach. Dal i fwrw yn drwm ar ôl cinio. Cael fy ngyrru i helpu'r ffforddoliwr atgyweirio tipyn ar y ffordd haearn yn y lefel fawr. Twnnel hir yn cyrraedd o dwll y chwarel i'r siediau. Yn y fan honno byddai dau geffyl yn tynnu hanner dwsin neu fwy o wagenni llawn cerrig, ac yn mynd â'r rhai gwag yn ôl gan basio ei gilydd tua hanner ffordd. Mi fyddai'r stiward yn manteisio ar ddiwrnod glawog er mwyn trwsio a thacluso y ffyrdd haearn. Roedd

pob sŵn yn cario yn glir drwy y lefel, ac os byddai'r stiward yn gwrando, mi fyddai'n siŵr o'n clywed ni yn gweithio, felly roedd yn bwysig gwneud tipyn o dwrw, ac wrth eistedd lawr i gael sbelan a smoc byddai'r hen fforddoliwr yn taro y rêls haearn rŵan ac yn y man gyda'i forthwyl i wneud tipyn o dwrw. Mynd efo'r hogia gyda'r nos i stabl Wiliam Wilias y siop, lle roedd 'Dic Gwas Mawr' bob amser yn falch o'n gweld i gael help i falu. Dic yn cynllunio pob ystryw i'n cael i droi yr hen injan falu, a herio pwy fedrai droi yr injan hiraf, tra byddai yntau'n gwthio'r gwair iddi. Blino'n fuan ar hyn a mynd i gadwreiat yn y gwair, a'r hen 'Was Mawr' yn damio dros y lle. Wedi cael trefn, byddai'r hen Dic yn ddifyr iawn yn dweud ei hanes yn gweini ar ffermydd mawr Pen Llŷn a Sir Fôn, yn sôn am ei orchestion, neu rhyw geffyl cryf fedrai symud yr injan ddyrnu ei hun. Dyna beth oedd 'horspŵar' i Dic. Ein stori heno oedd, 'Pan o'n i'n ben certmon ar ffarm fawr yn Sir Fôn, mi roedd 'na gymaint o weision yno, 'tasach chi'n gweld nhw'n dŵad o'r iard gyda'r nos, mi fasach yn meddwl na dŵad o'r chwaral oeddan nhw. Ew a bwyd da yno. Mi oedd gin y morwynion ful a horspŵar yn cymysgu'r uwd. Cegin anfarth a bwrdd ar ganol y llawr a rêls ar hyd ei ganol, a chrochan uwd gymaint a wagan chwaral, efo olwynion o dano. Y mul yn tynnu'r crochan ar y rêls ar hyd y bwrdd, a'r gweision yn codi uwd i'w powlia!' Straeon felna a gawn gan 'Dic Gwas Mawr'. Credem yn sicr ei fod o'n perthyn yn agos i'r 'Wil Celwydd Golau' hwnnw mae cymaint o sôn amdano. 'Mae 'rhen Ddic yn iawn,' meddai Wil Jane Ann, 'ond fod ei beiriant deud gwir o yn taflu ei strap weithia!' Gyda'r nos mynd at y Post. Yr hogia yn hel i siop chips Mr Brown. Sais wedi dechrau gwneud chips mewn sosban fawr ar y tân yn y gegin. Mr Brown yn fawr ei helynt a helbul, edrych ar ôl y chips a chadw trefn, Lle hwyliog ond chips cythreulig o sâl. Cyrraedd adre yn hwyrach nac arfer heno. Darllen 'Papur Pawb' cyn mynd i'r gwely, papur wythnosol yn dod allan bob dydd Mercher.

Dydd Iau: Codi yn dda heddiw. Cael brecwast ar unwaith â 'nhad. Brecwast? Hanner cyfle, Pero'r ci defaid wedi ei gael! Ar ôl brecwast, gorfod disgwyl i 'nhad gadw dyletswydd. Anesmwyth iawn, meddwl ei fod yn rhy hir o lawer. Y tywydd wedi callio tipyn heddiw ar ôl y glaw mawr ddoe. Ar ôl cyrraedd giât y mynydd, edrych yn ôl a gweld yr afon wedi llifo dros ei glannau a'r gweirgloddiau i gyd dan ddŵr. Cyrraedd y chwarel am unwaith cyn caniad a phawb yn ddigon sbeitlyd. 'Be o'dd matar bora 'ma ngwas i, chwain yn dy wely di?' a phethau felly. Mae'n wyllt iawn yma heddiw ar ôl colli ddoe o achos y glaw. Cael dau ddyn o Bonc Ceffyl Du i'n helpu.



Y stiward yn dweud fod rhaid cael ordors y llechi yn barod at ddiwedd yr wythnos i dalu'r ffordd. Cael fy ngyrru ar ôl cinio i'r cwt injan yn yr inclen i helpu Wil Teiliwr, yr 'injan dreifar' i godi wagen o lo ar y rêls. Byddwn yn codi'r glo gyda llwythi o lechi. Dyma'r tro cyntaf i mi gyfarfod yr hen Wil, er fy mod wedi clywed llawer o sôn amdano a'i fedr fel 'injan dreifar'. Roedd yr hen greadur mewn oed mawr ond yn iach a sionc, a'i wyneb yn llym gyda locsyn llaes wedi gwynnu. Roedd golwg batriarchaidd arno, tebyg i lun rhai o'r hen broffwydi. Yn y stryffag o godi'r wagen, sathrais ei droed. Proffwyd wir! Diflannodd fy argraffiadau cyntaf wrth ei glywed yn fy rhegi a ngalw yn bob enw, ac yn hercian ar un goes a gweiddi'n uchel, 'Mi fasai'n well gen i roi chweigian yn y tân na cha'l rhywun fel chdi'n sathru'n nghorn i!' Ynghanol y bytheirio, daeth bloedd o ben yr inclen fod y wagen lo ar fin cychwyn. Minnau'n falch o gael neidio arni, gan adael yr hen Wil yn damio a gweiddi ar fy ôl. Doeddwn i'n deall ond ambell air fel, 'R'hen dacla Waunfawr 'na, teulu Began Ifan gythral!' Dramadeiddio'r hanes ar ôl mynd i fyny i'r chwarel a phawb yn mwynhau'r helynt. Mynd yn ôl i Bonc Ceffyl Du ganol pnawn i lwytho cerrig. Ffrae fawr hefo un o'r chwarelwyr, yr un oedd yn brin efo'r te. Roedd hwn yn fyr yng nghyfri ei lechi hefyd! Bob amser un neu ddwy lechen yn fyr mewn hanner cant a minnau'n methu cael y cyfri'n wastad ar ddiwedd y dydd. Aeth yn llanc mawr, ac yn gas iawn. Un cas a checrus oedd hwn bob amser. Mynd a'i adael gan addo'n ddistaw y cawn gyfle eto i ddial arno. Cyn mynd adre, crafais hen saim du oddi ar yr hen injan yn y cwt a'i rwbio ar handlen drws ei wal. Gweithiodd y tric yn dda, ond mi fydd yn siŵr o fy amau, ond ni fedr brofi dim. Gyda'r nos, drama yn y Festri. 'Cwmni y Ddraig Goch' neu 'Cwmni Gwynfor' o Gaernarfon yn perfformio. Pawb yn edrych ymlaen ers dyddiau. Helynt lecsiwn a meistr y tir yn hel rhai o'r tenantiaid o'r ffermydd am beidio fotio i'r Toris. Actio da, pawb yn casau'r stiward ac yn cydymdeimlo â'r ffermwr oedd yn gorfod gadael ei gartre ac ymfudo i'r America. Un hen gymeriad o'r ardal 'Wil Coes Bren' yn eistedd ar ôl ar y diwedd i aros i'r gynulleidfa fynd allan gan ei fod mor analluog. Yn y cyfamser daeth rhai o'r actorion i'r Festri i gael paned a smoc ac i siarad â hwn a'r llall, a stiward y tir yn eu mysg a r'hen Wil yn barod i roi ffon ar ei gefn. Cafwyd cryn drafferth i'w dawelu. Rhwng pob dim mae'n hwyr arna i'n cyrraedd adre heno.

Dydd Gwener: Er mor hwyr neithiwr, codi'n brydlon heddiw. Pawb yn sôn ac yn canmol y ddrama wrth fynd i'r chwarel. Tydi'r ffordd ddim mor hir a serth wrth gyd gerdded gyda chwmni hwyliog. Cael a chael cyrraedd cyn caniad. Mynd â'r llwythi llechi oedd yn barod i ben yr inclen, bachu dau lwyth wrth y weiar rope sydd wedi ei rowlio am ddrwm mawr a brec arno i'w reoli. Roedd pwysau y llwyth llechi yn mynd lawr yr inclen yn codi'r wagenni gwag a'r wagenni glo i fyny, ond heddiw doedd y brec yn dal dim. Pas wyllt. Roedd rhywun wedi rhoi oel ar y drwm ac wedi colli peth am ben y brec, Llanast fawr a malu'r wagenni'n yfflon. Hen wagenni oedden nhw, ond ni anafwyd neb wrth lwc. Buom wrthi drwy'r dydd yn clirio a thrwsio, a dynion y gwaith i gyd bron yn dod i weld yr holl lanast. Diolch nad oedd bai arnom ni. Pawb yn holi beth ddigwyddodd a minnau'n gorfod ail ddeud yr hanes lawer gwaith. Trwy siarad a dweud yr hanes buan iawn y dois dros

y sioc. Amser cinio, gwrando ar Huwco, mab 'Wil Gwas Mawr' yn dweud hanes trwsio to y tŷ efo'i dad. Rhoi ystol fach ar y to a rhaff dros y grib, a Huwco'n ei rhwymo wrth giât yr ardd ffrynt. Pan oedd ei dad yn brysur ochr arall i'r to daeth Dicw ei frawd ar frys o'r tŷ gan agor y giât heb sylwi ar y rhaff, a'r hen Wil ar yr ystol yn llithro ddwy lath lawr y to. Dicw yn rhoi clep ar y giât i gau a'r hen Wil a'r ystol yn ôl yn eu lle, mewn ofn a dychryn. Wedi iddo gael ei wynt ato, mi dorrodd storm uwch eu pennau, rhwygo'r awyr gyda rhegfeydd a bygythion. Barn y gwrandawyr? 'Debyg ar y diawl i'w dad!' Cyn cychwyn am adre, dyma Jac y stiward a'r clerc yn dod, poen eto. Dibynnu sut dempar sydd arno fo. Pan mewn tymer drwg gallai fod yn bur afresymol a rhoi bai ar rhywun a phob dim, ond chwarae teg mi roedd o'n rhesymol iawn y tro yma ac ysgafnhaodd fy maich a'm poen. Galw yn yr offis wedyn i nôl cyflog wythnos lawn, £2/10s. Ar ôl swper chwarel, mynd i dŷ Ned Fawr. Yr hogia bron i gyd yno. Yr hen wraig ei fam yn mynd i hel tai fel arfer ac felly byddai yno le hwyliog iawn. Twm, brawd Ned, wedi gwirioni efo canu ac yn moedro pawb efo'r solo 'Dafydd y Garreg Wen'. 'Am fynd at rhywun i'r dre,' medda fo 'i ga'l dysgu canu'n iawn, a rhoi cynnig ar gystadlu yn 'steddfod Rhos cyn y Dolig!' Blino arno'n rhygnu am yr un peth, a phawb yn mynd o'i olwg. Mynd wedyn i dŷ fy ewythr Dafydd gan y byddai'n mynd i'r cwt shefio bob nos Wener. Lle difyr a hwyliog. Doedd fy marf yn tyfu dim er mawr fy siomiant. Edrych yn y gwydr bob dydd, dim argoelion. Cael llawer o gynghorion gan rai yn y cwt shêf, fel 'rhwbia beth o saim wagan lechi ar dy wynab'. Doedd dim amdani ond ffalsio efo'r hen ewythr er mwyn cael mynediad i'r lle tangnefeddus hwnnw, lle byddai pawb a'i stori, yn enwedig straeon chwithig hen gyfeillion a llawer stori amheus, tebyg i ddameg fel y cefais fy nysgu yn yr Ysgol Sul, stori a dau ystyr iddi. Minnau'n glustiau i gyd. Mi ga'i dweud hi yn y chwarel wythnos nesa, ar ôl ei chlywed hi yn y cwt shêf nos Wener. Mi fyddai hynny yn fy ngwneud i yn dipyn mwy o ddyn.

Dydd Sadwrn: Tipyn o ras heddiw. Llowcio y bara llaeth a rhoi brechdan yn fy mhoced wrth fynd. Doedd wiw bod ar ôl heddiw, yn enwedig a stem fach handi. Penderfynu cadw'n glir o'r shed ar ôl tric y saim y diwrnod o'r blaen. Cael fy ngyrru i helpu Wil Certmon i falu digon o 'chaff' am wythnosau i geffylau'r gwaith. Bachu hi yn yr hospŵar a dechra malu 'ffwl sbid' i gael darfod reit handi. Gweld y stiward o ben y boncan yn mynd adre tua un ar ddeg, a ninnau'n cychwyn ymhen tipyn ar ei ôl. Brysio adre trwy Waun Bant efo Robin tŷ nesa. Wrth fynd heibio Ty'n Gorlan, clywed Guto Cefn yn y cwt glo yn llenwi'r bwced. Mynd yn ddistaw at y cwt a'i gloi i mewn efo'r bowlten o'r tu allan. Ymhen ychydig funudau, twrw dobio a gweiddi mwyaf dychrynllyd a drws y cwt yn 'sgytian a chrynu, a ninnau'n heglu oddi yno cyn gynted ac y medren. Roedd yr hen Fari ei chwaer yn drwm ei chlyw ac ni fedrai glywed yr holl fwstwr. Mi wna tipyn o jêl les i'r hen gythral cegog. Cyrraedd adre a rhoi help i 'nhad roi gwair i mewn a malu dros y Sul. Mam yn cyrraedd toc, wedi bod yn y dre hefo'r brec ddeg ac yn ôl ar y brec un o'r gloch ac yn dweud y drefn na fuasem wedi mynd ati i wneud cinio, yn lle disgwyl wrthi hi o hyd. Ymhen tipyn, mynd i'r tŷ, y cinio'n barod, mam wedi dod â torth dair ceiniog a 'penny ducks' o'r dre. Roedd yn werth gwitiad am y cinio, nhad a minnau'n bwyta'r dorth i gyd. Mam yn fy mhen yn dweud, 'Rhaid i ti helpu dy dad y pnawn ma,' a finna isho mynd i gicio ffwtbol. Cychwyn hefo'r ferfa, ac wedi mynd o olwg y tŷ, 'Awe!' Cicio'n galed drwy'r pnawn. 'Court Marital' pan ddois adra. Ffendiodd mam ar unwaith ôl chwysu a maeddu arnaf, a 'nhad yn huawdl yn condemnio chwaraeon yr oes. 'Meddwl am ddim ond am gicio gwynt mewn croen llo, y fath ffolineb, a'r byd yn mynd i golledigaeth.' Pethau'n tawelu toc. Yr hen ddyn wedi mynd allan ar gefn ei gythrael, a mam wedi dod at ei choed ac yn gwneud te. Mynd am y dre cyn i nhad ddod i'r tŷ. Galw ar Robin Tŷ Nesa. Mewn penbleth os awn at y Post, bydd Evan Jones yn disgwyl i ni fynd i'r dre yn ei frec dau geffyl fel arfer, a minnau isho mynd efo bus Caernarfon & Waunfawr Motors, oedd newydd ddechrau rhedeg o Feddgelert i Gaernarfon. Penderfynu mynd ar hyd llwybr Gerddi Fawr at y bont i aros y bws. Gwirioni cael mynd mewn bws am y tro cynta. Gwyro i lawr wrth fynd heibio brec Evan Jones. Cyrraedd y Maes mewn rhwysg a mwg, a phawb yn troi i sbio. Mynd i'r 'first house' yn y Guild Hall. Diolch am gael eistedd ar ôl diwrnod caled ac yn brifo drostaf ar ôl cicio ffwtbol. Ffilm gowbois a chomic da, ond bod rhai o'r Cofis yn lluchio papurau ac amryw bethau eraill at bawb yn y llawr. Mrs Davies y rheolwraig a dyn wrth y drws yn mynd i fyny a bygwth eu hel allan. Canlyniad? gwneud pethau'n waeth. Mae'n helynt fel hyn bob nos Sadwrn. Ar ôl y Guild Hall, mynd i'r Pafiliwn, ni fedrwn feddwl am fynd i'r Mona am lasiad, bron a mynd, ond ofn i'r hen bobol ogleuo'r ddiod arnaf. Lle hwyliog y Pafiliwn, gyda organ y 'Merry Go Rounds' yn byrlymio ei miwsig dros y lle. Stondinau lliwgar o bob math i ddenu ceiniog y gwirion a'u gwag addewidion a'u gwobrau. Am y stondin saethu bydda i yn mynd bob amser. Saethu cetynau clai, a'r wobr? blodyn papur lliwgar! Heno, fe'm hudwyd ar y swings, byth eto! Cadair yn hongian ar gadwyn hir yn cael ei throi rownd yn gyflym. Gyda ein bod wedi cychwyn gafaelodd un o'r hogia yn fy nghadair a rhoi tro sydyn arni, nes roeddwn yn troi fel top a'r gadwyn yn cyrlio ac yn daffod bob yn ail. Roeddwn yn teimlo fel pe bawn mewn storm ar y môr. Wedi cael gwerth chwech o'r poenydio yma, ni fedrwn sefyll, wedi meddwi'n llwyr ac yn sâl. Bu rhaid crafangio allan fel babi yn dechrau cerdded yn simsan ar hyd y llawr, a'r hogia yn cael hwyl fawr am fy mhen. Wedi bod allan am dipyn, daeth Robin i chwilio amdanaf. Roeddwn yn teimlo'n well erbyn hyn. Cafodd Robin wydriad o ddŵr i mi gan ddynes dweud ffortiwn mewn carafan gerllaw. Mynd yn ôl am ysbaid, ond yn teimlo'n rhy sigledig i fynd ar y sgêts. Eistedd yn y galeri am sbel i wylio'r hogia yn sgetio. Robin a minnau yn mynd wedyn am chips i siop Jim 20. Cychwyn cerdded adre a meddwl na chyrhaeddwn ni byth. Doedd na ddim brec na bws ar ôl saith. Dweud wrth Robin nad oeddwn byth am gicio ffwtbol eto. Robin yn dweud y byddwn wedi anghofio'r cwbl erbyn Sadwrn nesa. Tybed?

Dydd Sul: Mynd i'r capel fel arfer. Dim dewis, rhaid mynd. Credai nhad a mam ei bod yn ddyletswydd ar bawb i fynd i'r capel. Mynd ar ffrwst fel arfer, er ei fod yn boen o'r mwya, gan fod pob gewyn yn brifo ac fel be pai wedi cwtio. Roedd pob ymdrech yn galed, ond doedd dim iws cwyno. Wedi cyrraedd y capel ac eistedd gyda ochenaid, siriolais tipyn wrth weld pwy oedd y pregethwr. Ni fydda'i byth yn cofio enwau y pregethwyr, er fy mod yn eu hadnabod o ran eu gweld. Bydd hwn bob amser yn fy ngorfodi i wrando, gyda'i ffordd ddifyr a digri o draddodi straeon diddorol ac yn actor da. Roedd mewn hwyliau da heddiw yn dweud hanes Joseff a'i frodyr, ac yn gwyro dros y pulpud a'i gadach boced wen fawr yn ei law yn actio y brodyr yn gollwng Joseff i'r pydew, a chyn y diwedd, actio codi Joseff o'r pydew. Yr oedd yn gwneud i ni gofio'r hanes diddorol hwn ac yn sicr y cofiaf am byth. Mynd i'r Ysgol Sul yn y pnawn fel arfer. Yr arolygwr wedi dod â llun y mab afradlon a'r moch o'r llyfrgell ac yn adrodd y ddameg. Pawb yn gwrando'n astud. Wedi gofyn i un o'r hogia yn y sedd flaen beth oedd yn feddwl o'r llun, atebodd yntau gan bwyntio at un o'r moch, 'Wyddoch chi be Ŵan Jos? mi ddeudwn i fod hwn yn fanna'n ddiawl o fochyn da i'w weld!' Mynd i'r capel nos eto. Y pregethwr yn sôn am Dduw yn caru'r byd. Clywed pobol yn y seiat ar ôl y cyfarfod yn canmol y bregeth a'r gwirioneddau oedd ynddi, ac eto roeddwn yn methu deall pethau, bod y fath greulondeb, dioddefaint, erlid a lladd yn y byd. Gofyn i nhad ar ôl dod adre, ond ches i fawr o eglurhad, er iddo draethu llawer i drio esbonio, ac i gloi, yn dweud y down i ddeall pethau'n well pan fyddwn yn ddyn.

Mynd i'r gwely yn fuan.

*Gwilym Morris Jones*

# TUDALEN YR IFANC



## Cwis Tudalen yr Ifanc!

Mae hi'n flwyddyn newydd ac yn ddegawd newydd! Felly pa ffordd orau i ddathlu nag edrych yn ôl ar rai o lwyddiannau pobl ifanc y fro, sydd yn siŵr o flodeuo ymhellach yn y ddegawd sydd i ddod.
Dyma gwis bach i chi yn crybwyll eitemau o Dudalen yr Ifanc dros y flwyddyn ddiwethaf:

1: Roedd yr actor o Benisarwaun, Siôn Emyr yn rhan o gynhyrchiad theatr i blant rhwng Pontio a Theatr Clwyd. Gorffennwch enw'r sioe - "Y Llew a'r _____"

2: Beth sy'n cael ei ddathlu yng Nghymru ar ddydd Gwener gyntaf mis Chwefror, diolch i ymgyrch Llywodraeth Cymru i gynyddu'r niferoedd o siaradwyr Cymraeg? "Dydd _______ Cymru"

3: Mae Gŵyl Fwyd Caernarfon yn cynnal swper Gala yn flynyddol ym mis Mawrth er mwyn codi arian i'r ŵyl ac i roi hwb i gogyddion lleol ar y cyd gyda pha sefydliad?

4: Pa fand lleol ddaeth i'r brig mewn 5 categori (Cân Orau, Fideo Gorau, Band Gorau, Albwm Gorau a Gwaith Celf Gorau) yng Ngwobrau'r Selar 2019?

5: Gan barhau gyda themâu cerddoriaeth, pa gyfrwng oedd yn cael ei ddathlu mewn gwobrau newydd ar yr 11eg o Ebrill yng Nghanolfan Mileniwm Cymru gyda cherddor lleol yn dod i'r brif fel Artist Unigol Gorau? "Gwobrau ________ Cymru"

6: Enwch yr artist a gafodd y wobr yng nghwestiwn 5 oedd wedi lansio'i albwm 'Arenig' ym mis Mai 2019 gyda themâu amrywiol yn sôn am natur a chariad, newid hinsawdd a chyfalafiaeth.

7: Mae Megan Lloyd, o Gwm y Glo wedi llwyddo i ddatblygu ei chwmni gweini coffi a bwyd mewn gwyliau ac erbyn heddiw wedi agor caffi mewn lleoliad parhaol yn Llanrwst. Beth yw enw ei chwmni, sydd wedi ei selio ar air Swedeg sy'n golygu cymryd amser yn y dydd i rannu coffi a rhywbeth i'w fwyta gyda ffrindiau?

8: Ysgrifennodd Rhiannon Lucy Cosslett, newyddiadurwraig sy'n wreiddiol o ardal yr Eco, erthyl i'r Guardian o'r enw "Cymru am Byth! How speaking Welsh became cool" yn adnabod presenoldeb y Gymraeg mewn technoleg. Beth oedd teitl erthygl Eco'r Wyddfa oedd yn ymateb i'w phwnc wrth i ni annog darllenwyr i gyfrannu at waith datblygu adnoddau adnabod lleferydd fel Siri a Google Home? "______, siarada chydig o Gymraeg"

9: Mae dawnsio wedi bod yn rhan fawr o fywydau Chloe a Iola, dwy ferch ifanc o ardal yr Eco, sydd erbyn hyn wedi mynd ati i gychwyn Clwb Dawns newydd sy'n ymarfer ym Mhenisarwaun. Beth yw enw'r clwb dawns?

10: Ym mis Hydref 2019 roedd Katie Lloyd, yn wreiddiol o Bontrug yn casglu arian er mwyn gwirfoddoli i 'The Green Program'. I ba wlad oedd Katie yn teithio er mwyn datblygu'r maes gynaladwyedd dros gyfnod y Nadolig?

11: Ar gyfer codi arian i Blant Mewn Angen, aeth Gethin Griffiths o Fethel fyny mynydd bum diwrnod yn olynol gyda chyflwynydd Radio Cymru Aled Hughes. Pa fynydd?

12: Ac un o'r clawr i orffen! Pa fand lleol, sydd wedi ennill poblogrwydd rhyngwladol ar Spotify, sydd wedi lansio eu halbwm "Rhyddid o'r Cysgodion Gwenwynig" cyn diwedd 2019?

**ATEBION i'r Cwis Chwaraeon.**

1 - Crydd
2 - Miwsig
3 - Coleg Menai
4 - Gwilym
5 - Gwerin
6 - Gwilym Bowen Rhys
7 - Fika
8 - Alexa
9 - Hudoliaeth
10 - Nepal
11 - Yr Wyddfa
12 - Alffa

DODREFN A LLORIAU
PERKINS
FURNITURE & FLOORING
••• 01286 673535 •••
www.perkinsfurniture.co.uk
16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1AG

BYSUS RHIWLAS
BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Tripiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
Ffoniwch (01248) 361044



D. P. OWENS RHIWLAS

# Un funud fach ...

## AIL FRANDIO

Derbyniais neges e-bost y dydd o'r blaen oddi wrth gwmni cwbl ddieithr i mi; ond roedd ei enw'n ddigon i ddangos mai cwmni o argraffwyr oedd o. Gan feddwl mai un o'r llu o gwmnïau anhysbys sy'n masnachu ar y We oedd hwn, bwriadwn ddileu'r neges. Ond cyn gwneud hynny, oedais a sylweddoli mai cwmni o'r De oedd o, wedi ei ail frandio dan enw newydd. Fûm i erioed yn swyddfa nac argraffdy'r cwmni, ond mi fûm yn trafod un neu ddau o bethau â'i berchennog dros y ffôn dro'n ôl. Mwy na thebyg i mi wneud hynny hefyd trwy e-bost ac mai dyna sut y medrodd y cwmni anfon neges ataf ynglŷn â'r datblygiadau newydd. Yn ôl ei wefan, gall y cwmni erbyn hyn ddarparu gwaith o ansawdd uwch gan ddal i gynnig yr un gwasanaeth safonol y bu ei gwsmeriaid yn ei dderbyn ers ei sefydlu.

Byddai llawer yn dadlau fod angen (yng Nghymru yn arbennig) ail frandio Eglwys Iesu Grist y dyddiau hyn er mwyn ei bywiogi a rhoi delwedd fwy deniadol iddi. A bod yn deg, mae llawer o eglwysi wedi newid cryn dipyn dros y blynyddoedd diwethaf. Mae rhai wedi codi adeiladau newydd; eraill wedi addasu hen adeiladau; ac eraill eto wedi symud i addoli mewn adeiladau cymunedol yn eu pentrefi a'u trefi. Gwnaeth rhai newidiadau amlwg i batrwm eu hoedfaon; ac mae amryw ohonynt yn defnyddio gwahanol gyfryngau i ledaenu eu neges ac i gyrraedd cynulleidfa ehangach. Mae mwy nag un, yn arbennig wrth i eglwysi ymuno â'i gilydd, wedi mabwysiadu enw newydd hyd yn oed.

Ond pa faint bynnag o ail frandio a fydd, y mae Eglwys Iesu Grist yn ei hanfod yn aros yr un o oes i oes. Pa newidiadau bynnag a wnawn i'w threfniadau a'i phatrymau a'i thraddodiadau, y mae'r Eglwys o reidrwydd yn aros yn gymdeithas o bob sy'n credu yn yr Arglwydd Iesu Grist. Cwmni o bobl sy'n addoli a gwasanaethu Duw a'u carodd ac a'u hachubodd trwy ei Fab ei Hun yw'r Eglwys ym mhob oes. Cwmni o bobl sydd wedi eu bywhau trwy rym yr Ysbryd Glân ydyw: dyna fu hi, dyna yw hi a dyna fydd hi. Gall amrywio o le i le, o wlad i wlad, ac o oes i oes o ran ei delwedd a'i gwaith. Ond ym mha ffordd bynnag y mae'n ei haddasu a'i diwygio ei hun er mwyn cyflawni ei gwasanaeth i'r Gwaredwr yn fwy effeithiol mewn gwahanol gyfnodau, ni all beidio â bod yr hyn ydyw yn sylfaenol yn ei chariad at Dduw a'i golwg ar Iesu a'i hymddiriedaeth yn yr Ysbryd Glân.

JOHN PRITCHARD

SPAR
Y Storfa Spar Llanrug
Sgwâr Llanrug
01286 673108
Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd, Cardiau Cyfarch, Swyddfa Bost
Llun - Sadwrn 6:30am - 9 pm, Sul 8am - 9pm

## Pigion Byd Natur

***Bol-goch, a du, ran lliw ei gefn!***

Dyma'r torgoch. Ie! a nage! Fel pob pysgodyn gwerth ei halen, neu mewn dŵr croyw, os mai yno y mae'n bodoli, perthyn i'r sgodyn unigryw hwn ei gyfoeth a hynny ran yr hanesion a geir amdano.

Ym mhapur bro Eco'r Wyddfa Ebrill (1976) ceir ymdriniaeth hynod drylwyr a chynhwysfawr gan y diweddar John Owen Huws, Waunfawr, ynghylch sut daeth y pysgodyn hwn i'n rhanbarth ni o Gymru.

Dywedir i dri offeiriad gludo'r pysgod yr holl ffordd o Rufain, a'u gadael yn nyfroedd tri llyn yn Eryri. Dywedir hefyd i Beris Sant ddyfod â nhw i ddalgylch Llanberis, a rhoi rhai ohonynt yn anrheg i Garob Sant; hwnnw wedyn yn eu gadael yn Llyn Cwellyn. Bu i Peris hefyd gyflwyno nifer o'r pysgod i Gredyw Sant, a dywedir i'r gŵr crefyddol hwnnw eu rhoi yn Llyn Dulyn, neu Lyn y Torgochiaid, fel y'i hadnabyddir.

Trafodir gan Griffith Tecwyn Parry, cyn-frodor o blwyfi Llanfihangel y Traethau a Llandecwyn, Meirionnydd, a hynny yn Cymru (1907) ...na ddelir hwy'n Llanberis ond yn y nos. Yn Llyn Uchaf Llanberis, delir hwynt wrth enau y bont fawr, mewn lle graianog, ac hefyd yng nghwr isaf y Llyn. Yn y Llyn Isaf ddelir hwynt wrth Ddol y Tŷ Du, ac wrth angorfa Bala Deulyn.

Yn y flwyddyn 2020 chwith meddwl bod y torgoch wedi prinhau, ond nid am byth, diolch i waith amhrisiadwy Cymdeithas Bysgota Gwyrfai, a'r deorfeydd sydd yn eu gofal. Bu i'r Gymdeithas Bysgota hefyd frwydro'n ddygn-galed yn erbyn llygru ein llynnoedd, pyllau a'n afonydd, a olygai nid yn unig ddifa pysgod, ond hefyd fyd natur.

Y mae lle cryf i feddwl, meddid yn y flwyddyn 1907, fod y dwfr mwynawl sydd yn rhedeg o waith copr Llanberis yn niweidio, nid yn unig y torgoch, ond hefyd bysgod eraill. Y mae'r gwaith hwnnw yn awr wedi sefyll a chaed helfa doreithiog y tymor diweddaf. Am fynedfa tan-ddaearol o'r naill lyn i'r llall, y mae y peth yn rhy anhawdd ei benderfynu. Gadewir y pwnc i farn gwŷr addysg, ond y mae'n wir ei fod yn draddodiad ar lên gwerin gwlad.

Credir bod y torgochiaid wedi eu dal mewn nifer o'n llynnoedd yn dilyn Oes yr Iâ. Bodola hefyd goel bod llwybr tanddaearol o'r llynnoedd Padarn a Peris yn ymestyn hyd at Lyn Cwellyn a Llyn Cwm Silyn yn Nyffryn Nantlle. Honnid mai'r pysgod a nhw'n unig a wyddai am fodolaeth y fath lwybr tan ddaearol!

Ebe Dafydd Whiteside Thomas:

Mae'r goel hon yn cael ei chadarnhau yn Holiadur y Torgochiaid a gyfansoddwyd gn Humphrey Owen, ac a atebwyd gan Ddafydd Ddu Eryri, sef David Thomas (1759-1822) a'r cyfan yn cael ei gyhoeddi yn y North Wales Gazette mis Chwefror (1809). Gan mai pysgod o'r un rhywogaeth ydoedd y torgochiaid yn llynnoedd Peris, Padarn a Cwellyn, doed i'r casgliad eu bod felly yn ymfudo o'r naill lyn i'r llall! Credid eu bod yn gwybod eu bod yn cael eu hela, a'u bod yn ei heglu hi drwy'r llwybr tanddaearol o lynnoedd Llanberis i Lyn Cwellyn - yn barod ar gyfer dechrau'r tymor sgota yno!

Ie'n wir! A'r oll yn peri i chwi feddwl pa mor gryf ydyw pysgodyn, a hynny o ystyried am ennyd pa mor nerthol hefyd ydyw dychymyg dyn ar brydiau!

Dafydd Gruffudd Ifan

ON Yn dilyn hanse y Copog yn y rhifyn diwethaf, holais a oedd rhywun arall yn cofio am yr aderyn yn cael ei ddangos yn Ysgol Brynrefail ddechrau'r 1960'au, a daeth cadarnhad. Diolch i Len Porter, Penisarwaun am ymateb. Roedd yntau hefyd yn cofio'r digwyddiad, a chredai mai cael ei ddarganfod yn farw ar dir Cae Hob a wnaeth y Copog, ac mai un o hogiau'r fferm ddaeth ag ef i'r ysgol. Golygydd.

# Ar ben arall i'r lein



Dyma ni ar ddechrau blwynedd newydd unwaith eto - blwyddyn newydd dda medda chwi, wel gobeitho'n wir. Ond pwy a wyr beth sydd o'n blaenau a diolch i'r drefn ein bod ddim yn gywbod chwaith. Yn y byd pysgodfaol ble 'rydym yn troi ynddo mae pethau yn tipyn mwy rhagweladwy. A fel hyn mae hi.

Yn Eco'r Nadolig gofynais i'r hen Siôn Corn am dri anrheg, wel ni chefais fy siomi yn ormodol gan fy mod yn ffodus o wedi gweld i'r dyfodol, be oedd y dyfodol yn ei ddatgelu wel, y ffaith fod ddim un or anrhegion i ddod fy ffordd. Bydd yn rhaid pwyso mwy ar Gyfoeth Naturiol Cymru a Cyngor Gwynedd mae gennyf ofn. Y siom fawr yw fod y cyngor yn medru anwybyddu ceisiadau o dan y ddeddf rhyddid gwybodaeth heb ddim beirniadaeth na chosb yn dod i'w ffordd am ei ymddygiad. A gyda CNC - wel mae pysgotwyr Cymru gyfan yn dal i ddisgwyl manylion o'r ddeddf newydd mae'r corff am gyflwyno a fydd fwy neu lai yn atal pyagota am yr eog yn nyfroedd ein gwlad. 'Roedd lleisiau uchel iawn ganddynt yn ystod 2019 y buasai'r ddeddf yma yn dod i rym ar 1af Ionawr 2020. Ond hyd yn hyn does dim manylion i law ar be fydd yn rhai cydymffurfio ag o.

Ond ar ddechrau blwyddyn arall rhiad peidio a bod yn or feirniadol, gan fod cyd-weithrediad lleol gyda Cyfoeth Naturiol Cymru yn ardderchog cyn belled a mae rhai agweddau yn y cwestiwn. Y cytaf hoffwn gyfeiro at y Cynllyn Torgoch i ysgolion sydd dan ofalaeth ein cadeirydd Dr. Robin Parry, Llanberis. Ar ddechrau Rhagfyr fe gafwyd cyflenwad o wyau'r torgoch i'r ddeorfa, y tro cyntaf i hyn ddigwydd ers 2000. Maent wedi dod yn ei blaen yn ardderchog heb ddim colledion. Erbyn 7ed Ionawr 'roeddynt wedi aeddfedu digon iw trosglwyddo i danc yn ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen ble maent nawr dan ofal y disgyblion. Cawn fwy ar hyn fel mae'r wyau yn deori a wedi tyfu digon iw rhyddhau i Lyn Padarn. Mae ysgolion Dolbadarn a Phenisarwaun yn barod wedi bod ynghlwm a'r cynllun yma a hefyd Ysgol Bontnewydd gyda'r cynllun magu eog, sydd yn anffodus wedi ei ddidymu gan CNC. 'Rydym yn ffyddiog bydd y cynllun torgoch yn parhau ac mae pedair ysgol gynradd yn y dalgylch sydd heb gael cyfle i gymryd rhan sef Llanrug, Bethel, Rhiwlas a'r Waunfawr. Os diddordeb yna cysylltwch a mi neu Dr. Parry.

A fuo rhywyn wedi bod o gwmpas Penllyn yn ystod diwedd Rhagfyr a dechrau Ionawr? Dwi 'di bod o gwmpas a wedi fy synnu ar y nifer o geir oedd wedi parcio o gwmpas y lle, un peth oedd yn tynnu sylw oedd na ymwelwyr oedd y rhan fwyaf a neb i weld yn edrych dros y pontydd i weld be oedd yn mynd ymlaen yn y dyfroedd. Wel i'r rhai sydd a diddordeb, mae gobaith am ddyfodol pysgodfaol or diwedd. gan dyma'r tymor ble mae'r nifer fwyaf o gladdiadau 'rwyf wedi ei weld ers bron i pum mlynedd ar ugain. Mae tennau Penllyn or hen bont i fewn i'r llyn yn llawn o gladdiadau, rhai brithyll brown a brithyll môr, hefyd mae'r torgoch wedi eu gweld yno yn un heidiau. Mae'r eog hefyd wedi bod yn brysur gyda twmpethi mawr i'w gweld rhwng y ddwy bont a hefyd o'r bont newydd i lawr ar Rhyd Bychan. Hefyd i'r rhai sy'n dal sylw mae gwely'r afon rhwng y ddwy bont wedi ei lanhau a'r gro wedi ei lacio fel rhan or cynllun adnewyddu cynefinodd. Mae'n berffaith amlwg fod y gwaith yma wedi bod at ddant y pysgod, ac yn y fan hyn hefyd mae'r lle yn frith o gladdiadau. Felly does ond eisiau aros i weld be fydd canlyniad hyn i gyd - mi fydd yn o leiaf dair blynedd cyn gweld os bydd mwy o gynnydd yn niferoedd y pysgod mudol - a dwy flynedd gyda'r brithyll brown a torgoch. Drwy gymryd cymhariaeth ar sut mae pethau wedi gwella'n raddol dros y ddwy flynedd a fu, yna mae hi weld yn addawol dros ben.

Ymholiad bach nesaf, yn enwedig i ardaloedd Deiniolen a Rhiwlas. Pan oeddwn y byw yn Neiniolen 'roeddwn yn meddwl fy mod yn gwybod am bob twll a chornel o Foel Rhiwen, wedi chware digon yno gan fod y lle ar drothwy fy nghyn gartref yng Nghae'r Tŷ. Ond fu erioed imi glywed am Ffynnon Moel Rhiwen - wel dyma sydd yn llyfr John Owen Huws - Straeon Gwerin Ardal Eryri cyfrol 2 tud 486. Ffynnon Moel Rhiwen. mae nifer o ffynhonnau enwog eraill yn yr ardal, megis Ffynnon Cegin Arthur a Ffynnon Moel Rhiwen, yn hon yn ôl traddodiad, a boera i wyneb drwgweithredwyr. Oes rhywyn yn gwybod ei lleoliad?

Huw Price Hughes.

# Chwaraeon

## Dechrau da i 2020!




Chwaraeodd Tîm Hoci Merched Caernarfon eu gêm gynta'r flwyddyn ar brynhawn Sadwrn, Ionawr 18fed yn erbyn ail dîm Ardudwy, sydd ar frig ail adran Cynghrair Hoci Merched Gogledd Cymru a phrif gystadleuaeth i griw dre.
Chwaraeodd y genod yn dda, er yr oerfel, gan ymateb i gôl gynnar Ardudwy ym munudau cyntaf y gêm gan ddod a hi'n gyfartal cyn yr hanner. Doedd sgiliau rhai o dîm dre ddim yn plesio Ardudwy gyda'r gwrthwynebwyr, sy'n chwarae gartref yng Nghanolfan Brailsford, Bangor, yn rhwystredig tu hwnt gan apelio i'r dyfarnwr sawl tro. Ond parhau i chwarae'n deg wnaeth Caernarfon gan orffen yr ail hanner gydag ail gôl diolch i gornel fer wrth i'r haul fachlud.
Gêm arbennig unwaith eto i chwaraewraig y gêm, Manon ( Jiws) Williams, a goliau gwych i Lois Parry-Jones a Ceri Welsh.
Hoffa'r tîm ddiolch i westy Padarn Lake am noddi eu cit newydd sydd, yn ôl y genod, wedi dod a lwc dda iawn iddyn nhw hyd yma!
Mae'n fis prysur iawn i'r tîm gyda 4 gêm arall i'w chwarae cyn rhifyn nesaf Eco'r Wyddfa.




## Rhedeg bob dydd....



Ar gychwyn 2019 penderfynodd Meinir Llwyd o Lanrug ei bod am redeg rhywfaint bob dydd o'r flwyddyn – waeth beth yr awydd na chwaith y tywydd. A do, fe lwyddodd i wneud hynny; gan amlaf yn rhedeg o amgylch Llyn Padarn, ei hoff gyrchfan. Ond nid oedd ar ei phen ei hun – roedd Morgan, ci Cocker Spaniel y teulu yn gwmni ffyddlon iddi. Da iawn, eich dau !

# Er Cof : Y Parch. Eric Roberts



Gŵr, tad, taid. Eric Caeathro, Eric Manweb, Eric Reffari, Y Parch. Eric Roberts. Fe wisgodd Eric sawl het ond ni siaradodd drwy'r un ohonynt erioed. Dyn y gair pwyllog. Dyn y geiriau ystyrlon. Dyn y geiriau addas. Dyna fy adnabyddiaeth i o Eric dros sawl blwyddyn. Yn sicr, yr oedd ei ymateb i'r alwad i'r offeiriadaeth yn y blynyddoedd olaf yn sicr yn cau pen y mwdwl ar yrfa, cyfraniad a bywyd un â roddodd wasanaeth mewn sawl maes.

I mi, fel llawer ym myd y bél-gron fel Eric Reffari yr wyf yn ei gysylltu fwyaf. Ac ar yr agwedd yma y rhoddaf y pwyslais. Pan oeddwn i yn dechrau dyfarnu bum 'ar y lein' sawl tro gydag Eric yn dyfarnu. Y peth pwysig i Eric oedd bod tîm yno yn rheoli – dyfarnwr a dau lumanwr. Hanner amser, ac wedi'r gém rhyw bum munud o ddadansoddi perfformiad. O hyd ag agwedd positif – hyd yn oed os oedd camgymeriad amlwg. Yr oedd hyn yn deillio o gariad Eric at y gém a teimla ddyletswydd i feithrin y 'rhai ifanc' a ddeuai i'r adwy. Roedd Eric wedi dechrau dyfarnu cofier ar ddiwedd oes aur dyfarnwyr yr ardal hon – Gwilym Owen, Gwyn Pierce Owen, Gwilym Hughes, Huw John Hughes. Tybiai rhai efallai mai anfantais oedd cael dyfarnwr yn gwisgo sbectol. Mae'n siwr fod llawer wedi awgrymu iddo unai 'nad oedd y sbectol yn gweithio' neu ei fod yn 'gweld gormod'. Roedd Eric yn gweld digon i fod mewn llwyr reolaeth o'r gém. Anaml y caed achwyn am berfformiad Eric. A hynny mewn sawl gém ble roedd yn cael ei 'gynorthwyo' gan rai o lumanwyr clwb mwyaf un-llygeidiog welodd yr ardal.

Rheolaeth – hwnna oedd y gyfrinach. Parchai Eric y chwaraewyr fel pobol, eu cryfderau a'u gwendidau. Y cymeriadau. Sylwodd mai i'r mwyafrif o'r chwaraewyr gém pnawn Sadwrn oedd eu Cup Final gan eu bod yn cynhyrchioli EU tîm, EU pentref. Ar wahoddiad roedd o yno, nid rhyw deyrn ddeuai i reoli eu herwau. A cymerwch gen i, roedd rhai dyfarnwyr felly i'w cael. Eu awr a hanner fawr hwy.

Doedd dim rhyfedd i Eric gael ei benodi i gynrychioli dyfarnwyr ar sawl pwyllgor y gém yn enwedig Gymdeithas Pél-droed Gogledd Cymru. Yr un modd ar fwrdd rheoli y cynghreiriau lleol. Bu hefyd yn aseswr, a theimlaf fod sawl dyfarnwr wedi elwa o ddadansoddiad gefnogol Eric. Un da i gael ar bwyllgorau apél. Gwrandawr, dadansoddwr, gweithredwr. Beth oedd orau i'r gém oedd yn llywio'r dyfarniad.

Yn y blynyddoedd diwethaf eisteddais yn aml drws nesaf i Eric unai yn Nantporth neu ar yr Oval. Dau debyg oeddem. Gwylio'r gém a'r dyfarnwr. Cytunem ar un o wendidau sawl dyfarnwr cyfoes. Roedd y ddau ohonnom yn argyhoeddiedig eu bod yn dwyn baich arnynt eu hunain. Os yw dyfarnwr yn gweld trosedd, yna chwiban, esboniad byr yna symud ymlaen. " Bagliad. Cic rydd i'r Cochion." Symud oddi yno. Llawer o ddyfarnwyr yn aros heddiw i ddadlau. Torri rhythm y gém.

Dyn ffwtbol oedd Eric. Cynnal safon pél-droed yn ei holl agweddau oedd gweledigaeth Eric. Yng nghyfnod Llandysul – ac ambell i Sadwrn o Gaeathro - crwydrai gyda'r Prifardd Idris Reynolds i Stadiwm Liberty i wylio'r Elyrch. Tybed â feddyliodd ambell Sadwrn y gallasai ef fod wedi rheoli ar y lefel yma. Os oedd cysondeb ac ymroddiad yn elfennau pwy a ŵyr.

Yng ngholli Eric rydym wedi colli 'dyn da'. Dyn triw ei ddaliadau, parod ei gymwynas. Estynnwn ein cydymdeimlad â Beryl a'r teulu estynedig yn eu colled. Diolch am gael ei adnabod ac elwa o'i agwedd bositif mewn sawl agwedd o'i fywyd. Heddwch i'w lwch.

Richard Lloyd Jones

# Y WAUN YN PLESIO

Rwyn barod i gyfaddef nad yw sefyll dros yr Aber yng Nghaernarfon ar bnawn Sadwrn yn gwylio Waunfawr yn apelio yn fawr ataf. Am hynny, mae'n siwr bod rhaid i mi gyfaddef nad yw'r Beganifs wedi derbyn sylw dyladwy yn y colofnau hyn. Syrthiaf ar fy mai, ond fel rwyn hysbysu pob clwb, braf fuasai derbyn rhyw bwt o newyddion gan y clybiau. Serch hynny, manteisiais ar y cyfle ar nos Lun serog, oer i wylio y Waun yn herio Bangor 1876 ar faes pob tywydd Treborth. Denwyd 350 arall yno hefyd. Mae hyn yn ffenomenon yng nghyswllt pél-droed lleol. I gysylltu ag erthygl arall y mis, os bydd Bangor 1876 yn bencampwyr Cynghrair Gwynedd a fyddent yn cael chwarae ar Lefel 3 y tymor nesaf ar sail eu cyfleusterau?


Mwynheais y gém, ac roedd y ffaith I dim Bangor ennill 4-0 yn siarad cyfrolau am ddycnwch, trefniant i raddau ac ymroddiad chwaraewyr ifanc y Waun. Sgoriau rhifau dwbwl fu hi fel arfer i Fangor y tymor hwn. Mae Bangor yn dîm gwahanol iawn ar y maes pob tywydd i chwarae ar wair naturiol. Eu pasio yn slic a symud da oddiar y bél. Eu ffitrwydd yn ennill sawl gém â goliau hwyr yn pentyrru i rwyd y gwrthwynebwyr.

Ar y cychwyn roedd y Waun yn tueddu i wastraffu eu meddiant prin gan darannu y bél cyn belled i lawr y cae at ymosodwr unig iawn. Yn ôl deuai Bangor. Er dal yn gadarn wnai amddiffyn y Waun. Yna camgymeriad elfennol gan y gôl-geidwad yn rhoddi gôl ar blat i Fangor. Yna ail gôl wedi ei gorffen â pheniad gwych wedi pasio a chroesiad gelfydd. Ond ni agorodd y llifddorau. Magwyd hyder gan y Waun, a dechreuasant ddangos eu bod hwythau â'r gallu i gadw meddiant. Yn wir, crewyd dau gyfle da, gydag un ohonynt yn deillio o gyfnod celfydd o basio cyn rhyddhau y canolwr. Buasai gôl yr adeg hynny wedi tanio y Waun yn sicr. Yr un ymdrech yn yr ail hanner ac ambell i hanner cyfle. O'r perfformiad yma dylsai'r Waun fod yn uwch yn y gynghrair yn sicr.

Un pwynt i orffen. Roedd y Waun yn gyffyrddus yn chwarae ar y maes pob tywydd gan ei fod yn mynnu datblygu gém basio yn hytrach na'r bél hir undonog. Ai hyn yw'r ateb i ddatblygiadau pél-droed ym Mro'r Eco bellach. Cofiaf erthygl flynyddoedd yn ôl ble cyfeiriais at gyfleusterau rhyfeddol clwb Pél-droed Gwyddelig Ardara yn Donegal. Roeddent wedi datblygu y clwb trwy werthu eu hen gae ac adeiladu tai fforddiadwy arno. Beth am un cae pél-droed bob tywydd 4G ym mro'r Eco a'r clybiau yn ei rannu yn eu tro. Oes sail i uwchraddio y maes pob tywydd yn Ysgol Brynrefail i ateb y gofynion. Dim ond gofyn. Gorau Chwarae Cyd Chwarae??

# Chwaraeon




## Y FWYELL YN DISGYN

Erbyn hyn mae tynged dyfodol timau pel-droed Llanrug a Llanberis yn wybyddus. Yn dilyn ail wampio y gwahanol lefelau o bél-droed yng Nghymru, ni fydd y ddau dîm bellach yn chwarae ymysg clybiau lefel 3 o'r tymor nesaf ymlaen. Y prif reswm yw nad yw eu meysydd yn ateb gofynion y safonau newydd a osodwyd. Creulon yw hyn. Ni ellir cymharu y cyfleusterau a chyflwr meysydd Eithin Duon a Ffordd Padarn i'r caeau gogwyddol , mwdlyd â gofir gennym yn nyddiau yr hen Caernarfon and District. Dyma ddau glwb â fu'n ffodus o elwa o bwyllgorau gweithgar â gweledigaeth. Clybiau a gynyrchiolodd eu pentrefi i fod ymysg ceffylau blaen yr Arfordir ar gyfnodau. Clybiau a roddodd bwyslais ar feithrin ieuenctid ein hardal a llunio llwybr iddynt i'r timau hŷn. Mae'r ddau glwb wedi buddsoddi yn helaeth I wella cyfleusterau. Yn achos Eithin Duon cafwyd sawl gém Cwpan Cymru gofiadwy yno. Yn eironig, mae'n ymddangos gall y clwb gystadlu yng Nghwpan Cymru y tymor nesaf beth bynnag eu statws.

Ond mae mwy o gwestiynau i'w gofyn. Yn amlwg, bydd rhai timau is na'r ddau dîim lleol yn neidio dros eu pennau. Hynny ar sail eu ffurfio neu ail ffurfio ychydig o flynyddoedd yn ôl ac felly wedi manteisio ar ddarn o dir mwy i sefydlu y maes chwarae neu dderbyn grantiau datblygu.

A ble bydd y timau yn chwarae y tymor nesaf? Cynghrair Genedlaethol, Cynghrair y Gogledd ynteu ble? Hyd y gwelai i, yr unig ateb fydd dynodi Cynghrair Gwynedd â'i sawl adran yn Lefel 3, neu efallai cynnwys clybiau Môn hefyd a chreu Cynghrair y Gogledd Orllewin â'i sawl adran. Meddyliwch y costau teithio dan y fath fframwaith. Cymryd yn ganiataol fod dull cyfatebol yn y Gogledd Ddwyrain. Yna beth? Clybiau llai niferus y Canolbarth yn ffurfio eu system eu hunain. Ydy'r chwaraewyr presennol yn barod i dderbyn y newidiadau ac aros yn ffyddlon, neu yn fwy tebygol i symud. Yn sicr, gwelaf nifer o'r clybiau lleol yn dirwyn i ben. Bydd arian yn siarad yn sicr!

Edrychwn ymlaen i ddarganfod beth fydd cynllun arfaethedig y Gymdeithas Bél-droed yn eu gosod o glybiau yn Lefel3/4.